




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru – Dadansoddiad Cam 2



Dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru – Dadansoddiad Cam 2

Cynulleidfa Lluniwyd yr adroddiad hwn yn bennaf ar gyfer Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogion Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Lles (mae'r grŵp yn cynnwys y Gweinidog Addysg a Sgiliau; y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau; y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth; y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol) a swyddogion polisi a dadansoddi perthnasol.

Trosolwg Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y gwaith dadansoddi a wnaed yn fewnol gan Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (Llywodraeth Cymru) fel rhan o Gam 2 rhaglen ymchwil Llywodraeth Cymru i asesu effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru. Cynhaliwyd gweddill Dadansoddiad Cam 2 yn allanol gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid a gellir ei gyrchu drwy'r ddolen ganlynol:

www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Camau i'w cymryd Dim – er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Yr Adran Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 6160
Ffacs: 029 2082 5350
e-bost: welfarereform@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Cynnwys

Rhestr o acronymau	2
Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol	3
Cyflwyniad	11
Amcangyfrif o effeithiau uniongyrchol y prif ddiwygiadau lles ar incwm cartrefi yng Nghymru	13
Effeithiau economaidd a chymdeithasol ehangach y diwygiadau lles a'r goblygiadau posibl i wasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru	29
Casgliadau a'r camau nesaf	84
Cyfeiriadau	89
Atodiad: Effaith ddosbarthiadol gwasanaethau cyhoeddus	100

Rhestr o acronymau

ALI	awdurdod lleol
AME	Gwariant a Reolir yn Flynyddol
BIS	Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau
CLILC	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
COSLA	Confensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban
CPI	Mynegai Prisiau Defnyddwyr
CThem	Cyllid a Thollau EM
DEL	Terfynau Gwariant Adrannol
DLA	Lwfans Byw i'r Anabl
DPDP	prosiect arddangos taliadau uniongyrchol
DWP	Yr Adran Gwaith a Phensiynau
ESA	Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
IFS	Sefydliad Astudiaethau Cyllid
MIF	Terfyn Incwm Isaf
NEET	ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
PIP	Taliad Annibyniaeth Bersonol
RPI	Mynegai Prisiau Manwerthu
SAG	Swyddfa Archwilio Genedlaethol
SYG	Swyddfa Ystadegau Gwladol
WRAG	Grŵp Gweithgarwch sy'n Seiliedig ar Waith

Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol

- Mae Deddf Diwygio Lles 2012 yn cyflwyno'r newidiadau mwyaf i fudd-daliadau lles a welwyd ers 60 mlynedd. Amcangyfrifir y bydd y diwygiadau a gyhoeddwyd yn 2010 yn arbed mwy na £18 biliwn erbyn 2014–15 (tua 8 y cant o gyllideb y DU ar gyfer budd-daliadau nawdd cymdeithasol a chredydau treth). At hynny, cyhoeddwyd rhagor o doriadau lles yn Natganiad Hydref 2012, sy'n cyfateb i £3.7 biliwn erbyn 2015–16.
- Er mwyn deall effaith y toriadau hyn yng Nghymru yn well, mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogion Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Lles wedi comisiynu rhaglen ymchwil mewn tri cham. Cyhoeddwyd gwaith ymchwil Cam 1 ar wefan Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2012.
- Mae'r adroddiad hwn, a luniwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ffurfio rhan o waith ymchwil Cam 2 ac mae'n cwmpasu'r meysydd canlynol:
 - amcangyfrif o effeithiau uniongyrchol y prif ddiwygiadau lles ar incwm cartrefi yng Nghymru
 - effeithiau economaidd a chymdeithasol ehangach y diwygiadau lles a'r goblygiadau posibl i wasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.
- Gwnaed gweddill gwaith ymchwil Cam 2 yn allanol gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS). Ceir canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn yn *Dadansoddiad ex-ante o effeithiau diwygiadau lles Llywodraeth y DU ar y cyflenwad llafur yng Nghymru* gan Adam a Phillips (IFS, 2013). Gellir darllen yr adroddiad drwy fynd i www.cymru.gov.uk/addysgagiliau

Amcangyfrif o effeithiau uniongyrchol y prif ddiwygiadau lles ar incwm cartrefi yng Nghymru

- Ar gyfer y diwygiadau lles a ddadansoddwyd, mae'r effeithiau amcangyfrifedig posibl mwyaf yng Nghymru o ganlyniad uniongyrchol i'r newidiadau polisi a gyhoeddwyd fel a ganlyn¹.
 - Mae tua 350,000 o hawlwr budd-daliadau oedran gweithio a 330,000 o deuluoedd sy'n cael credydau treth eisoes wedi colli incwm o ganlyniad i'r penderfyniad i uwchraddio'r rhan fwyaf o fudd-daliadau drwy'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) a byddant yn parhau i golli incwm. Amcangyfrifir y bydd cyfanswm yr incwm blyneddol a gollir yng Nghymru yn 2011–12 yn £90 miliwn, gan gynyddu i tua £600 miliwn yn 2015–16. Dyma'r effaith

¹ Noder: Efallai na fydd y ffigurau yn symio oherwydd talgrynnu.

fwyaf o bell ffordd o ran graddau'r incwm a gollir. At hynny, bydd effaith negyddol ychwanegol ar incymau yng Nghymru (tua £113 miliwn yn 2015–16) o ganlyniad i'r penderfyniad a gyhoeddwyd yn ddiweddar i uwchraddio'r rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gweithio, elfennau penodol o gredydau treth (y ddau rhwng 2013–14 a 2015–16) a Budd-dal Plant (rhwng 2014–15 a 2015–16) 1 y cant yn hytrach na phrisiau. Fodd bynnag, bydd effaith y cap hwn yn dibynnu'n bennaf oll ar yr alldro ar gyfer chwyddiant dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

- Amcangyfrifir y bydd tua 42,500 o hawlwyr yn colli eu hawl i gael Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) erbyn Mai 2018, sy'n cyfateb i tua £55–83 yr wythnos ar gyfartaledd yng Nghymru. Mae hyn yn golygu cyfanswm colled incwm blynyddol yng Nghymru o £122–183 miliwn erbyn 2018–19.
- Amcangyfrifir y bydd tua 56,000 o hawlwyr yn gweld gostyngiad o hyd at £89 yr wythnos yn eu hincwm o fudd-daliadau o ganlyniad i'r polisi terfyn amser ar gyfer Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cyfrannol. Gallai cyfanswm colled incwm blynyddol yng Nghymru fod tua £132 miliwn erbyn 2015–16.
- Mae effeithiau negyddol eraill, er ar raddfa lai, yn cynnwys y canlynol.
 - Amcangyfrifir bod mwy na 48,500 o dderbynwyr Budd-dal Tai wedi colli £9 yr wythnos ar gyfartaledd yn sgil diwygiadau Ebrill 2011, sy'n cyfateb i golled flynyddol yng Nghymru o £23 miliwn.
 - Mae'n debygol y bydd y penderfyniad i rewi cyfraddau Budd-dal Plant am dair blynedd o 2011–12 yn effeithio ar tua 370,000 o deuluoedd a 640,000 o blant. Amcangyfrifir y bydd pob teulu yn colli tua £2.50 yr wythnos ar gyfartaledd yn 2013–14, fydd yn cyfateb i golled flynyddol o £47 miliwn yng Nghymru.
 - Mae'n debygol y bydd newid y trothwy oedran ar gyfer y gyfradd llety a rennir wedi effeithio ar fwy na 3,000 o dderbynwyr Budd-dal Tai, a fydd yn colli tua £24 yr wythnos. Amcangyfrifir bod cyfanswm y golled flynyddol yng Nghymru yn £4 miliwn.
 - Amcangyfrifir bod diddymu darpariaethau ieuenctid o dan Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cyfrannol wedi effeithio ar 1,200 o hawlwyr, gyda cholledion wythnosol ar gyfartaledd fesul hawliwr yn debygol o fod tua £25 yr wythnos. Amcangyfrifir y caiff cyfanswm y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a delir i bobl ifanc yng Nghymru ei ostwng tua £1.7 miliwn erbyn 2015–16.

- Amcangyfrifir y bydd y cynnydd yn y rheol oriau gweithio i barau â phlant a dileu'r trothwy ail incwm sy'n rhan o'r newidiadau i gredydau treth yn effeithio ar tua 9,400 a 43,500 o gartrefi yn y drefn honno, gydag uchafswm colledion incwm wythnosol fesul cartref o tua £74 a £10. Yn yr un modd, disgwylir i golledion blynyddol yng Nghymru fod hyd at £36 miliwn a £24 miliwn.
- Bydd ymestyn yr Ymrwymadau Rhieni Unigol ym mis Mai 2012 wedi effeithio ar rieni unigol sy'n hawlio Cymhorthdal Incwm ac sydd â phlentyn ieuengaf 5 neu 6 oed. Disgwylir i'r mwyafrif drosglwyddo i'r Lwfans Ceiswyr Gwaith. Ym mis Chwefror 2012 roedd tua 5,000 o rieni unigol yng Nghymru yn y categori hwnnw. Amcangyfrifir y gallai hyd at 1,250 o'r rhieni unigol a effeithir yng Nghymru symud i fyd gwaith, o gofio bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar baratoi ar gyfer gwaith ac ar ymrwymo i chwilio am waith.
- Disgwylir i tua 31,000 o deuluoedd yng Nghymru golli £25 o incwm yr wythnos ar gyfartaledd o ganlyniad i'r gyfradd dapr a gymhwysir at Fudd-dal Plant. O ganlyniad gellid gweld colli cyfanswm o £41 miliwn o incwm y flwyddyn yng Nghymru.
- Bydd diwygiadau Budd-dal Tai Ebrill 2013 yn codi cyfraddau Lwfans Tai Lleol yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn hytrach na rhenti gwirioneddol a bydd yn lleihau'r swm o fudd-dal a delir i hawlwyd sy'n tanfeddiannu eiddo cymdeithasol ar rent. Amcangyfrifir y bydd y colledion wythnosol ar gyfartaledd fesul unigolyn yn £6 a £12 yn y drefn honno, gyda chyfanswm o £40 miliwn o golledion blynyddol yng Nghymru. Caiff newid pellach ei wneud i'r polisi uwchraddio ar gyfer cyfraddau Lwfans Tai Lleol o 2014–15 am ddwy flynedd. Bydd hyn yn cynnwys capio'r codiad yn y cyfraddau ar 1 y cant.
- Amcangyfrifir y bydd tua 1,500 o gartrefi yng Nghymru yn gweld eu hincwm o fudd-daliadau yn cael ei ostwng tua £70 yr wythnos ar gyfartaledd o ganlyniad i'r Cap ar Fudd-dal Tai yn 2013–14. Rhagwelir y bydd cyfanswm y colledion incwm blynyddol yng Nghymru tua £5 miliwn.
- Amcangyfrifir y caiff cyllid y rhaglen ar gyfer yr elfennau hynny o'r Gronfa Gymdeithasol sy'n cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru ei leihau o £11.7 miliwn yn 2011–12 i £10.2 miliwn yn 2013–14 a 2014–15, tra disgwylir i anghenion gynyddu.
- Bydd Llywodraeth y DU yn datganoli'r cyfrifoldeb am helpu teuluoedd incwm isel i dalu eu treth gyngor a bydd yn lleihau'r arian a ddarperir 10 y cant o 2013–14. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud iawn am y diffyg yn yr arian a ddarperir i helpu i dalu'r dreth gyngor yng Nghymru yn

2013–14 gan sicrhau y bydd yr unigolion hynny sy'n gymwys i gael cymorth yn parhau i gael yr arian y mae ganddynt hawl iddo.

- Yn gyffredinol, disgwylir i'r Credyd Cynhwysol gynyddu incwm cartrefi yng Nghymru £22 miliwn (heb gynnwys diogelwch trosiannol) yn 2014–15. Fodd bynnag, mae hyn yn cael ei wrthbwysu i raddau helaeth gan y colledion incwm a amcangyfrifir o'r diwygiadau lles eraill.
- Bwriedir i'r canfyddiadau a amlinellwyd uchod roi rhyw syniad o nifer yr hawl wyr y gallai pob un o'r prif ddiwygiadau lles effeithio arnynt ac amcangyfrif o'r colledion incwm uniongyrchol yng Nghymru. Ni fwriedir i'r dadansoddiad nodi cyfanswm y golled i incwm cartrefi yng Nghymru o ganlyniad i effaith gronnol y diwygiadau lles. Felly, byddai'n amhriodol cyfansymio pob un o'r colledion incwm a amcangyfrifir o ganlyniad i ddiwygiadau unigol, yn rhannol am nad ydynt yn seiliedig ar brisiau o'r un flwyddyn (o gofio'r amserlenni amrywiol ar gyfer cyflwyno'r diwygiadau) a hefyd am fod y dadansoddiad yn un rhannol. Fodd bynnag, fel rhan o waith ymchwil Cam 2 a gomisiynwyd yn allanol, mae Adams a Phillips (2013) wedi asesu effaith gyfun y rhan fwyaf o'r diwygiadau lles a gyhoeddwyd cyn datganiad yr Hydref ym mis Rhagfyr ar incwm cartrefi yng Nghymru ac maent yn amcangyfrif y caiff tua £590 miliwn o incwm ei golli'n uniongyrchol yn 2014–15. Mae hyn yn cyfateb i tua £7.26 fesul teulu bob wythnos ar gyfartaledd², sef tua 1.5 y cant o'u hincwm net. Ni ellir cymharu'r dadansoddiad a wnaed gan Adams a Phillips (2013) yn uniongyrchol â'r un a geir yn yr adroddiad hwn am fod cwmpas y dadansoddiadau yn wahanol yn ogystal â rhai o'r tybiaethau a wnaed a'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd. Dylid trin y ddau ddadansoddiad fel rhai dangosol.
- Mae Adam a Phillips (2013) hefyd yn nodi y disgwylir i deuluoedd incwm isel i ganolig weld y colledion cyfartalog mwyaf o ganlyniad i'r diwygiadau lles. Yn ôl y math o deulu, yn gyffredinol, teuluoedd nad ydynt yn gweithio â phlant sy'n debygol o weld y colledion cyfartalog mwyaf. Caiff pensiynwyr, a theuluoedd heb blant lle y mae pob oedolyn yn gweithio eu diogelu i raddau helaeth gan y toriadau. At hynny, mae gwaith dadansoddi ychwanegol a wnaed gan Crawford, Joyce a Phillips (2012) yn awgrymu y bydd y toriadau lles yn cael mwy o effaith ar Gymru na'r DU yn gyffredinol am fod mwy o bobl yng Nghymru yn dibynnu ar fudd-daliadau lles.

² Cyfrifwyd y golled gyfartalog hon ar gyfer pob cartref yng Nghymru yn hytrach na dim ond y cartrefi hynny yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y diwygiadau lles.

Effeithiau economaidd a chymdeithasol ehangach diwygiadau lles a'r goblygiadau posibl i wasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru

- Fel y crynhowyd uchod ac y nodwyd yn Adroddiad Cam 1 a'r gwaith ymchwil a gomisiynwyd yn allanol ac a wnaed gan Adam a Phillips (2013), bydd diwygiadau lles Llywodraeth y DU yn cael effeithiau pellgyrhaeddol ar hawl wyr budd-daliadau, yn enwedig cartrefi incwm isel i ganolig a theuluoedd nad ydynt yn gweithio â phlant. O ganlyniad, disgwylir y bydd goblygiadau i'r gwasanaethau cyhoeddus datganoledig sy'n eu cefnogi.
- Gallai'r diwygiadau lles gael effaith negyddol uniongyrchol ar **iechyd** hawl wyr drwy leihau neu golli incwm o fudd-daliadau o ganlyniad i feini prawf cymhwysedd llymach, gofynion amodoldeb a chosbau llymach; lefelau uwch o dlodi; asesiadau meddygol newydd, ansicr a llymach; apeliadau ac ailasesiadau; problemau cyllidebu sy'n gysylltiedig â budd-daliadau misol, uniongyrchol; hawl wyr yn symud i dai rhatach, o ansawdd gwaeth a allai fod yn orlawn; a chyfuniad o lai o adnoddau ariannol a galw cynyddol am gymorth gan y Gronfa Gymdeithasol a'r Gronfa Byw'n Annibynnol. Efallai y bydd effeithiau incwm anuniongyrchol hefyd ar hawl unigolion i nifer o fudd-daliadau 'pasbort' sy'n gysylltiedig ag iechyd. Bydd yr effeithiau hyn yn debygol o gynyddu'r pwysau ar y gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Fodd bynnag, os bydd y diwygiadau yn llwyddo i gael pobl i mewn i waith, caiff yr effeithiau negyddol hyn eu gwrthbwysu (i ryw raddau) gan yr effeithiau cadarnhaol ar iechyd sy'n gysylltiedig â chyflogaeth. Bydd diogelwch trosiannol hefyd yn lliniaru'r 'ergyd' i rai hawl wyr.
- O gofio'r gydberthynas rhwng incwm isel, tlodi a'r galw am ofal cymdeithasol, mae'n bosibl y bydd effeithiau diwygiadau lles yn rhoi mwy o bwysau ar **wasanaethau gofal cymdeithasol** yng Nghymru, yn enwedig yn y tymor hwy. Yn benodol, efallai y bydd yn rhaid dibynnu mwy ar ofalwyr anffurfiol wrth i hawl wyr golli rhywfaint o'r cymorth ariannol a'r gwasanaethau roeddent yn arfer dibynnu arnynt neu eu colli i gyd. Ar gyfer y rhai sy'n gorfod mudo i ardaloedd rhatach, gallai hyn arwain at golli rhwydweithiau cymorth anffurfiol a tharfu ar ddarparu gofal ffurfiol. Bydd yr effaith fudo hon yn effeithio ar ddosbarthu anghenion gwasanaeth ledled Cymru gyda rhai ardaloedd (yn enwedig y rhai difreintiedig) yn wynebu galw cynyddol. Disgwylir i'r rheolau tanfeddiannu newydd yn y sector eiddo cymdeithasol ar rent gael effaith negyddol ar ofalwyr maeth

hefyd. Bydd toriadau ariannu i'r Gronfa Byw'n Annibynnol yn ychwanegu at y problemau hyn ymhellach. Fodd bynnag, fel gydag iechyd, gallai cyflogaeth gael effaith gadarnhaol ar anghenion gwasanaeth a'r galw am wasanaethau.

- Mae effeithiau posibl ar wasanaethau **tai** yn ymwneud â fforddiadwyedd tai, ôl-ddyledion rhent, troi allan a digartrefedd o ganlyniad i doriadau mewn budd-daliadau, taliadau uniongyrchol a misol, a chosbau, a allai greu problemau cyllidebu. Er y bydd diogelwch trosiannol am gyfnod penodol a chynnydd mewn taliadau tai yn ôl disgresiwn ar gael, mae'r olaf yn fach o gymharu â graddau'r toriadau mewn Budd-dal Tai. At hynny, bydd llai o arian ar gael drwy Gymorth ar gyfer Llog ar Forgais. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd landlordiaid yn mynd i gostau ychwanegol yn gysylltiedig â chasglu rhenti a rheoli tenantiaethau ac mae'n bosibl y bydd mwy o bwysau arnynt i ostwng lefelau rhent a fydd yn golygu eu bod yn cael llai o incwm o'u heiddo. Mae hefyd risg y gwelir lleihad yn nifer yr eiddo a osodir i hawlwyrr Budd-dal Tai yn y sector rhentu preifat, ac efallai y bydd prinder eiddo addas penodol i'r rhai yr effeithir arnynt gan y penderfyniad i ymestyn y Gyfradd Llety a Rennir a'r rheolau tanfeddiannu. Efallai y caiff teuluoedd eu gorfodi i symud i ardaloedd rhatach (sydd eisoes yn ddifreintiedig) gan gynyddu'r pwysau ar dai yn yr ardaloedd hyn, yn enwedig ar gyfer llety gwely a brecwast a llety dros dro lle na all y cyflenwad ateb y galw. Mae'n bosibl y bydd yn arwain at dai gorlawn a phobl yn byw mewn tai o ansawdd gwaeth. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai effeithiau cadarnhaol megis hawlwyrr yn ceisio cyflogaeth a fydd yn gwneud iawn am ddyledion rhent ac mae'n bosibl y gwneir defnydd mwy effeithlon o dai cymdeithasol o dan y rheolau tanfeddiannu.
- At hynny, mae'n bosibl y bydd y diwygiadau lles yn effeithio ar **ddeilliannau addysgol**. Yn ogystal â'r effaith negyddol y gallai llai o incwm a mwy o dlodi ei chael ar ddeilliannau addysgol, mae'n bosibl y bydd yr effeithiau mudo a all ddeillio o'r diwygiadau Budd-dal Tai yn cael canlyniadau penodol o ran mynediad i ysgolion sy'n perfformio'n dda (a'u deilliannau addysgol cadarnhaol cysylltiedig), parhad darpariaeth addysgol a phwysau ar leoedd mewn ysgolion. Gall hefyd fod effeithiau andwyol ar gyrhaeddiad addysgol i'r teuluoedd hynny sy'n colli'r hawl i gael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, ar yr un pryd, mae'n bosibl y bydd gan rai teuluoedd hawl i gael budd-daliadau 'pasbort' sy'n gysylltiedig ag addysg. Mae darparu sgiliau, gwybodaeth, cyngor a chanllawiau gyrfa a chyllid myfyrwyr yn

wasanaethau ac yn gyllidebau eraill yr effeithir arnynt, o bosibl. O ran effaith rhaglen o fudd-dal i waith DWP, mae sylwadau gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (SAG) yn awgrymu bod perfformiad hyd yma wedi bod gryn dipyn yn is na'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer y rhaglen a disgwyliad craidd DWP. Mae amodoldeb sgiliau hefyd wedi'i gyflwyno yng Nghymru. Er ei bod yn bosibl y bydd hyn yn arwain at fwy o gosbau yn gysylltiedig â budd-daliadau am fethu â chydymffurfio, mewn rhai achosion mae'n bosibl y bydd yn gwella rhagolygon cyflogaeth.

- O ran **datblygu economaidd**, mae'r effeithiau allweddol yn ymwneud ag incwm cartrefi (o fudd-daliadau/credydau treth ac enillion), gwariant, cyflogaeth, hunangyflogaeth ac allbwn economaidd. Mae Adam a Phillips (2013) yn amcangyfrif y bydd diwygiadau lles llywodraeth glymblaid y DU a gyhoeddwyd cyn datganiad yr Hydref ym mis Rhagfyr yn lleihau cyfanswm y budd-daliadau a'r credydau treth y mae gan unigolion hawl iddynt tua £590 miliwn (neu £520 miliwn os cynhwysir Credyd Cynhwysol). Fodd bynnag, mae'r un astudiaeth yn rhag-weld y caiff gwell cymhellion i weithio effaith gadarnhaol, er yn fach, ar y cyflenwad llafur yng Nghymru (e.e. amcangyfrif canolog: cyflogaeth oedran gweithio +0.3 pwynt canran neu tua 5,000 o bobl ac enillion crynswth cyfunol +0.5 y cant neu £149 miliwn), er bod cryn dipyn o ansicrwydd o hyd ynghylch maint yr effaith hon. Bydd y galw am lafur yn ffactor dylanwadol pwysig ar ddeilliannau yn y byrdymor. Bydd newidiadau mawr o dan y Credyd Cynhwysol yn effeithio ar yr hunangyflogedig, yn enwedig y rhai ar gyflog isel. Yn benodol, tybir bod hawlwyf hunangyflogedig sefydledig yn ennill o leiaf isafswm incwm a bennwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), a ddefnyddir (yn hytrach nag enillion gwirioneddol) i gyfrifo'r symiau a ddyfernir i hawlwyf o dan y Credyd Cynhwysol. At hynny, bydd beichiau gweinyddol yn gysylltiedig â gofynion cofnodi incwm misol. Gallai'r newidiadau hyn o bosibl gynyddu'r galw am wasanaethau cymorth busnes Llywodraeth Cymru, yn enwedig cymorth ariannol. Mae hefyd yn bosibl y bydd y diwygiadau lles yn cael sgil-ffeithiau negyddol ar gyflogaeth a chyflogau unigolion nad yw'r diwygiadau yn effeithio arnynt yn uniongyrchol. Efallai y bydd newidiadau mewn patrymau gwario (gan y rhai yr effeithir ar eu hincwm yn uniongyrchol gan newidiadau i'r budd-daliadau y mae gan unigolion hawl i'w cael, gan newidiadau mewn cyflogaeth ac oriau gwaith, neu gan sgil-ffeithiau) yn cael effeithiau economaidd ehangach. Er enghraifft, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn amcangyfrif y bydd newidiadau polisi sy'n cael yr effaith uniongyrchol o leihau

gwariant ar les 1 y cant o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth (megis y rhai a roddwyd ar waith neu y disgwylir iddynt gael eu rhoi ar waith gan lywodraeth glymblaid y DU) yn lleihau CMC 0.6 y cant yn y tymor byr. Fodd bynnag, mae amcangyfrifon eraill gan y Gronfa Ariannol Ryngwladol (IMF) a hefyd astudiaethau yn UDA o gyfnodau o wendid economaidd yn awgrymu y gall yr effeithiau lluosydd fod yn fwy byth.

- Mae'n bosibl yr effeithir ar wasanaethau a chyllidebau **Cymunedau a Chyfiawnder Cymdeithasol** o ganlyniad i effeithiau negyddol posibl y diwygiadau lles ar dlodi, cynhwysiant ariannol, cyngor ar fudd-daliadau/dyledion (y bydd newidiadau Llywodraeth y DU i gymorth cyfreithiol hefyd yn effeithio arnynt), trosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol, cam-drin domestig a chynhwysiant digidol. At hynny, efallai y bydd mwy o bwysau ar yr olynydd i'r Gronfa Gymdeithasol yng Nghymru am y bydd y gyllideb a drosglwyddir i Lywodraeth Cymru yn cael ei lleihau yn 2013–14 ac wedyn yn cael ei rhewi yn hytrach na thyfu o flwyddyn i flwyddyn tra disgwylir i'r galw am wasanaethau gynyddu. Fodd bynnag, efallai y gwelir rhai effeithiau cadarnhaol drwy well cymhellion i weithio a phobl yn symud i mewn i'r farchnad lafur o ganlyniad i hynny.
- Bydd nifer o ganlyniadau i wasanaethau a chyllidebau **llywodraeth leol** yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys cynnydd tebygol yn y galw am wasanaethau megis hawliau lles a gwybodaeth am les, cymorth i hawlio ar-lein, cyngor ar ddyledion ac adennill dyledion/troi allan, cymorth cyllidebu, cymorth cyflogaeth a cheisiadau am fudd-daliadau a chymorth ariannol arall (e.e. taliadau tai yn ôl disgresiwn). Yn ogystal â'r galw cynyddol hwn, ceir hefyd effaith ffrydiau ariannu llai gan gynnwys ar gyfer sefydlu cynllun cymorth y dreth gyngor newydd. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi yn ddiweddar y bydd yn gwneud iawn am y diffyg yn yr arian a drosglwyddir o Lywodraeth y DU i helpu gyda'r dreth gyngor yn 2013–14. Er y gallai'r cynllun newydd gynyddu'r risg ariannol a wynebir gan awdurdodau lleol (ALLau), gallai hefyd gael rhai effeithiau dymunol megis hyrwyddo cyflogaeth a thwff yn yr economi leol. At hynny, bydd effeithiau gweithredol uniongyrchol eraill ar ALLau sy'n gysylltiedig â'r newidiadau Budd-dal Tai o dan y Credyd Cynhwysol.

Cyflwyniad

Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogion Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Lles³ wedi comisiynu rhaglen ymchwil i ddadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru, er mwyn darparu tystiolaeth i helpu i wneud penderfyniadau yn y dyfodol. Defnyddir canlyniadau'r ymchwil hon i helpu i dargedu ymdrechion Llywodraeth Cymru i liniaru (lle y bo'n bosibl) unrhyw oblygiadau negyddol sydd ynghlwm wrth y diwygiadau lles a pharhau i flaenoriaethu adnoddau i leihau tlodi yng Nghymru gan gyfrannu at yr ymrwymïadau a wnaed yn y Rhaglen Lywodraethu.

Cyhoeddwyd canfyddiadau Cam 1 y rhaglen ymchwil hon ym mis Chwefror 2012 gan gyfiawnhau llawer o bryderon Llywodraeth Cymru ynghylch cwmpas a maint y newidiadau y mae Llywodraeth y DU yn eu cyflwyno o fewn ei hagenda diwygio lles ehangach. Ers hynny, cafodd Bil Diwygio Lles Llywodraeth y DU gydsyniad brenhinol, a oedd yn deddfu ar gyfer y newidiadau mwyaf i'r system lles ers dros 60 mlynedd. Hefyd, nododd Datganiad Hydref 2012 becyn o ddiwygiadau lles a fydd yn arbed £3.7 biliwn arall yn 2015–16, gan ychwanegu at fesurau a gyhoeddwyd yn 2010 a fydd yn arbed £18 biliwn⁴ o wariant ar les erbyn 2014–15. Ar gyfer y newidiadau hynny a roddwyd ar waith eisoes, mae tystiolaeth yn dod i law o'u heffeithiau cynnar. Yn y cyfamser, mae gwaith ymchwil Cam 2 wedi mynd rhagddo ac fe'i cwblhawyd ym mis Rhagfyr 2012. Mae'n cynnwys y pedair elfen gydgysylltiedig a restrir isod, a gyflawnwyd drwy gyfuniad o waith ymchwil mewnol ac allanol. Mae'r gwaith ymchwil mewnol (a gynhwysir yn yr adroddiad hwn) yn ymdrin ag elfennau 1, 2 a 3. At hynny, comisiynodd Llywodraeth Cymru y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS) i wneud rhagor o waith ymchwil i elfen 4 a hefyd roi rhywfaint o sylw i elfennau 1 a 3.

Mae'r ymchwil a gomisiynwyd yn allanol ar gael yn *Dadansoddiad ex-ante o effeithiau diwygiadau lles Llywodraeth y DU ar y cyflenwad llafur yng Nghymru* gan Adam a Phillips (2013) a gellir ei darllen drwy fynd i www.cymru.gov.uk.addysgsgiliau

³ Yn cynnwys y Gweinidog Addysg a Sgiliau; y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau; y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth; a'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol.

⁴ Nid yw hyn yn cynnwys cost Credyd Cynhwysol ym Mhrydain Fawr, yr amcangyfrifir ei bod yn £2 biliwn.

Dadansoddiad Cam 2

1. Amcangyfrif o effeithiau uniongyrchol y diwygiadau lles ar incwm cartrefi yng Nghymru.
2. Effeithiau cymdeithasol posibl y diwygiadau lles a'r goblygiadau i wasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.
3. Sut mae'r diwygiadau yn debygol o newid patrymau gwario ac ystyried yr effeithiau economaidd ehangach ymhellach.
4. Effaith y diwygiadau lles ar y cyflenwad llafur yng Nghymru.

Amcangyfrif o effeithiau uniongyrchol y prif ddiwygiadau lles ar incwm cartrefi yng Nghymru

Mae Deddf Diwygio Lles 2012 yn cyflwyno'r newidiadau mwyaf i fudd-daliadau lles a welwyd ers 60 mlynedd. Amcangyfrifir y bydd y diwygiadau a gyhoeddwyd yn 2010 yn arbed tua £18 biliwn⁵ erbyn 2014–15 (tua 8 y cant o gyllideb y DU ar gyfer budd-daliadau nawdd cymdeithasol a chredydau treth). At hynny, cyhoeddwyd rhagor o doriadau lles yn Natganiad Hydref 2012, sy'n cyfateb i £3.7 biliwn erbyn 2015–16. Ceir manylion y prif ddiwygiadau yn **Nhabl 1** (tudalen 17) Maent yn amrywio o newid y dull mynegeo a ddefnyddir o'r RPI i'r CPI sy'n is ar y cyfan gyda chap o 1 y cant o 2013–14 am dair blynedd, gostyngiadau mewn Budd-dal Tai, gosod terfyn amser o flwyddyn ar gyfer cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) cyfrannol ar gyfer y rhai yn y grŵp gweithgarwch sy'n seiliedig ar waith (WRAG), meini prawf cymhwysedd llymach ar gyfer credydau treth, prawf cyfoeth ar gyfer Budd-dal Plant, dileu'r Lwfans Byw i'r Anabl a rhoi Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP) llymach yn ei le, cyflwyno'r Credyd Cynhwysol, sef taliad misol fesul cartref a fydd yn disodli chwech o'r prif fudd-daliadau oedran gweithio a chredydau treth sy'n seiliedig ar brawf modd, a Chap ar Fudd-daliadau Cartrefi wedi'i bennu ar sail cyflog cyfartalog cartrefi sy'n gweithio ar ôl didynnu treth. At hynny, trosglwyddwyd y cyfrifoldebau gweinyddol ac ariannol am y trefniadau olynol ar gyfer Budd-dal y Dreth Gyngor ac elfennau dewisol y Gronfa Gymdeithasol i Lywodraeth Cymru.

Mae'r adran hon yn cyflwyno data o asesiadau effaith a gynhyrchwyd gan DWP a Chyllid a Thollau EM (CThEM) ar ddiwygiadau lles Llywodraeth y DU. Wrth asesu effeithiau posibl mae DWP a CThEM wedi cymharu senario lle mae mesur newydd penodol ar waith, er enghraifft Taliad Annibyniaeth Bersonol, â senario lle nad oedd y diwygiad hwn wedi'i roi ar waith, er enghraifft parhad y Lwfans Byw i'r Anabl. Mae'r asesiadau effaith hyn yn gyfyngedig ac felly dylid trin y dadansoddiad o'r effeithiau a gyflwynir yn y papur hwn fel un dangosol. At hynny, nid oes data ar gael ar effaith bosibl pob un o'r diwygiadau lles yng Nghymru. Am fod y data yn anghyflawn, gwnaed nifer o dybiaethau yn y dadansoddiad hwn. Mae amcangyfrifon wedi'u talgrynnu fel y bo'n briodol ac maent yn ymwneud â'r effeithiau ar unigolion/cartrefi yr effeithir arnynt gan bob un o'r newidiadau i fudd-daliadau.

Bwriedir i'r dadansoddiad isod roi syniad o'r niferoedd o hawl wyr a allai gael eu heffeithio gan **bob** un o'r prif ddiwygiadau lles ac amcangyfrif o'r colledion incwm uniongyrchol yng Nghymru. Mae'n bosibl y bydd nifer o newidiadau mewn polisi yn effeithio

⁵ Nid yw hyn yn cynnwys cost y Credyd Cynhwysol ym Mhrydain Fawr, yr amcangyfrifir ei bod yn £2 biliwn.

ar rai hawlwyr budd-daliadau. **Ni** fwriedir i'r dadansoddiad nodi **cyfanswm** y golled i incwm cartrefi yng Nghymru o ganlyniad i effaith gronnol y diwygiadau lles. Felly, byddai'n amhriodol cyfansymio pob un o'r colledion incwm a amcangyfrifir o ganlyniad i ddiwygiadau unigol, yn rhannol am nad ydynt yn seiliedig ar brisiau o'r un flwyddyn (o gofio'r amserlenni amrywiol ar gyfer cyflwyno'r diwygiadau) a hefyd am fod y dadansoddiad yn un rhannol.

Fel rhan o waith ymchwil Cam 2 a gomisiynwyd yn allanol, mae Adams a Phillips (2013) wedi asesu effaith **gyfun** y rhan fwyaf o'r diwygiadau lles ar incwm cartrefi yng Nghymru⁶ ac maent yn amcangyfrif y caiff tua £520 miliwn o incwm ei golli'n uniongyrchol yn 2014–15 (neu £590 miliwn os na chynhwysir Credyd Cynhwysol). Fodd bynnag, ni ellir cymharu'r dadansoddiad a wnaed gan Adams a Phillips (2013) yn uniongyrchol â'r un a geir yn yr adroddiad hwn am fod cwmipas y dadansoddiadau yn wahanol yn ogystal â rhai o'r tybiaethau a wnaed a'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd.

Mae Adam a Phillips hefyd yn nodi mai teuluoedd incwm isel i ganolog yng Nghymru fydd yn gweld y colledion cyfartalog mwyaf o ganlyniad i'r diwygiadau lles. Yn ôl y math o deulu, yn gyffredinol, teuluoedd nad ydynt yn gweithio â phlant sy'n debygol o weld y colledion cyfartalog mwyaf. Caiff pensïynwyr, a theuluoedd heb blant lle y mae pob oedolyn yn gweithio, eu diogelu i raddau helaeth gan y toriadau. At hynny, mae gwaith dadansoddi ychwanegol a wnaed gan Crawford, Joyce a Phillips (2012) yn awgrymu y bydd y toriadau lles yn cael ychydig mwy o effaith ar Gymru na'r DU yn gyffredinol am fod mwy o bobl yng Nghymru yn dibynnu ar fudd-daliadau lles.

Mae'n bwysig nodi bod asesiadau DWP, CThEM a'r IFS o'r effaith ar incwm cartrefi wedi'u cynnal gan ddefnyddio model sefydlog ac felly nid ydynt yn cynnwys effeithiau posibl sy'n deillio o newidiadau deinamig mewn ymddygiad. Mae'r effeithiau ymddygiadol hyn yn ansicr iawn a gallent fod yn gadarnhaol, e.e. os bydd cynnydd mewn cyflogaeth, neu'n negyddol, e.e. os bydd cynnydd mewn digartrefedd. Caiff yr ymatebion hyn effaith ar raddfa lawn effeithiau posibl y diwygiadau. Mae'r gwaith ymchwil gan Adams a Phillips (2013) yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am ymatebion posibl y cyflenwad o lafur i'r diwygiadau lles yng Nghymru.

Mae'r dadansoddiad hwn isod yn ymdrin â newidiadau i'r budd-daliadau canlynol dros y cyfnod 2011–2018:

- newidiadau i'r dull mynegeo ar gyfer budd-daliadau oedran gweithio a chredydau treth a'u huwchraddio

⁶ Mae hyn yn cynnwys costau lles, yn ogystal â chynlon, ond nid yw'n cynnwys effaith y Taliad Annibyniaeth Bersonol am nad oes manylion polisi a hefyd y newidiadau lles yn Natganiad Hydref 2012 am i'r rhain gael eu cyhoeddi ar ôl cwblhau'r dadansoddiad. Ceir ymdriniaeth lawn yn Adam a Phillips (2013).

- chredydau treth a'u huwchraddio
- Budd-dal Tai
- Budd-daliad Plant
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cyfrannol
- Lwfans Byw i'r Anabl/Taliad Annibyniaeth Bersonol – dim ond y rhai sy'n colli'r hawl i gael budd-daliadau (h.y. nid yw'n cynnwys yr effaith ar y rhai sy'n cael taliadau uwch/is o dan y Taliad Annibyniaeth Bersonol)
- Budd-dal y Dreth Gyngor
- Credyd Cynhwysol
- Credyd Treth Gwaith
- Credyd Treth Plant
- Cymhorthdal Incwm (rhieni unigol)
- Cap ar Fudd-daliadau Cartrefi.

Canfyddiadau allweddol

- Ar gyfer y diwygiadau lles a ddadansoddwyd, mae'r effeithiau amcangyfrifedig posibl mwyaf yng Nghymru o ganlyniad uniongyrchol i'r newidiadau mewn polisi a gyhoeddwyd fel a ganlyn⁷.
 - Mae tua 350,000 o hawlwr budd-daliadau oedran gweithio a 330,000 o deuluoedd sy'n cael credydau treth eisoes wedi colli incwm o ganlyniad i'r penderfyniad i uwchraddio'r rhan fwyaf o fudd-daliadau drwy'r CPI yn hytrach na'r RPI a byddant yn parhau i golli incwm. Amcangyfrifir y bydd cyfanswm yr incwm blyneddol a gollir yng Nghymru yn 2011–12 yn £90 miliwn, gan gynyddu i tua £600 miliwn yn 2015–16. Dyma'r effaith fwyaf o bell ffordd o ran graddau'r incwm a gollir. At hynny, bydd effaith negyddol ychwanegol ar incymau yng Nghymru (tua £113 miliwn yn 2015–16) o ganlyniad i'r penderfyniad a gyhoeddwyd yn ddiweddar i uwchraddio'r rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gweithio, elfennau penodol o gredydau treth (y ddau rhwng 2013–14 a 2015–16) a Budd-dal Plant (rhwng 2014–15 a 2015–16) 1% yn hytrach na phrisiau. Fodd bynnag, bydd effaith y cap hwn yn dibynnu'n bennaf oll ar yr alldro ar gyfer chwyddiant dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.
 - Amcangyfrifir y bydd tua 42,500 o hawlwr yn colli eu hawl i gael DLA erbyn Mai 2018, sy'n cyfateb i tua £55–83 yr wythnos ar gyfartaledd yng Nghymru. Mae hyn yn gyfanswm colled incwm blyneddol yng Nghymru o £122–183 miliwn erbyn 2018–19.

⁷ Noder: Efallai na fydd y ffigurau yn symio oherwydd talgrynnu.

- Amcangyfrifir y bydd tua 56,000 o hawl wyr yn gweld gostyngiad o hyd at £89 yr wythnos yn eu hincwm o fudd-daliadau o ganlyniad i'r polisi terfyn amser ar gyfer Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cyfrannol. Gallai cyfanswm colled incwm blynyddol yng Nghymru fod tua £132 miliwn erbyn 2015–16.
- Amlinellir rhagor o effeithiau negyddol, er eu bod yn llai o faint, yn **Nhabl 1** (tudalennau 17–28).

Tabl 1⁸

Dyddiad cyflwyno'r polisi	Budd-dal/credyd treth	Newid mewn polisi	Yr effaith (uniongyrchol) amcangyfrifedig yng Nghymru	
			Ar lefel unigolyn/cartref ⁹	Ar lefel genedlaethol
Ebrill 2011	Mae'n effeithio ar y rhan fwyaf o fudd-daliadau, credydau treth a phensiynau gwasanaethau cyhoeddus	1. Trosglwyddo i ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu i fynegeo bron pob budd-dal, credyd treth a phensiwn gwasanaeth cyhoeddus. Noder: bydd effaith negyddol ychwanegol yn sgil y penderfyniad a gyhoeddwyd yn ddiweddar i uwchraddio'r rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gweithio a chredydau treth 1% am dair blynedd o fis Ebrill 2013 (gweler newid mewn polisi 16 isod).	Mae gwaith dadansoddi gan Joyce a Levell (2011) yn amcangyfrif y bydd budd-daliadau a chredydau treth a arferai fod yn gysylltiedig â'r Mynegai Prisiau Manwerthu a'r Rossi tua 1.8% a 3.1% yn is yn y drefn honno yn 2012–13 o ganlyniad i'r penderfyniad i newid i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr ⁹ .	Budd-daliadau: nifer yr hawlwyr o oedran gweithio yr effeithir arnynt = 350,000 ¹⁰ . Credydau treth: nifer y teuluoedd sy'n cael credydau treth yr effeithir arnynt = 330,000 ¹¹ . Noder: bydd rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y rhai sy'n cael budd-daliadau a chredydau treth. Cyfanswm y golled flynyddol yng Nghymru = £90 miliwn yn 2011–12 a fydd yn codi i tua £600 miliwn yn 2015–16 ¹² .
	Budd-dal Tai	2. Cyfyngu lefelau'r Lwfans Tai Lleol i'r gyfradd pedair ystafell wely (nid yw'r gyfradd pum ystafell wely ar gael mwyach) a gosod capiau wythnosol uchaf: 1-ystafell wely: £250 2-ystafell wely: £290 3-ystafell wely: £340 4-ystafell wely: £400.	Colled wythnosol gyfartalog fesul collwr yng Nghymru = £34 ; cyfartaledd Prydain Fawr = £74 ¹³ . (Nid yw'r un o'r asesiadau o'r effaith ar Fudd-dal Tai yn cynnwys effaith hawlwyr yn cael budd o ddiogelwch trosiannol a'r hawliadau taliadau tai yn ôl disgrisiwn tymor byr ¹⁴).	Mae DWP yn amcangyfrif bod nifer yr unigolion sy'n cael Lwfans Tai Lleol yng Nghymru a fydd yn colli arian = 200 (0.4% o'r holl bobl sy'n cael Lwfans Tai Lleol yng Nghymru ¹⁵). Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth o ALLau yn awgrymu ei fod tua 300. Cyfanswm y golled flynyddol yng Nghymru (yn seiliedig ar ffigurau DWP) = £0.4 miliwn .

8 Mae'r colledion cyfartalog ar lefel unigolyn/cartref yn ymwneud â'r rhai **yr effeithir arnynt yn uniongyrchol** gan bob un o'r newidiadau i fudd-daliadau yn hytrach na phob catref yng Nghymru.

9 Joyce, R a Levell, P (2011) *The impact in 2012–13 of the change to indexation policy*. Adroddiad i'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid.

10 Ystadegau DWP ar gyfer Mai 2011.

11 Ystadegau CThEM ar gyfer 2010–11.

12 Amcangyfrif Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gyfran gymesur Cymru o arbedion y Trysorlys bob blwyddyn.

13 DWP (2010a) Impacts of Housing Benefit Proposals: *Changes to the Local Housing Allowance to be introduced in 2011–12*. Yn seiliedig ar ddata ar gyfer Mawrth 2010.

14 Byddai diogelwch trosiannol wedi'i roi ar waith am naw mis yn dilyn y newidiadau i Fudd-dal Tai yn Ebrill 2011. Caiff y gronfa taliadau tai dewisol ei chynyddu ledled y DU o £20 miliwn yn 2010–11, £60 miliwn yn 2012–13, £155 miliwn yn 2013–14 a £125 miliwn yn 2014–15.

15 Ym Mawrth 2010, roedd llwyth achosion o 48,710 o ran y Lwfans Tai Lleol yng Nghymru.

Dyddiad cyflwyno'r polisi	Budd-dal/credyd treth	Newid mewn polisi	Yr effaith (uniongyrchol) amcangyfrifedig yng Nghymru	
			Ar lefel unigolyn/cartref	Ar lefel genedlaethol
Ebrill 2011	Budd-dal Tai	3. Dileu'r ddarpariaeth i hawlwr gadw uchafswm o £15 yr wythnos os bydd eu rhent islaw cyfradd y Lwfans Tai Lleol.	Colled wythnosol gyfartalog fesul collwr yng Nghymru = £10 (Cyfartaledd Prydain Fawr = £11) ¹⁶ .	Nifer yr unigolion sy'n cael y Lwfans Tai Lleol yng Nghymru a fydd yn colli arian = 19,070 (39% o'r holl bobl sy'n cael Lwfans Tai Lleol yng Nghymru) ¹⁷ . Cyfanswm y golled flynyddol yng Nghymru = £10 miliwn .
		4. Newid y sail ar gyfer pennu cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol o'r canolrif i'r ddegfed ganradd ar hugain o renti'r farchnad leol. Bydd yn effeithio ar hawlwr newydd a phresennol o fis Ebrill 2011 a mis Hydref 2011 yn y drefn honno.	Colled wythnosol gyfartalog fesul collwr yng Nghymru = £8 (Cyfartaledd Prydain Fawr = £9) ¹⁸ .	Nifer yr unigolion sy'n cael Lwfans Tai Lleol yng Nghymru a fydd yn colli arian = 43,270 (89% o'r holl bobl sy'n cael Lwfans Tai Lleol yng Nghymru) ¹⁹ . Cyfanswm y golled flynyddol yng Nghymru = £18 miliwn .
		Effaith gyfun mesurau Budd-dal Tai 2–4 (uchod) yn 2011–12.	Colled wythnosol gyfartalog fesul collwr yng Nghymru = £9 (Cyfartaledd Prydain Fawr = £12) ²⁰ .	Nifer yr unigolion sy'n cael Lwfans Tai Lleol yng Nghymru a fydd yn colli arian = 48,530 (99.6% o'r holl bobl sy'n cael Lwfans Tai Lleol yng Nghymru) ²¹ . Cyfanswm y golled flynyddol yng Nghymru = £23 miliwn ²² .

¹⁶ DWP (2010a) Impacts of Housing Benefit Proposals: Changes to the Local Housing Allowance to be introduced in 2011–12. Yn seiliedig ar ddata ar gyfer Mawrth 2010.

¹⁷ Ibid.

¹⁸ Ibid.

¹⁹ Ibid.

²⁰ Ibid.

²¹ Ibid.

²² Nid yw'r ffigur hwn yn cyfateb i gyfanswm y newidiadau polisi unigol 2–4 am fod yr effaith gyfun yn ystyried yr effeithir ar hawlwr presennol am ran o 2011–12 yn hytrach na'r cyfnod cyfan (h.y. rhwng Hydref 2011 ac Ebrill 2012), tra bod colledion blynyddol ar gyfer y newidiadau polisi unigol yn sefydlog (h.y. mae'r newidiadau yn effeithio ar yr hawlwr am y flwyddyn gyfan).

Dyddiad cyflwyno'r polisi	Budd-dal/credyd treth	Newid mewn polisi	Yr effaith (uniongyrchol) amcangyfrifedig yng Nghymru	
			Ar lefel unigolyn/cartref	Ar lefel genedlaethol
Ebrill 2011	Budd-dal Plant	5. Rhewi cyfraddau Budd-dal Plant am dair blynedd o 2011–12 ²³ .	Colled wythnosol gyfartalog fesul teulu sy'n colli yng Nghymru = £2.50 yn 2013–14 ²⁴ .	Niferoedd yr effeithir arnynt yng Nghymru ²⁵ : 370,000 o deuluoedd, 640,000 o blant. Cyfanswm y golled flynyddol yng Nghymru = £47 miliwn yn 2013–14 ²⁶ .
Ionawr 2012	Budd-dal Tai	6. Cynyddu terfyn oedran y gyfradd Budd-dal Tai ar gyfer llety a rennir o 25 i 35.	Colled wythnosol gyfartalog fesul collwr yng Nghymru = £24 (Cyfartaledd Prydain Fawr = £41) ²⁷ .	Nifer yr unigolion sy'n cael Lwfans Tai Lleol yng Nghymru fydd yn colli arian = 3,080 (6% o'r holl bobl sy'n cael Lwfans Tai Lleol yng Nghymru) ²⁸ . Mae hyn yn seiliedig ar gyfrifiadau DWP. Fodd bynnag, mae tystiolaeth a gafwyd gan ALLau yn awgrymu y gall y ffigur hwn fod yn agosach at 4,000. Cyfanswm y golled flynyddol yng Nghymru (yn seiliedig ar ffigurau DWP) = £4 miliwn.

²³ Fel y cyhoeddwyd yn Natganiad Hydref 2012, bydd Budd-dal Plant yn cynyddu 1 y cant am ddwy flynedd o 2014–15 – gweler newid mewn polisi 16 yn Nhabl 1.

²⁴ Amcangyfrif Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gyfran gymesur Cymru o arbedion y Trysorlys wedi'i rhannu â'r llwyth achosion cyfredol o hawlwyr Budd-dal Plant yng Nghymru.

²⁵ Yn seiliedig ar lwyth achosion Budd-dal Plant CThEM yng Nghymru ar 31 Awst 2011.

²⁶ Amcangyfrif Llywodraeth Cymru.

²⁷ DWP (2011a) Housing Benefit equality impact assessment: Increasing the Shared Accommodation Rate age threshold to 35. Yn seiliedig ar ddata ar gyfer Mawrth 2010.

²⁸ Ibid.

Dyddiad cyflwyno'r polisi	Budd-dal/credyd treth	Newid mewn polisi	Yr effaith (uniongyrchol) amcangyfrifedig yng Nghymru	
			Ar lefel unigolyn/cartref	Ar lefel genedlaethol
Ebrill 2012	Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cyfrannol	7. Gosod terfyn amser o flwyddyn ar gyfer cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cyfrannol i'r rhai yn y grŵp gweithgarwch sy'n seiliedig ar waith. Gellir rhannu'r llwyth achosion hwn yn dri grŵp (mae'r cyfrannau yn seiliedig ar ffigurau Prydain Fawr²⁹). Grŵp 1: Y rhai sy'n hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn gysylltiedig ag incwm a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cyfrannol. Bydd y grŵp hwn yn parhau i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn gysylltiedig ag incwm pan fydd y terfyn amser yn gymwys (tua 30%). Grŵp 2: Y rhai sy'n debygol o fod â'r hawl i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn gysylltiedig ag incwm ar ôl iddynt gollu eu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cyfrannol (tua 30%). Grŵp 3: Y rhai na ddigwyllir iddynt fod yn gymwys i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn gysylltiedig ag incwm am fod ganddynt ffynonellau incwm eraill. Bydd yn dod yn hawlydd credydau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn unig (tua 40%).	Bydd effaith gyfartalog gosod terfyn amser ar daliadau'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn amrywio rhwng y tri grŵp (mae'r incwm a gollir yn seiliedig ar ffigurau Prydain Fawr³⁰). Grŵp 1: Colled wythnosol net gyfartalog y pen = £11. Grŵp 2: Colled wythnosol net gyfartalog y pen = £22. Grŵp 3: Colled wythnosol net gyfartalog y pen = £89. Colled gyffredinol wythnosol net gyfartalog y pen = £46. Noder: Nid yw'r effeithiau uchod yn rhoi cyfrif am yr enillion ychwanegol o fudd-daliadau eraill (e.e. credydau treth, Budd-dal Plant, Budd-dal y Dreth Gyngor a budd-daliadau 'pasbort' eraill). Felly, maent yn debygol o fod wedi'u goramcangyfrif. Am nad oes llawer o ddata, mae'n anodd mesur yr enillion ychwanegol hyn ac felly yr effaith yn gyffredinol.	Mae DWP yn rhagweld y bydd y polisi terfyn amser yn effeithio ar 700,000 o hawlwyr Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cyfrannol yn y grŵp gweithgarwch sy'n seiliedig ar waith ym Mhrydain Fawr erbyn 2015–16³¹. Ni ddarparwyd data ar lefel Cymru gyfan. Fodd bynnag, gan dybio y gwelir effaith gymesur â chyfanswm Prydain Fawr yn seiliedig ar lwythi achosion (y rhai yn y grŵp gweithgarwch sy'n seiliedig ar waith sy'n cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ers blwyddyn neu fwy), effeithid ar tua 8% o'r cyfanswm hwn yng Nghymru (h.y. tua 56,000³²). Yn seiliedig ar ddata DWP yn y ddwy golofn flaenorol, amcangyfrifir y bydd taliadau'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth wedi gostwng tua £132 miliwn erbyn 2015–16. Caiff y gostyngiad hwn ei wrthbwyso'n rhannol gan yr incwm ychwanegol a enillir o fudd-daliadau eraill.

²⁹ DWP (2011b) Time limit Contributory Employment and Support Allowance to one year for those in the Work-Related Activity Group – Impact assessment.

³⁰ Ibid. Prisiau 2010/11.

³¹ Ibid.

³² Amcangyfrif Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar ffigurau DWP, Chwefror 2012.

Dyddiad cyflwyno'r polisi	Budd-dal/credyd treth	Newid mewn polisi	Yr effaith (uniongyrchol) amcangyfrifedig yng Nghymru	
			Ar lefel unigolyn/cartref	Ar lefel genedlaethol
Ebrill 2012	Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cyfrannol	8. Diddymu'r trefniadau arbennig sy'n caniatáu i rai pobl ifanc fod yn gymwys i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cyfrannol o dan ddarpariaeth 'ieuenctid' y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Gellir rhannu'r rhai yr effeithir arnynt yn dri grŵp (mae'r cyfrannau yn seiliedig ar ffigurau Prydain Fawr³³). Grŵp 1: Caiff y rhai heb unrhyw incwm arall (tua 20%) yr union yr un swm o Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn gysylltiedig ag incwm. Grŵp 2: Y rhai a fydd yn gymwys i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ar incwm naill ai ar yr un gyfradd neu ar gyfradd is am fod ganddynt ryw ffynhonnell arall o incwm (tua 70%). Grŵp 3: Ni ddigswylir i'r 10% sy'n weddill fod yn gymwys i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn gysylltiedig ag incwm am fod ganddynt bartner sy'n gweithio'n llawn amser neu gyfalaf sy'n werth mwy nag £16,000 neu incwm arall sy'n golygu bod ganddynt fwy na'r swm cymwys.	Bydd effaith gyfartalog y polisi hwn yn amrywio rhwng y tri grŵp (mae'r incwm a gollir yn seiliedig ar ffigurau Prydain Fawr³⁴). Grŵp 1: Dim effaith. Grŵp 2: Colled wythnosol net gyfartalog y pen = £25. Grŵp 3: Colled wythnosol net gyfartalog y pen = £100. Colled gyffredinol wythnosol net gyfartalog y pen = £30. Noder: Nid yw'r effeithiau uchod yn rhoi cyfrif am y buddiannau ychwanegol y gall rhai eu cael am fod ganddynt hawl i fudd-daliadau 'pasbort' (e.e. Prydau Ysgol am Ddim). Felly, maent yn debygol o fod wedi'u goramcangyfrif. Am nad oes llawer o ddata ar gael, mae'n anodd mesur yr enillion ychwanegol hyn ac felly'r effaith yn gyffredinol.	Mae DWP yn rhagweld, erbyn 2015–16, y bydd diddymu darpariaethau 'ieuenctid' y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn effeithio ar tua 15,000 o bobl ym Mhrydain Fawr a fyddai wedi bod yn hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cyfrannol³⁵. Ni ddarparwyd data ar lefel Cymru gyfan. Fodd bynnag, gan dybio y gwelir effaith gymesur â chyfanswm Prydain Fawr yn seiliedig ar lwythi achosion (ieuenctid y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth), effeithid ar tua 8% o'r cyfanswm hwn yng Nghymru (h.y. tua 1,200³⁶). Yn seiliedig ar ddata DWP yn y ddwy golofn flaenorol, amcangyfrifir y caiff y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a delir i bobl ifanc yng Nghymru ei ostwng tua £1.7 miliwn erbyn 2015–16. Fodd bynnag, caiff y gostyngiad hwn ei wrthbwyso'n rhannol gan yr enillion ychwanegol o fudd-daliadau.

33 DWP (2011d) Abolition of concessionary Employment and Support Allowance 'youth' National Insurance qualifications conditions – Impact assessment.

34 Ibid.

35 Ibid.

36 Amcangyfrif Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar ystadegau DWP, Chwefror 2012.

Dyddiad cyflwyno'r polisi	Budd-dal/credyd treth	Newid mewn polisi	Yr effaith (uniongyrchol) amcangyfrifedig yng Nghymru	
			Ar lefel unigolyn/cartref	Ar lefel genedlaethol
Ebrill 2012	Credyd Treth Gwaith	9. Cynyddu'r gofyniad oriau gwaith i barau â phlant o 16 i 24 awr.	Uchafswm a gollir bob wythnos fesul cartref sy'n colli yng Nghymru = £74³⁷ .	Mae CThEM yn amcangyfrif bod 9,380 o gartrefi yng Nghymru a oedd â'r hawl i gael Credyd Treth Gwaith (cyn mis Ebrill 2012) yn cynnwys parau â phlant sy'n gweithio rhwng 16 a 24 awr yr wythnos ac, felly, y gallai'r diwygiad hwn fod wedi effeithio arnynt ³⁸ . Fodd bynnag, nid yw'r ffigurau hyn yn ystyried unrhyw newidiadau mewn ymddygiad megis cynnydd yn nifer yr oriau a weithir. Cyfanswm yr incwm blynyddol a gollir yng Nghymru = £36 miliwn .
	Credyd Treth Plant	10. Dileu'r trothwy ail incwm.	Uchafswm a gollir bob wythnos yng Nghymru = £10³⁹ .	Amcangyfrifir y byddai 43,500 o gartrefi yng Nghymru wedi colli eu hawl i gael Credyd Treth Plant ym mis Ebrill 2012 o ganlyniad i'r polisi hwn (tua 15% o'r teuluoedd sy'n cael Credyd Treth Plant yng Nghymru ⁴⁰). Cyfanswm blynyddol a gollir yng Nghymru = £24 miliwn .

³⁷ Yn seiliedig ar gyfraddau Credydau Treth Gwaith CThEM (elfen sylfaenol ynghyd ag elfen parau/rhieni unigol) Ebrill 2012.

³⁸ Ystadegau CThEM ar gyfer Rhagfyr 2011.

³⁹ Yn seiliedig ar gyfraddau Credydau Treth Gwaith CThEM (yr elfen deuluol) Ebrill 2012.

⁴⁰ Yn seiliedig ar ystadegau CThEM ar gyfer 2010-2011.

Dyddiad cyflwyno'r polisi	Budd-dal/credyd treth	Newid mewn polisi	Yr effaith (uniongyrchol) amcangyfrifedig yng Nghymru	
			Ar lefel unigolyn/cartref	Ar lefel genedlaethol
Mai 2012	Cymhorthdal Incwm (rhieni unigol)	11. Dim ond os bydd gan y rhai sy'n eu hawlio blentyn o dan bump oed (gostyngwyd yr oedran i saith ym mis Hydref 2010) y caniateir ceisiadau newydd am Gymhorthdal Incwm.	Dim effaith uniongyrchol ar incwm. Fodd bynnag, gallai hyd at 1,250 o rieni unigol symud i fyd gwaith yn ei sgil, a byddai hynny'n effeithio ar eu hincwm.	Yng Nghymru, roedd gan tua 5,000 o rieni unigol a hawliodd Gymhorthdal Incwm ym mis Chwefror 2012 blentyn ieuengaf 5 neu 6 oed, felly gallai'r polisi hwn fod wedi effeithio arnynt ⁴¹ . Mewn sefyllfa gyson, amcangyfrifir bod y polisi hwn yn effeithio ar 3,800 o rieni unigol bob blwyddyn yng Nghymru.

⁴¹ DWP (2013b) y cafeat sydd ar y data yw nad yw'r dybiaeth ynglŷn â faint o bobl a effeithir gan y polisi hwn yn un hollol berffaith. Mae hynny oherwydd y gallai'r llwyth achosion fod wedi newid yn naturiol cyn i'r polisi gael ei newid: gallai rhieni unigol fod wedi rhoi'r gorau i dderbyn Cymorth Incwm er bod ganddynt hawl iddo, a hynny am nifer o resymau, er enghraifft newid ym mhatrwm y teulu, megis newid partner. Hefyd, i'r gwrthwyneb, mae'n bosibl fod pobl a allai fod wedi symud at Lwfans Ceisio Gwaith/cyflogaeth etc cyn i'r polisi gael ei newid wedi penderfynu parhau i hawlio'r Cymorth Incwm tan y dyddiad pan wnaethant golli'r hawl iddo. Y data diweddaraf sydd ar gael yw data Chwefror 2012. Mae'r rhifau ar gyfer y rhai a gafodd eu heffeithio mewn cyflwr sefydlog a'r rhai sy'n symud i mewn i waith wedi'u hamcangyfrif gan Lywodraeth Cymru ar sail amcangyfrifon Prydain Fawr a gynhwyswyd yn nogfen DWP (2011c).

Dyddiad cyflwyno'r polisi	Budd-dal/credyd treth	Newid mewn polisi	Yr effaith (uniongyrchol) amcangyfrifedig yng Nghymru	
			Ar lefel unigolyn/cartref	Ar lefel genedlaethol
Ionawr 2013	Budd-dal Plant	12. Caiff Budd-dal Plant ei dynnu'n ôl os bydd gan rywun yn y cartref incwm trethadwy sy'n fwy na £50,000. Drwy newidiadau i dreth incwm, caiff ei dynnu'n ôl ar 1% am bob £100 a enillir dros £50,000.	Colled wythnosol gyfartalog fesul teulu sy'n colli ym Mhrydain Fawr ⁴² = £25 . Nid oes data ar gael ar hyn o bryd ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, mae dosbarthiad incwm yn awgrymu y byddai'r golled gyfartalog yn is yng Nghymru. Y rheswm am hyn yw bod gan Gymru gyfran is o bobl sy'n ennill cyflogau uchel iawn (£70,000+). O gofio'r dosbarthiad hwn, o gymharu â Phrydain Fawr yn gyffredinol, mae'n debyg y bydd gan Gymru gyfran is o deuluoedd sy'n colli eu Budd-dal Plant i gyd a chyfran uwch o deuluoedd ar y tapr sy'n colli rhan o'u budd-dal.	Mae'r tâl treth newydd hwn yn effeithio ar tua 1.2 miliwn o deuluoedd ym Mhrydain Fawr . Byddai tua 70% o'r cartrefi hyn wedi colli eu budd-dal plant i gyd a byddai 30% wedi colli rhan ohono (am y rhesymau a nodwyd yn golofn flaenorol, mae'r rhaniad hwn yn debygol o fod yn wahanol yng Nghymru). Bydd 90% o'r teuluoedd yn y boblogaeth Budd-dal Plant yn parhau i gael budd o rywfaint neu'r cyfan o'u Budd-dal Plant ⁴³ . Yn seiliedig ar gyfran Cymru o'r bobl hynny sy'n ennill mwy na £50,000 ym Mhrydain Fawr, effeithir ar tua 31,000 o deuluoedd yng Nghymru ⁴⁴ . Cyfanswm y golled flynyddol yng Nghymru = £41 miliwn ⁴⁵ .

42 CThEM (2012) Budd-dal Plant: Income Tax Charge for Those on Higher Incomes. Y ffigur colled (-£25) yw'r gyfartaledd ar gyfer teuluoedd sy'n colli eu Budd-dal Plant cyfan a'r teuluoedd hynny sydd ond yn colli cyfran ohono.

43 CThEM (2012) Budd-dal Plant: Income Tax Charge for those on Higher Incomes.

44 Amcangyfrif Llywodraeth Cymru.

45 Yn seiliedig ar ffigur colled gyfartalog ar gyfer Prydain Fawr ac felly mae'n debygol o gael ei oramcangyfrif. Nid oes unrhyw ddata gan CThEM ar gael ar lefel Cymru ar hyn o bryd.

Dyddiad cyflwyno'r polisi	Budd-dal/credyd treth	Newid mewn polisi	Yr effaith (uniongyrchol) amcangyfrifedig yng Nghymru	
			Ar lefel unigolyn/cartref	Ar lefel genedlaethol
Ebrill 2013	Budd-dal Tai	13. Uwchraddio cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol drwy'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn 2013–14 ⁴⁶ .	Colled wythnosol gyfartalog fesul collwr ym Mhrydain Fawr = £6⁴⁷ . Nid oes unrhyw ddata ar gael ar gyfer Cymru.	Nifer y rhai sy'n cael Lwfans Tai Lleol yng Nghymru a fydd yn colli arian = 48,530 (99.6% o'r bobl sy'n cael Lwfans Tai Lleol yng Nghymru) ⁴⁸ . Cyfanswm y golled flynyddol yng Nghymru = £15 miliwn .
		14. Cyfyngu ar y swm o Fudd-dal Tai a delir i hawlwr sy'n byw mewn tai cymdeithasol sy'n tanfeddiannu eu llety.	Colled wythnosol gyfartalog fesul collwr yng Nghymru = £12 (Cyfartaledd Prydain Fawr = £14) ⁴⁹ .	Nifer yr unigolion sy'n cael Budd-dal Tai yng Nghymru a fydd yn colli arian = 40,000 (46% o'r holl bobl o oedran gweithio sy'n hawlio Budd-dal Tai yn y sector tai cymdeithasol ar rent yng Nghymru ⁵⁰). Cyfanswm yr incwm blynyddol a gollir yng Nghymru = £25 miliwn .

⁴⁶ Fel y cyhoeddwyd yn Natganiad Hydref 2012, caiff cyfraddau'r Lwfans Tai lleol eu cynyddu 1 y cant am ddwy flynedd o 2014–15.

⁴⁷ DWP (2012a) Housing Benefit – Up-rating Local Housing Allowance Rates by CPI from April 2013 – Impact Assessment. (Prisiau 2014/15).

⁴⁸ Yn seiliedig ar March 2010 Single Housing Benefit Extract.

⁴⁹ DWP (2012d) Housing Benefit: Under-occupation of Social Housing – Impact Assessment. Prisiau 2013/14.

⁵⁰ Ibid. (amcangyfrifon 2013/14).

Dyddiad cyflwyno'r polisi	Budd-dal/credyd treth	Newid mewn polisi	Yr effaith (uniongyrchol) amcangyfrifedig yng Nghymru	
			Ar lefel unigolyn/cartref	Ar lefel genedlaethol
Ebrill 2013	Cap ar Fudd-daliadau Cartrefi	15. Cyfngu ar gyfanswm y taliadau lles y gall cartref o oedran gweithio eu cael (£500 yr wythnos i gartrefi parau a chartrefi rhieni unigol, a £350 yr wythnos i gartrefi unigolion sengl lle nad oes plant).	Colled wythnosol gyfartalog fesul cartref yr effeithir arno yng Nghymru = £70 ⁵¹ (Cyfartaledd Prydain Fawr = £93 ⁵²).	Nifer y cartrefi yng Nghymru a fydd yn colli arian (2013–14) = 1,500 (tua 3% o'r holl gartrefi sy'n hawlio budd-dal tai ym Mhrydain Fawr yr effeithir arnynt). Mae nifer yr oedolion a'r plant mewn cartrefi yr effeithir arnynt yng Nghymru tua 2,500 a 6,000 yn y drefn honno ⁵³ . Mae'r niferoedd hyn yn debygol o gynyddu yn 2014–15. Cyfanswm y golled flynyddol yng Nghymru (2013–14) = £5 miliwn .
	Y rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gweithio a chredydau treth (heb gynnwys budd-daliadau i bobl anabl a gofalwyr) a Budd-dal Plant	16. Bydd budd-daliadau dewisol oedran gweithio a chredydau treth yn cynyddu 1% am dair blynedd o 2013–14. Bydd Budd-dal Plant yn cynyddu 1% am ddwy flynedd o 2014–15.	Colled wythnosol gyfartalog fesul cartref ym Mhrydain Fawr = £3 (tua 1% o'r incwm net) ⁵⁴ . Mae DWP yn amcangyfrif mai'r cartrefi mewn dengraddau incwm is a theuluoedd â phlant (yn enwedig rheini unigol) fydd yn debygol o weld y colledion incwm mwyaf o ganlyniad i'r polisi hwn.	Hawlwr budd-daliadau o oedran gweithio yr effeithir arnynt = 290,000 ⁵⁵ . Teuluoedd sy'n cael credydau treth yr effeithir arnynt = 325,000 ⁵⁶ . Teuluoedd sy'n cael Budd-dal Plant yr effeithir arnynt = 350,000 ⁵⁷ . Noder: bydd rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y tri grŵp hyn. Cyfanswm y golled flynyddol yng Nghymru = £113 miliwn yn 2015–16 ⁵⁸ .

51 Amcangyfrif cymedrig DWP (prisiau 2013/14) a gafwyd drwy e-bost.

52 DWP (2012e) Rheoliadau'r Cap ar Fudd-daliadau (Budd-dal Tai) 2012: Asesiad Effaith ar gyfer y cap ar fudd-daliadau. Prisiau 2013/14.

53 Ibid. Fodd bynnag, mae gwaith dadansoddi ad hoc mwy diweddar a gyhoeddwyd gan DWP ym mis Hydref 2012 yn nodi bod 2,640 o gartrefi (3,920 o unigolion) yng Nghymru wedi'u hysbysu y gallai'r cap ar fudd-daliadau effeithio arnynt ym mis Ebrill 2013. Felly, mae'n bosibl bod y ffigurau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr Asesiad Effaith yn amcangyfrif rhy isel.

54 DWP (2013a) Welfare Benefits Up-rating Bill – Impact Assessment. Y golled hon yw'r gwahaniaeth rhwng uwchraddio 1 y cant ac uwchraddio yn ôl chwyddiant CPI. Bydd effaith y polisi hwn yn dibynnu'n bennaf oll ar yr alldro ar gyfer chwyddiant dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Ni chyhoeddwyd unrhyw ddata ar lefel Cymru gyfan.

55 Yn seiliedig ar ystadegau DWP ar gyfer Chwefror 2012.

56 Yn seiliedig ar ystadegau CThEM ar gyfer 2010–11.

57 Yn seiliedig ar lwyth achosion Budd-dal Plant CThEM yng Nghymru ar 31 Awst 2011 llai nifer y cartrefi yr amcangyfrifir y byddant yn colli eu Budd-dal Plant i gyd o ganlyniad i'r newid mewn polisi 12 yn Nhabi 1.

58 Amcangyfrif Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gyfran gymesur Cymru o arbedion y Trysorlys bob blwyddyn.

Dyddiad cyflwyno'r polisi	Budd-dal/credyd treth	Newid mewn polisi	Yr effaith (uniongyrchol) amcangyfrifedig yng Nghymru	
			Ar lefel unigolyn/cartref	Ar lefel genedlaethol
Ebrill 2013 (Caiff y Taliad Annibyniaeth Bersonol ei gyflwyno mewn ardal dechrau a reolir yng Ngogledd-orllewin a Gogledd-ddwyrain Lloegr o fis Ebrill 2013. Effeithir ar hawlwyr yng Nghymru o fis Mehefin 2013.)	Lwfans Byw i'r Anabl/Taliad Annibyniaeth Bersonol	17. Disodli Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer unigolion rhwng 16 a 64 oed â budd-dal newydd (Taliad Annibyniaeth Bersonol). Y nod yw canolbwyntio cymorth ar y bobl anabl hynny yr ystyir bod ganddynt yr anghenion mwyaf.	O'r llwyth achosion Lwfans Byw i'r Anabl a ailaseswyd, ar gyfer Prydain Fawr yn gyffredinol, disgwylir i tua 30% gael dyfarniad uwch, bydd 30% yn cael dyfarniad is ac ni fydd chwarter yn cael unrhyw ddyfarniad o gwbl ac ni fydd y gweddill yn newid. Effaith colli'r hawl i Lwfans Byw i'r Anabl y Taliad Annibyniaeth Bersonol yng Nghymru: colled wythnosol gyfartalog fesul collwr = £55-83 ⁵⁹ . Nid oes digon o ddata ar gael i geisio mesur yr effeithiau ar y rhai â dyfarniadau uwch/is.	Effaith colli'r hawl i Lwfans Byw i'r Anabl y Taliad Annibyniaeth Bersonol yng Nghymru: amcangyfrifir y bydd y Taliad Annibyniaeth Bersonol yn arwain at 607,000 yn llai o hawlwyr ym Mhrydain Fawr erbyn 2018 (o gymharu â senario lle nad oedd y Taliad Annibyniaeth Bersonol wedi'i gyflwyno) ⁶⁰ . Gan dybio y gwelir effaith gymesur â chyfanswm Prydain Fawr yn seiliedig ar lwythi achosion, effeithid ar tua 7% o'r cyfanswm hwn yng Nghymru (h.y. 42,500 ⁶¹). Cyfanswm y golled flynyddol yng Nghymru (erbyn 2015-16) = £122-183 miliwn .
Ebrill 2013	Budd-dal y Dreth Gyngor	18. Bydd Llywodraeth y DU yn datganoli'r cyfrifoldeb am helpu teuluoedd incwm isel i dalu eu treth gyngor a bydd yn lleihau'r arian a ddarperir 10%.	O gofio'r arian a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, ni fydd unrhyw effaith ar gartrefi yn 2013-14. Bydd yr effeithiau yn 2014-15 yn dibynnu ar ba fath o gynllun a fydd yn cymryd ei le, na phenderfynwyd yn derfynol arno eto.	Mae'r arian a drosglwyddir i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 10% yn llai na chost ddisgwyliedig system gyfredol Budd-dal y Dreth Gyngor yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn gwneud iawn am ddiffyg o £22 miliwn yn 2013-14.

⁵⁹ Amcangyfrif Llywodraeth Cymru. Gwaelod yr ystod yn seiliedig ar y swm wythnosol cyfartalog o Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer cyfradd is yr elfennau gofal a symudedd ar gyfer hawlwyr o oedran gweithio yng Nghymru. Brig yr ystod yn seiliedig ar y swm wythnosol cyfartalog o Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer pob un o gyfraddau'r elfennau gofal a symudedd ar gyfer hawlwyr o oedran gweithio yng Nghymru, Chwefror 2012 (wedi'u huwchraddio i brisiau 2015/16). Ffynhonnell: Astudiaeth Hydredol DWP o Wybodaeth, Llywodraethu a Diogelwch, Gwaith a Phensiynau.

⁶⁰ DWP (2012f) Personal Independence Payment: Reassessment and impacts.

⁶¹ Amcangyfrif Llywodraeth Cymru.

Dyddiad cyflwyno'r polisi	Budd-dal/credyd treth	Newid mewn polisi	Yr effaith (uniongyrchol) amcangyfrifedig yng Nghymru	
			Ar lefel unigolyn/cartref	Ar lefel genedlaethol
Hydref 2013 – dyddiad cyflwyno cenedlaethol. (O fis Ebrill 2013, bydd Rhaglen 'Braenaru' ar gyfer y Credyd Cynhwysol ar waith mewn Rhannau o Ogledd-orllewin Lloegr.)	Credyd Cynhwysol	19. Budd-dal lles sengl newydd a fydd yn disodli'r budd-daliadau a'r credydau treth prawf modd canlynol ar gyfer oedolion o oedran gweithio: • Cymhorthdal Incwm • Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm • Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn gysylltiedig ag Incwm • Credyd Treth Gwaith • Credyd Treth Plant • Budd-dal Tai.	Bydd rhai ar eu colled a rhai ar eu hennill o ganlyniad i gyflwyno'r Credyd Cynhwysol. 2014–15: Lleihad cyfartalog mewn incwm misol fesul cartref sydd ar ei golled yng Nghymru = £150 (yn debyg i'r golled gyfartalog ar gyfer Prydain Fawr yn gyffredinol). Cynnydd cyfartalog mewn incwm misol fesul cartref sydd ar ei ennill yng Nghymru = £159 (yn debyg i'r swm cyfartalog a enillir ar gyfer Prydain Fawr yn gyffredinol). Noder: yn seiliedig ar ffigurau DWP, nad ydynt yn cynnwys effaith diogelwch trosiannol⁶².	2014–15: Nifer y cartrefi yng Nghymru na fydd newid yn eu hawliad o dan y Credyd Cynhwysol = 100,000. Nifer y cartrefi yng Nghymru y bydd ganddynt hawliadau is o dan y Credyd Cynhwysol = 200,000. Cyfanswm y golled flynyddol yng Nghymru = £360 miliwn. Nifer y cartrefi yng Nghymru y bydd ganddynt hawliadau uwch o dan y Credyd Cynhwysol = 200,000. Cyfanswm a enillir y flwyddyn yng Nghymru = £382 miliwn. Cyfanswm net a enillir yng Nghymru (y flwyddyn) = £22 miliwn⁶³.

62 Ystadegau ar gyfer Cymru a gafwyd drwy e-bost gan DWP. Mae'r ystadegau yn seiliedig ar y rhai a ddarparwyd gan DWP (2012h) Universal Credit – Impact Assessment. Nodir pob cost a budd-dal ym mhrisiau 2012/13. Mae'r effeithiau a nodir yn rhai sefydlog; hynny yw, pan fydd y Credyd Cynhwysol yn llawn weithredol a bydd diogelwch trosiannol wedi'i ddihysbyddu'n llawn. Mae'r dadansoddiad yn cynnwys addasiad i gyfrif am yr unigolion cymwys hynny nad ydynt yn hawlio budd-daliadau.

63 Wrth foddelu effaith sefydlog newid cymhleth mewn polisi megis y Credyd Cynhwysol lle mae cryn nifer o unigolion ac ar eu colled, mae lwfans gwallau eang yn gysylltiedig â'r effaith net yn gyffredinol (sef y gwahaniaeth rhwng ennill swm gros mawr a cholli swm gros mawr). Felly, nid yw'n syndod bod amcangyfrif Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar ffigurau DWP, yn wahanol i amcangyfrif IFS a gynhwyswyd yn Adam a Phillips (2013). Mae amcangyfrif IFS yn awgrymu mai cyfanswm y swm ychwanegol net a enillir fydd £70 miliwn o ganlyniad i weithredu'r Credyd Cynhwysol yng Nghymru.

Effeithiau economaidd a chymdeithasol ehangach y diwygiadau lles a'r goblygiadau posibl i wasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru

Bydd i'r newidiadau a amlinellwyd yn Adran 1 effeithiau pellgyrhaeddol i hawl wyr budd-daliadau, yn enwedig teuluoedd â phlant, a hefyd i'r gwasanaethau sy'n eu cefnogi. At hynny, o gofio'r cysylltiadau rhwng y gwasanaethau hyn, mae'n bosibl y bydd effeithiau ar un maes yn effeithio ar feysydd eraill. Er bod diwygio budd-daliadau lles yn fater nad yw wedi'i ddatganoli, mae rhai mesurau yn effeithio ar wasanaethau datganoledig a ddarperir gan Llywodraeth Cymru ac ALLau gan gynnwys:

- gwasanaethau iechyd
- gwasanaethau gofal cymdeithasol
- tai
- addysg a hyfforddiant
- datblygu economaidd
- cymunedau a chyfiawnder cymdeithasol
- llywodraeth leol.

Nod yr adran hon yw amlygu'r effeithiau economaidd a chymdeithasol ehangach posibl ar hawl wyr budd-daliadau a'r goblygiadau i'r galw am wasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru sy'n gysylltiedig â hwy. Er ei bod yn rhy gynnar, o bosibl, i nodi a mesur yr effeithiau hyn yn fanwl ar hyn o bryd, rhoddir dadansoddiad ansoddol cychwynnol isod yn seiliedig ar dystiolaeth sydd eisoes yn bodoli.

Cyflwynir pob adran gyda throsolwg cyffredinol o effaith ddosbarthiadol y defnydd a wneir o wasanaethau cyhoeddus fel y'i nodir gan dystiolaeth sy'n bodoli eisoes, y crynhoir rhywfaint ohoni yn yr **Atodiad 1**. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y dystiolaeth o'r cydberthnasau hyn yn aml yn dameidiog ac yn amwys. Serch hynny, mae'n rhoi brasamcan defnyddiol.

Mae'n ddefnyddiol deall y cydberthnasau hyn am y disgwylir i'r rhan fwyaf o'r newidiadau i fudd-daliadau gael effaith negyddol uniongyrchol ar lefelau incwm a thlodi yng Nghymru drwy ddileu, neu leihau, budd-daliadau fel y nodwyd yn Nhabl 1 (tudalennau 17–28), yn ogystal ag yn adroddiad Cam 1 Llywodraeth Cymru, ac yng ngweddill y dadansoddiad Cam 2 a wnaed gan Adam a Phillips (2013). Yn benodol, mae incwm a gollir o ganlyniad i'r diwygiadau lles heb gynnwys y Credyd Cynhwysol yn ffractsiwn mwy o incwm, ar gyfartaledd, tua hanner isaf y dosbarthiad incwm nag ar y brig. Mae cyflwyno'r Credyd Cynhwysol yn golygu bod yr effeithiau hyn yn llawer llai atchweliadol. Fodd bynnag, teuluoedd incwm isel i ganolig sydd ar eu colled fwyaf o hyd. O ran arian parod ac ar gyfartaledd, teuluoedd â phlant fydd yn colli'r gyfran fwyaf o'u

hincwm. Mae'n bosibl y bydd effaith anuniongyrchol ychwanegol ar incwm am fod bod yn gymwys i gael un budd-dal (e.e. Lwfans Byw i'r Anabl) yn aml yn gweithredu fel pasbort i fudd-daliadau a lwfansau eraill.

Mae'r effeithiau hyn yn debygol o gynyddu'r galw am wasanaethau cyhoeddus am fod rhywfaint o dystiolaeth yn awgrymu bod y defnydd o'r gwasanaethau hyn yn fwy crynodedig ar waelod y dosbarthiad incwm (Tonkin, 2012; Sefton, 2002; Volterra, 2009; Horton a Reed, 2010). Fodd bynnag, mae O'Dea a Preston (2010) yn nodi bod materion cysyniadol ac empiraidd heriol yn ymwneud â gwerthuso darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. Yn ogystal â'r gydberthynas gyffredinol hon rhwng incwm a'r defnydd o wasanaethau cyhoeddus, amlinellir rhai o'r effeithiau economaidd a chymdeithasol penodol y gallai'r diwygiadau lles eu cael ar hawlwyr budd-daliadau ynghyd â'u goblygiadau tebygol i wasanaethau datganoledig yng Nghymru.

Mae'n werth nodi, oherwydd yr hinsawdd economaidd ac effaith mesurau cynilo a thoriadau ym mhob un o'r gwasanaethau cyhoeddus, y bydd effeithiau'r diwygiadau lles yn fwy llym.

Gwasanaethau iechyd

Diwygiadau allweddol:

- Credyd Cynhwysol
- dileu'r Lwfans Byw i'r Anabl a rhoi Taliad Annibyniaeth Personol yn ei le (ar gyfer unigolion rhwng 16 a 64 oed)
- dileu'r Budd-dal Analluogrwydd a Chymhorthdal Incwm a delir ar sail analluogrwydd a rhoi Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn eu lle (a'r asesiad gallu i weithio)
- gosod terfyn amser o flwyddyn ar y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cyfrannol ar gyfer y rhai yn y grŵp gweithgarwch sy'n seiliedig ar waith
- Y Gronfa Gymdeithasol
- Y Gronfa Byw'n Annibynnol
- Budd-dal Tai.

Effeithiau posibl

Effaith ddosbarthiadol – Ceir hanes hir a chryn dystiolaeth o amrywiadau cymdeithasol-ddemograffig yn statws iechyd ac mae llawer o gyflyrau iechyd andwyol yn fwy cyffredin ymhlith unigolion sydd ar incwm isel. Er enghraifft, mae Adolygiad Marmot (2010) yn tynnu sylw at anghydraddoldebau iechyd sy'n deillio

o anghydraddoldebau cymdeithasol. Ac eithrio ymweliadau â'r deintydd, mae unigolion o grwpiau cymdeithasol 'is' (p'un a gânt eu diffinio ar sail incwm, galwedigaeth neu addysg) yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau iechyd. Mae cyfraddau marwolaethau ac, yn gyffredinol, gyfraddau morbidrwydd yn uwch yn achos unigolion o grwpiau cymdeithasol is.

At hynny, mae corff cynyddol o dystiolaeth yn awgrymu bod gwneud y graddiant yn fwy serth a chynyddu'r gwahaniaethau rhwng y rhai â mwy o adnoddau a'r rhai â llai o adnoddau (fel sy'n digwydd yn gyffredinol gyda natur atchweliadol y diwygiadau cyn cyflwyno'r Credyd Cynhwysol) yn debygol o waethygu iechyd. Mae hyn i'w briodoli i faterion materol megis bwyd, tai, dillad ac ati o safon waeth – a hefyd ffactorau seicolegol a chorfforol sy'n cynnwys iechyd meddwl gwael ac imiwnedd is – a bywyd sydd, ar y cyfan, yn fwy tlawd a chul (e.e. anallu i deithio, dysgu, gweld perthnasau, ac ati).

Negyddol

- O gofio'r gydberthynas rhwng incwm ac iechyd, mae'n bosibl y bydd colli incwm lles yng Nghymru o ganlyniad i newidiadau i fudd-daliadau a chredydau treth (£590 miliwn yn 2014–15), yn enwedig lle maent yn cael eu torri i'r fath raddau fel bod unigolion yn cael eu gwrthio i mewn i dlodi, yn arwain at safonau byw yn cael eu gwasgu ac iechyd gwaeth. At hynny, mae'n bosibl y bydd problemau dyled yn arwain at lefelau uwch o straen a gofid a phroblemau iechyd corfforol ac iechyd meddwl.
- Mae'n bosibl y bydd prosesau asesu newydd ac ansicr yn arwain at effaith andwyol ar iechyd hawlwyr (yn enwedig iechyd meddwl). Gallai'r rhain gynnwys:
 - **asesiadau meddygol llymach**, e.e. Asesiad Gallu i Weithio a ddefnyddir i asesu a ddylai unigolion gael y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, a all fod yn gymhleth i hawlwyr ac achosi straen iddynt. Dengys ystadegau DWP ar gyfer hawliadau newydd yng Nghymru i 60 y cant o'r canlyniadau ar gyfer asesiadau gweithredol cychwynnol y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a ddechreuwyd rhwng mis Hydref 2008 a mis Chwefror 2012 gael eu dosbarthu'n rhai a oedd yn ffit i weithio (ac nad oeddent bellach yn gymwys i gael y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth). Mae canfyddiadau astudiaethau achos ac arolygon gan Grŵp Llywio'r Deep End (2012), sy'n cynnwys meddygon teulu mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig yr Alban a hefyd academyddion o Brifysgol Glasgow, yn awgrymu

bod yr Asesiad Gallu i Weithio wedi arwain at ddirywiad yn iechyd meddwl rhai hawlwyr y tybiwyd eu bod yn ffit i weithio ac y torrwyd eu budd-daliadau wedi hynny. Mewn rhai achosion, nododd meddygon teulu fod y fath hawlwyr yn ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd, mwy o gysylltiad â meddygon teulu a gwasanaethau seiciatrïg, mwy o ddefnydd o wrthiselyddion/cyffuriau gwrthseicotig a hunanfeddyginiaethu â chyffuriau ac alcohol. Mae'n werth nodi bod 43 y cant o'r bobl sy'n hawlio'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yng Nghymru (a Phrydain) yn gwneud hynny yn bennaf oherwydd anhwylder meddyliol neu ymddygiadol (ystadegau DWP, Chwefror 2012)

- **meini prawf cymhwysedd llymach** (e.e. gosod terfyn amser o flwyddyn ar y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar gyfer y rhai yn y grŵp gweithgarwch sy'n seiliedig ar waith) a all, mewn rhai achosion, arwain at ddileu budd-daliadau a/neu gredydau treth penodol
- **prosesau apelio** – mae'r Asesiad Gallu i Weithio wedi cael ei feirniadu gryn dipyn o ran a yw'n addas at y diben. Mae Harrington (2010, 2011, 2012) wedi cynnal tri adolygiad annibynnol o'r Asesiad Gallu i Weithio. Daeth yr Adolygiad cyntaf a'r ail Adolygiad i'r casgliad cyffredinol, er mai'r Asesiad Gallu i Weithio yw'r cysyniad cywir, fod llawer i'w wneud i wella'r modd y mae'r system yn gweithio. Mae dau brif llyn i'r argymhellion a wnaed yn yr Adolygiadau, sef: adolygu proses yr Asesiad Gallu i Weithio o'r cyswllt cyntaf â'r hawlydd drwodd i apêl (lle y bo'i hangen); ac adolygu a yw'r disgrifyddion cyfredol yn rhoi darlun cywir o achos hawlydd. Er yr ymddengys fod cynnydd wedi'i wneud yn y ddau faes, daw'r trydydd Adolygiad i'r casgliad bod mwy i'w wneud o hyd o ran gwella systemau cyfathrebu (â hawlwyr ac o fewn Gweithrediadau DWP) a'r asesiad wyneb yn wyneb, er enghraifft. Mae ystadegau diweddaraf DWP yn nodi bod 43 y cant o'r unigolion hynny y nodwyd eu bod yn ffit i weithio yng Nghymru wedi apelio yn erbyn y penderfyniad hwn a bod 36 o'r apelïadau hyn wedi'u dyfarnu o blaid y cleient
- mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd y newidiadau i fudd-daliadau, yn arbennig y **gofynion amodoldeb uwch** sy'n gysylltiedig â'r Credyd Cynhwysol (h.y. disgwylir i'r rhai a all weithio neu a all baratoi ar gyfer gwaith wneud mwy fel un o amodau cael budd-dal) fel y'u nodir mewn 'Ymrwymiad Hawlydd' a lofnodwyd yn golygu y bydd rhai unigolion sy'n cael budd-daliadau etifeddol yn dewis peidio

â'u hawlio mwyach. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos parau. Er enghraifft, mae Adam a Phillips (2013) yn nodi bod amodau'r Lwfans Ceisio Gwaith ar hyn o bryd yn gymwys ar gyfer hyd at 16 awr neu £76 (£121 ar gyfer parau) tra bydd y Credyd Cynhwysol yn ymestyn yr amodau hyn i 35 awr x isafswm cyflog = £213 (£426 ar gyfer parau). At hynny, bydd y Credyd Cynhwysol, am y tro cyntaf, yn cyflwyno amodoldeb 'mewn gwaith' i'r rhai sy'n ennill incwm islaw trothwy enillion. Fodd bynnag, mae adroddiad ar brofion a gynhaliwyd ar gynllun y Credyd Cynhwysol (rhwng Mawrth a Hydref 2011) a oedd yn canolbwyntio ar y defnyddiwr yn nodi bod gwrthwynebiad i egwyddorion amodoldeb mewn gwaith a bod angen rhoi mwy o gymorth cyflogaeth i'r rhai mewn gwaith (Rotik a Perry, 2012). Nid yw'n glir eto faint yn rhagor o bobl a fydd yn gorfod bodloni gofynion o ran chwilio am waith o dan y Credyd Cynhwysol: mae'r rheoliadau yn darparu ar gyfer ymestyn gofynion o ran chwilio am waith i gynnwys 50,000 yn fwy o bobl yng Nghymru (yn bennaf ymhlith parau), ond nid yw DWP wedi ymrwymo eto i ddefnyddio'r opsiwn hwnnw'n llawn ac felly mae'r goblygiadau yn aneglur ar hyn o bryd (Adam a Phillips, 2013). At hynny, cyn cyflwyno'r Credyd Cynhwysol, mae'n bosibl y bydd llawer mwy o bobl yn gorfod bodloni gofynion o ran chwilio am waith o gymharu ag Ebrill 2010. Er enghraifft, mae rhieni unigol â phlentyn ieuengaf rhwng pump a naw oed a arferai hawlio Cymhorthdal Incwm ac unigolion a arferai hawlio Budd-dal Analluogrwydd yr aseswyd eu bod yn ffit i weithio yn cael eu trosglwyddo i'r Lwfans Ceisio Gwaith, y mae llawer mwy o ofynion o ran chwilio am waith yn gysylltiedig ag ef.

- Efallai y bydd y cosbau llymach am fethu â chydymffurfio â'r gyfundrefn amodoldeb yn cael effaith negyddol ar iechyd. Mae'r cosbau yn amrywio o atal budd-daliadau am wythnos (e.e. os bydd unigolion yn y categori amodoldeb llawn yn methu â pharatoi ar gyfer gwaith) hyd at dair blynedd (e.e. methiant i gydymffurfio ar sawl achlysur). Mae tystiolaeth yn awgrymu bod hawlwyd iau yn debygol o gael cosb am eu bod yn cael eu cefnogi gan eu teuluoedd, a hynny'n anghymesur (Peters a Joyce, 2006). Tra bod data cosbau ar gyfer Lwfans Ceisio Gwaith yn awgrymu bod unigolion ag anabledd a merched yn llai tebygol ar hyn o bryd o gael cosb yn gyffredinol (Cronfa Ddata Gwerthuso Cosbau DWP a data poblogaeth Lwfans Ceisio Gwaith o'r Gronfa Ddata Budd-daliadau Genedlaethol). Yn gyffredinol ymddengys nad oes unrhyw wahaniaeth amlwg o ran y tebygolrwydd o gael cosb ar

gyfer gwahanol bobl mewn gwahanol grwpiau ethnig. Ni fydd cosbau yn gymwys i ddyfarniad cyfan y Credyd Cynhwysol; yn hytrach, byddant ond yn gymwys i'r swm cyfatebol sydd wedi'i sancsiynu o dan y system budd-daliadau gyfredol (e.e. Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth). Hefyd, bydd cronfeydd caledi ar gael i'r rhai sydd wedi cydymffurfio â'r holl ofynion sy'n gysylltiedig â gwaith yn y cyfnod cydymffurfio blaenorol a bydd modd adennill unrhyw daliad o daliadau'r Credyd Cynhwysol yn y dyfodol (DWP, 2012o). Felly, bydd cosbau yn arwain at leihad mewn incwm ac effeithiau andwyol posibl ar iechyd. Ar y llaw arall, efallai bod gan gosbau rôl i'w chwarae o ran annog hawlwyd i gydymffurfio â gofynion y bwriedir iddynt eu helpu i symud i mewn i waith neu baratoi ar gyfer gwaith. Byddai hyn yn gwella eu siawns o ddod o hyd i waith yn gyflymach a gallai gael effaith gadarnhaol ar iechyd.

- Mae risg y gall rhai o'r diwygiadau arwain at ymatebion ymddygiadol anfwriadol a allai gael effaith negyddol ar iechyd. Er enghraifft, efallai y bydd unigolion sy'n cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cyfrannol y gosodwyd terfyn amser arno ac nad ydynt yn gymwys i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn gysylltiedig ag incwm (am fod ganddynt incwm neu gyfalaf arall) yn dewis rhoi'r gorau i incwm arall er mwyn bod yn gymwys i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn gysylltiedig ag incwm. Gall hyn gynnwys partner yn rhoi'r gorau i'w swydd a'r effeithiau cadarnhaol ar les sy'n gysylltiedig â hi.
- Mae'n bosibl y bydd cyfnodau talu budd-daliadau misol (sy'n disodli llawer o daliadau a wneir bob pythefnos) a thoriadau i fudd-daliadau yn gwaethygu problemau cyllidebu ymhellach i deuluoedd incwm isel, a all arwain at risgiau cynyddol i iechyd. Er enghraifft, os na all pobl fforddio talu eu biliau ynni, yna mae'n bosibl y byddant yn tanwresogi eu cartref neu'n cael eu datgysylltu'n llwyr, sy'n golygu na fydd ganddynt unrhyw ddŵr poeth nac unrhyw ffordd o wresogi eu cartref. Gall hyn arwain at salwch sy'n gysylltiedig ag oerfel, cynnydd mewn straen a salwch meddwl, mwy o ymweliadau meddygon teulu a mwy o bobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty, y byddant oll yn rhoi mwy o bwysau ar y GIG ac, o bosibl, yn cynyddu nifer y marwolaethau yn ystod y gaeaf. Fodd bynnag, mae DWP yn awgrymu y bydd talu budd-daliadau yn fisol yn ei gwneud hi'n haws i gartrefi fanteisio ar dariffau rhatach ar gyfer biliau cyfleustodau.
- Fel arall, mae'n bosibl y bydd unigolion yn lleihau eu gwariant ar hanfodion fel bwyd er mwyn sicrhau cael digon o arian i

dalau eu biliau tanwydd, gan arwain unwaith eto at ganlyniadau iechyd gwaeth. Mae'n bosibl y bydd hyn yn arwain at ddefnydd cynyddol o fanciau bwyd. Yn wir, mae Ymddiriedolaeth Trussell (sy'n gweithredu rhwydwaith o 23 o fanciau bwyd yng Nghymru) wedi nodi i'r galw gynyddu'n sylweddol rhwng mis Ebrill 2011 a mis Mawrth 2012 a'i fod wedi cynyddu'n fwy byth ers mis Ebrill 2012. Yn ogystal ag effaith y diwygiadau lles, mae'n bosibl bod gan yr hinsawdd economaidd rôl i'w chwarae hefyd yn y galw cynyddol hwn. At hynny, mae ymchwil ddiweddar ar gyfer DWP ar hawl wyr yr oedd eu Lwfans Tai Lleol yn llai na'u rhent yn awgrymu mai'r camau mwyaf cyffredin a gymerwyd oedd lleihau gwariant ar eitemau hanfodol (42 y cant) ac eitemau nad ydynt yn hanfodol (36 y cant). Fodd bynnag, ymddengys fod diffygion wedi effeithio ar ymddygiad gwaith. Er enghraifft, dywedodd dros chwarter yr hawl wyr eu bod wedi chwilio am waith er mwyn gwneud iawn am y gwahaniaeth ac roedd tua un o bob deg wedi chwilio am swydd â chyflog uwch (Beatty et al., 2012).

- Mae'n bosibl y bydd diwygiadau i'r Budd-dal Tai a threfniadau olynol ar gyfer Budd-dal y Dreth Gyngor yn gorfodi rhai hawl wyr budd-daliadau i symud i mewn i dai o ansawdd gwael neu dai gorlawn, neu mae'n bosibl y bydd hyd yn oed yn arwain at ddigartrefedd, a allai gael effeithiau negyddol ar iechyd a lles. Hefyd, os caiff teuluoedd eu gorfodi i adleoli allan o'u hardal leol o ganlyniad i'r diwygiadau lles mae'n bosibl y byddant yn colli gofal plant anffurfiol a chymorth arall, a all gael effaith andwyol ar gyflogaeth rhieni a lles cyffredinol teuluoedd, yn ogystal â chynyddu'r galw, o bosibl, ar wasanaethau ffurfiol a ddarperir. At hynny, mae ymchwil gan Brown (2012a) yn awgrymu bod symudiadau mynych yn ystod plentyndod yn gysylltiedig â chanlyniadau iechyd gwaeth (e.g. iechyd a thrallod seicolegol yn gyffredinol) ac ymddygiad (e.e. yfed yn drwm, defnyddio cyffuriau ac ysmegu), ond nid mesurau iechyd corfforol (e.e. mynegai màs y corff).
- Gall hawl wyr sydd â'r hawl ar hyn o bryd i gael budd-daliadau allan o waith sy'n seiliedig ar brawf modd, budd-daliadau anabledd neu gredydau treth hefyd fod yn gymwys i gael amrywiaeth o gymorth arall a elwir yn fudd-daliadau 'pasbort'. Mae nifer o fudd-daliadau 'pasbort' a chynlluniau a weinyddir gan Lywodraeth Cymru yn ceisio gwella canlyniadau iechyd a lles i oedolion a phlant. Am y bydd y Credyd Cynhwysol a'r Taliad Annibyniaeth Personol yn disodli'r budd-daliadau a'r credydau treth hynny sy'n pennu cymhwysedd ar hyn o bryd, mae meini

prawf cymhwysedd newydd wrthi'n cael eu hystyried. Felly, yn gyntaf, efallai y bydd y newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer budd-daliadau 'pasbort' yn effeithio ar hawl unigolion i gael budd-daliadau. Fodd bynnag, nod Llywodraeth Cymru yw cyflwyno meini prawf cymhwysedd newydd a fydd yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y rhai sy'n cael budd-daliadau 'pasbort'. Yn ail, gall y meini prawf cymhwysedd llymach sy'n gysylltiedig â rhai o'r newidiadau o dan Ddeddf Diwygio Lles 2012 olygu ei bod yn bosibl y bydd y rhai sydd â'r hawl i gael budd-daliadau a/neu gredydau treth ar hyn o bryd yn colli eu hawl, a allai effeithio'n anuniongyrchol ar eu cymhwysedd i gael budd-daliadau 'pasbort'. Fodd bynnag, mae nifer yr unigolion yr effeithir arnynt gan hyn yn debygol o fod yn fach am y bydd hawlwyr yn aml yn dod yn gymwys i gael budd-daliadau eraill sydd hefyd yn rhoi'r hawl iddynt gael budd-daliadau 'pasbort'. Nodir y budd-daliadau 'pasbort' hynny y gellir effeithio arnynt isod.

- **Prydau ysgol am ddim** – y nod yw rhoi pryd maethlon i blant mewn teuluoedd incwm isel bob dydd. Mae rhai astudiaethau ymchwil yn awgrymu y gallai manteisio ar giniawau ysgol wella iechyd ac ymddygiad plant (Golley et al., 2010 a Storey et al., 2011) a chael effaith gadarnhaol ar eu harferion bwyta y tu allan i'r ysgol (Harper et al. 2009). Fodd bynnag, nid oes unrhyw gonsensws o fewn y dystiolaeth ymchwil. Er bod astudiaeth ddiweddar gan Brown (2012b) yn awgrymu i'r hawl gyffredinol i gael prydau ysgol am ddim gael effeithiau cadarnhaol ar ddeiet plant, ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth i'r newidiadau hyn mewn arferion bwyta amser cinio sicrhau manteision iechyd mesuradwy (e.e. newid ym mynegai màs corff plentyn) yn ystod y cyfnod treialu o ddwy flynedd, er ei bod yn bosibl y bydd yn cael effeithiau ar iechyd yn y tymor hwy.
- **Cychwyn iach** – cynllun â phrawf modd i ferched beichiog a theuluoedd â phlant o dan bedair blwydd oed, sy'n cyflenwi talebau am fwydydd sylfaenol a fitaminau. Nod y cynllun hwn yw darparu rhwyd diogelwch maethol i dderbynwyr ar incwm isel iawn. Gallai colli'r hawl hon arwain at statws maethol gwaeth yn achos babanod a enir i famau ar incwm isel, llaeth y fron o ansawdd gwaeth a babanod a phlant yn cael deietau llai iachus, y gallent oll effeithio ar iechyd gydol oes a nifer yr achosion o glefyd cronig.
- **Prawf golwg y GIG a help tuag at gost sbectol** – os bydd gan lai o bobl o dan y Credyd Cynhwysol hawl i gael prawf golwg y GIG am ddim neu gymorth ar ffurf taleb tuag at gost

sbectol, mae'n bosibl y bydd effeithiau andwyol ar iechyd llygaid. Nid oes a wnelo'r prawf golwg â nodi a oes angen sbectol ar glaf yn unig, bwriedir iddo hefyd ganfod problemau sy'n peryglu golwg unigolyn yn gynnar cyn iddo ddechrau colli ei olwg. Gall colli golwg effeithio ar lawer o agweddau ar iechyd a lles ehangach gan gynyddu'r galw am wasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd eraill a rhoi mwy o bwysau arnynt.

- **Triniaeth ddeintyddol y GIG** – mae argaeledd triniaeth ddeintyddol am ddim yn annog unigolion i fynd at y deintydd yn rheolaidd drwy ddileu rhwystr cost a fforddiadwyedd. Ar hyn o bryd nid oes angen i tua 60 y cant o oedolion yng Nghymru sy'n defnyddio gwasanaethau deintyddol y GIG dalu am driniaeth. Mae iechyd y geg yn rhan annatod o iechyd yn gyffredinol. Os bydd nifer y cleifion sy'n gorfod talu am driniaeth ddeintyddol yn cynyddu, mae'n bosibl y bydd hyn yn arwain at gleifion yn dewis peidio â mynd at y deintydd a dirywiad yn iechyd y geg. Ar y llaw arall, mae'r refeniw a geir o daliadau a godir ar gleifion deintyddol (tua £28 miliwn y flwyddyn) yn cyfrannu at ariannu iechyd y geg a gofal deintyddol yn gyffredinol. Os bydd nifer y cleifion sy'n gorfod talu am driniaeth yn lleihau, bydd hyn yn lleihau'r refeniw sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau deintyddol y GIG.
- **Costau teithio** – mae'r cynllun hwn yn cynnig cymorth i'r cleifion hynny nad oes ganddynt angen meddygol i gael eu cludo i'r ysbyty. Mae'r Cynllun Costau Teithio Gofal Iechyd yn galluogi cleifion i adennill y cyfan neu ran o'r costau sy'n gysylltiedig â mynd i apwyntiadau gofal eilaidd a arweinir gan feddyg ymgynghorol.
- **Cynllun Incwm Isel y GIG** – Mae'r cynllun hwn yn rhoi cymorth llawn neu rannol gyda chostau iechyd am driniaeth ddeintyddol y GIG, profion golwg, sbectol/lensys cyswllt a theithio i'r ysbyty er mwyn cael triniaeth y GIG o dan ofal meddyg ymgynghorol. Yr un fyddai'r goblygiadau â'r rhai a nodir uchod os bydd gan lai o bobl hawl i ddefnyddio'r gwasanaethau iechyd hyn o dan Gynllun Incwm Isel y GIG.
- **Nyth** – cynllun tlodi tanwydd sy'n cynnig amrywiaeth o gyngor a chymorth i gartrefi incwm isel er mwyn eu helpu i leihau biliau ynni a gwella effeithlonrwydd ynni. Fel y nodir uchod, gallai cynnydd yn nifer y bobl sydd mewn tlodi tanwydd arwain at risgiau cynyddol i iechyd.
- **Cynllun y Bathodyn Glas (parcio i'r anabl)** – fe'i lluniwyd er mwyn helpu pobl sydd ag anabledd difrifol i deithio'n annibynnol, naill ai fel gyrwyr neu deithwyr, a'u galluogi i

barcio'n agos at y lle y mae angen iddynt fynd. Mae'n bosibl y bydd colli'r hawl i'r budd-dal hwn yn lleihau'r cyfleoedd i unigolion ddefnyddio gwasanaethau a chyfleusterau a byw'n annibynnol.

- **Grant Gwisg Ysgol Llywodraeth Cymru** – mae'n gwneud taliadau grant untro er mwyn helpu teuluoedd ar incwm isel i brynu gwisgoedd ysgol i'w plant. Bydd colli'r hawl i gael y grant hwn yn achosi mwy o galedi ariannol i deuluoedd ar incwm isel na allant fforddio prynu gwisg ysgol. Efallai y bydd y teuluoedd hyn yn mynd ati i fenthyg arian i brynu eitemau o wisg ysgol neu efallai na fyddant yn gallu fforddio prynu gwisg ysgol o gwbl. Os bydd hynny'n digwydd, bydd mwy o ddisgyblion nad ydynt yn gwisgo gwisg ysgol neu ddillad priodol i'r ysgol, a all, yn ei dro, arwain at gosbau ysgol am fethu â chydymffurfio â rheolau gwisg ysgol, mwy o stigmatiddio, bwllo, triwanta, hunan-barch isel ac ymddygiad aflonyddgar.
- **Peidio â chodi tâl am fwyd a llety ar deithiau preswyl ysgolion** – mae teuluoedd sy'n cael budd-daliadau penodol wedi'u heithrio rhag talu cost bwyd a llety ar deithiau preswyl ysgolion. Bydd colli'r hawl i'r eithriad hwn yn cynyddu'r pwysau ariannol ar deuluoedd ar incwm isel i dalu am y teithiau. Yn y pen draw, efallai y bydd yn arwain at lai o blant o deuluoedd incwm isel yn mynd ar y fath deithiau am na all eu teuluoedd fforddio talu'r costau ac at ysgolion yn cynnig llai o deithiau preswyl am fod nifer y plant sy'n mynd ar y teithiau hyn yn lleihau.
- Caiff elfennau dewisol y Gronfa Gymdeithasol (Benthyciadau Argyfwng a Grantiau Gofal Cymunedol) eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru o fis Ebrill 2013. Nod allweddol y Gronfa Gymdeithasol yng Nghymru fydd helpu unigolion a theuluoedd sy'n wynebu sefyllfa o argyfwng neu ddigwyddiad pwysig mewn bywyd a allai amharu ar eu hiechyd a'u lles. O gofio'r nod hwn, bydd effaith gyfun y lleihad yng nghyllid y rhaglen a'r cynnydd disgwyledig yn nifer y ceisiadau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yn lleihau'r cymorth sydd ar gael i unigolion sy'n agored i niwed, a all amharu ar ganlyniadau iechyd, yn enwedig iechyd meddwl.
- Mae'r Gronfa Byw'n Annibynnol yn rhoi taliadau arian parod yn ôl disgrisiwn i bobl anabl ag anghenion cymorth uchel. Mae'r cymorth hwn yn ei gwneud yn bosibl i bobl anabl ddewis byw yn eu cymunedau yn hytrach nag mewn gofal preswyl.

Caewyd y Gronfa Byw'n Annibynnol i ymgeiswyr newydd ym mis Mehefin 2010. Ym mis Rhagfyr 2012, ar ôl ymgynghori, cadarnhaodd Llywodraeth y DU y bydd yn cau'r Gronfa Byw'n Annibynnol yn 2015 ac yn datganoli cyllid i ALLau yn Lloegr ac i'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban. Bydd angen i Lywodraeth Cymru benderfynu ar y ffordd orau o gefnogi'r oddeutu 1,900 o bobl yng Nghymru sy'n cael arian o'r Gronfa Byw'n Annibynnol, sy'n werth tua £35 miliwn y flwyddyn. Gan ddibynnu ar y trefniadau olynol, efallai y bydd hyn yn effeithio ar iechyd pobl anabl.

- Efallai y bydd mwy o bwysau ar y gwasanaeth iechyd am y bydd angen i feddygon teulu gynnal mwy o asesiadau (e.e. oherwydd newidiadau i feini prawf cymhwysedd y cynllun Bathodyn Glas) ac oherwydd atgyfeiriadau o'r Rhaglen Waith, sef rhaglen o fudd-dal i waith newydd DWP sy'n seiliedig ar fodel taliadau am ganlyniadau ac sy'n werth £5 biliwn a lansiwyd ledled Prydain Fawr ym Mehefin 2011. Mae'n rhoi cymorth wedi'i bersonoli sy'n canolbwyntio ar waith i unigolion sydd wedi bod yn ddi-waith ers amser hir neu sydd mewn perygl o hynny; mae hefyd yn ceisio cynnig cymorth yn y gwaith er mwyn galluogi unigolion i aros yn eu swyddi unwaith y byddant wedi dod o hyd i waith. Mae'n bosibl y bydd galwadau gweinyddol ychwanegol am dystiolaeth feddygol i ategu asesiadau ac apeliadau. At hynny, bydd diwygio cymorth cyfreithiol yn golygu na fydd unigolion yn gallu cael dystiolaeth feddygol am ddim mwyach drwy'r llwybr hwn a gallai meddygon ymgynghorol a meddygon teulu ddewis codi tâl ar unigolion am y dystiolaeth hon i ategu eu hapeliadau yn erbyn penderfyniadau ynghylch budd-daliadau. Efallai y bydd y cartrefi hynny sy'n symud i lety amgen oherwydd diffyg rhwng y budd-dal a'r rhent hefyd yn cael effaith ar y galw am ddarpariaeth practisiau meddygon teulu. Fodd bynnag, mae DWP (2010b) yn nodi bod yr effaith hon yn annhebygol o fod yn sylweddol.

Cadarnhaol

- Bydd newid i'r Credyd Cynhwysol yn newid lefel yr hawliadau i rai cartrefi sydd eisoes yn cael budd-daliadau presennol. I'r rhai y mae eu hamgylchiadau wedi aros yr un fath, bydd Llywodraeth y DU yn rhoi diogelwch arian parod i hawlwy'r byddai eu dyfarniad o dan y Credyd Cynhwysol yn llai nag o dan yr hen system. Bydd y diogelwch trosiannol hwn ar ffurf taliad arian parod ychwanegol i wneud iawn am y gwahaniaeth rhwng yr hen fudd-dal a'r budd-dal newydd. Caiff yr uchafswm ei bennu

ar adeg newid a bydd diogelwch arian parod yn parhau i gael ei dalu nes y bydd gwerth y dyfarniad o dan y system newydd yn uwch na lefelau'r hawliad cyn y Credyd Cynhwysol. Bydd y dull hwn o weithredu yn sicrhau y bydd gan rai hawl wyr amser i addasu i'r newid i'r Credyd Cynhwysol a bydd yn lleihau'r effaith ar incymau ac felly ar iechyd o gofio'r cysylltiadau a amlinellwyd uchod. Fodd bynnag, canfu gwaith ymchwil gan Sainsbury et al. (1996) mai dim ond 3 y cant o hawl wyr Cymhorthdal Incwm a nododd nad oeddent wedi gweld newid yn eu hamgylchiadau a effeithiodd ar eu hawl yn ystod chwe mis cyntaf eu hawliad. Awgryma hyn ei bod yn annhebygol iawn y bydd trefniadau trosiannol yn diogelu incwm y tu hwnt i'r byrdymor (Finn a Tarr, 2012).

- Fel yr amlinellwyd yn ei hasesiad effaith ar gyfer y Credyd Cynhwysol, mae DWP yn rhagweld y bydd y trefniadau symlach ar gyfer y Credyd Cynhwysol (sy'n lleihau nifer y gwahanol fudd-daliadau sy'n rhyngweithio mewn ffyrdd cymhleth) yn arwain at gynnydd sylweddol yn nifer yr unigolion sy'n cael budd-daliadau nad ydynt yn cael eu hawlio ar hyn o bryd, gyda'r rhan fwyaf o'r effaith ym mhen isaf y dosbarth incwm. Mae'n bosibl y bydd hyn yn effeithio ar rai cartrefi sydd â'r hawl i unrhyw fudd-daliadau yn y system gyfredol, ond nad ydynt yn eu hawlio. Hefyd, er enghraifft, os oes gan hawl ydd yr hawl i gael Budd-dal Tai a Lwfans Ceisio Gwaith ar hyn o bryd, ond ei fod ond yn hawlio ei Lwfans Ceisio Gwaith, unwaith y bydd y Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno, byddai'n cael cymorth i dalu costau tai am y byddai'n rhan o'r un broses hawlio unigol. Mae'n bosibl y bydd y cynnydd hwn mewn incwm yn cael effeithiau cadarnhaol ar iechyd ac effeithiau cymdeithasol eraill a drafodir yn yr adroddiad hwn. Drwy symleiddio'r system, mae DWP hefyd yn disgwyl lleihau'r cyfleoedd ar gyfer twyll, gwallau a gordaliadau. Fodd bynnag, mae Adam a Browne (2012) yn codi pryderon y bydd cadw cymorth y dreth gyngor ar wahân i'r Credyd Cynhwysol, a chaniatáu iddo amrywio ledled Prydain Fawr, hefyd yn tanseilio'r broses symleiddio hon.
- Mae DWP yn nodi y caiff gofynion amodoldeb eu personoli er mwyn ystyried cyfrifoldebau gofalu a rhwystrau i weithio sy'n ymwneud ag anabledd, gan gynnwys iechyd meddwl. At hynny, mae DWP wrthi'n ystyried cynigion ar gyfer rhoi amodoldeb wedi'i deilwra ar waith ar gyfer hawl wyr y Credyd Cynhwysol sydd â phroblemau cyffuriau ac alcohol. Cynigir y bydd amodoldeb wedi'i deilwra yn gymwys i'r rhai sy'n ddibynol ar

gyffuriau ac alcohol ac sy'n cael triniaeth sy'n canolbwyntio ar eu gwella. Byddai'r hawlwy'r hynny sy'n cael triniaeth ar hyn o bryd gan ddarparwr cymeradwy wedi'u heithrio rhag amodoldeb. Croesewir egwyddor teilwra amodoldeb budd-daliadau ar gyfer y rhai â phroblem camddefnyddio cyffuriau neu alcohol am y bydd hyn yn helpu'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau trin. Fodd bynnag, prin yw'r wybodaeth am y cynigion a byddai angen asesu a fyddai hyn yn cynyddu'r galw am ddarparu gwasanaethau ynghyd a'r goblygiadau i hawlwy'r ar restrau aros.

- Gall rhai o'r diwygiadau lles olygu ei bod yn bosibl y bydd rhai hawlwy'r yn dod yn gymwys yn awtomatig i gael budd-daliadau 'pasbort', a all arwain at welliannau iechyd. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd y rhai sy'n newid o Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cyfrannol i Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn gysylltiedig ag incwm yn dod yn gymwys i gael budd-daliadau 'pasbort' megis Prydau Ysgol am Ddim. Fodd bynnag, os bydd cyfanswm yr unigolion sy'n gymwys i gael budd-daliadau 'pasbort' yn cynyddu, bydd hyn yn rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i ddod o hyd i fwy o arian ar gyfer y cynlluniau hyn. Os na fydd hyn yn bosibl, efallai y bydd angen ail-gyfrifo'r swm fesul buddiolwr cymwys, a allai danseilio effeithiolrwydd y cynlluniau.
- Nod Llywodraeth y DU yw sicrhau bod y diwygiadau yn llwyddo i helpu pobl i symud i mewn i waith a symud ymlaen yn y gwaith a chreu diwylliant sy'n canolbwyntio ar waith gan leihau'r ddibyniaeth ar les (e.e. annog unigolion i ystyried bod y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn fudd-dal dros dro i'r rhan fwyaf o bobl). Mae tystiolaeth dda i awgrymu bod gwaith ar y cyfan yn fuddiol i iechyd a lles corfforol a meddyliol, gan gynnwys ar gyfer pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd, ac y gall helpu i annog adferiad. Mae bod yn ddi-waith yn aml yn arwain at iechyd gwaeth (e.e. yfed mwy o alcohol, smygu a defnyddio cyffuriau) yn ogystal â chanlyniadau negyddol eraill (Waddell a Burton, 2006; Morris et al., 1992; Lee et al., 2006; Peck a Plant, 1986; Cyngor Cynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau, 1998). Yn wir, mae rhywfaint o dystiolaeth yn awgrymu bod diweithdra yn ffactor risg penodol ar gyfer hunanladdiad (Barr et al., 2012).
- Mae DWP yn rhagweld y bydd y Credyd Cynhwysol yn arwain at gynyddu cyflogaeth o ganlyniad i'r canlynol:
 - gwell cymhellion ariannol – unwaith y bydd y Credyd Cynhwysol wedi'i roi ar waith yn llawn a bydd unigolion a chyflogwyr wedi cael amser i ymateb i'r newidiadau, yn

gyffredinol mae DWP yn rhagweld y bydd y newid mewn cymhellion ariannol yn arwain at ostyngiad net yn nifer yr unigolion di-waith o rhwng 100,000 a 300,000 ym Mhrydain Fawr (DWP, 2012h). At hynny, mae DWP yn amcangyfrif y bydd unigolion sydd eisoes yn gyflogedig yn cynyddu eu horiau o gyfanswm o 1–2.5 miliwn awr yr wythnos. Mae'r ddau amcangyfrif hyn yn ystyried achosion lle mae rhai unigolion yn debygol o symud allan o waith a lle mae'n debyg y bydd lleihad mewn oriau (e.e. mae'n bosibl y bydd unigolion sy'n gweithio ar drothwyon credyd treth ar hyn o bryd yn ymateb i'r Credyd Cynhwysol drwy leihau nifer yr oriau a weithir ganddynt)

- system symlach a mwy tryloyw – nid yw'r amcangyfrifon uchod yn ystyried agweddau anariannol y Credyd Cynhwysol, y mae DWP yn awgrymu y byddent yn cynyddu'r effaith gyffredinol. Er enghraifft, mae DWP yn amcangyfrif y bydd symleiddio'r system a'i gwneud yn fwy tryloyw a phroses trosglwyddo i waith sy'n fwy llyfn yn cynyddu nifer yr unigolion mewn gwaith ym Mhrydain rhwng 50,000 a 100,000. Fodd bynnag, dylid ystyried yr amcangyfrif hwn fel un dangosol. Mae DWP yn cyfeirio at dystiolaeth sy'n awgrymu ei bod yn bosibl y caiff unigolion eu hatal rhag gweithio hyd yn oed pan fyddent ar eu hennill yn ariannol pe baent yn gweithio am nad ydynt yn gwybod faint yn fwy o arian y byddent yn ei ennill pe baent yn gweithio ac oherwydd y costau gweinyddol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â symud i mewn i waith (Bashir et al., 2011; Purdon a Hales, 2003; Brewer et al., 2009; Sims et al., 2010). Mae mentrau eraill hefyd wedi ceisio ymdrin â'r mater hwn gan gael effeithiau cadarnhaol sylweddol (Cebulla et al., 2008)
- newidiadau i'r gofynion a osodir ar unigolion – sy'n seiliedig ar effeithiolrwydd yr elfennau chwilio am waith gorfodol (yn ogystal â nifer o newidiadau eraill i reolau budd-daliadau) a gyflwynwyd gyda'r Lwfans Ceisio Gwaith (Rayner et al., 2000; Middlemas, 2006), mae DWP yn rhagweld y bydd y gofynion amodoldeb sy'n gysylltiedig â'r Credyd Cynhwysol yn arwain at rhwng 50,000 a 100,000 o unigolion yn symud i mewn i gyflogaeth. Fodd bynnag, mae'n nodi ei bod yn anodd asesu i ba raddau y byddai'r effaith hon yn ychwanegol at y mentrau ariannol ac anariannol eraill a amlinellwyd uchod.
- Yn ogystal â'r Credyd Cynhwysol, mae DWP yn cyflwyno'r cap ar fudd-daliadau fel na fydd cartrefi sy'n cael budd-daliadau allan

o waith mwyach yn cael mwy mewn taliadau lles na chyflog wythnosol cyfartalog cartrefi sy'n gweithio, gyda'r nod o sicrhau bod dechrau gweithio yn fwy deniadol. Mae DWP wedi nodi y rhoddir cymorth (drwy'r Ganolfan Byd Gwaith a'i phartneriaid) i'r cartrefi hynny y nodwyd y gallai'r cap effeithio arnynt er mwyn eu helpu i symud i mewn i'r farchnad lafur neu'n agosach ati. O'r 58,000 o hawlwyd ym Mhrydain Fawr a hysbyswyd gan DWP rhwng 4 Mai a 6 Gorffennaf 2012 y gallai'r cap effeithio arnynt, mae gwybodaeth ddangosol yn awgrymu bod tua 1,700 o hawlwyd wedi symud i mewn i waith ac mae 5,000 o hawlwyd eraill wedi nodi yr hoffent gael cymorth i ddychwelyd i'r gwaith (DWP, 2012c).

- Fel y nodwyd yn flaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r IFS i gynnal astudiaeth ymchwil er mwyn asesu effeithiau'r diwygiadau lles (gan gynnwys y Credyd Cynhwysol) ar y farchnad lafur. Mae'r ymchwil hon yn rhagweld mai cymharol fach fydd yr effaith ar y cyflenwad llafur yng Nghymru. Er enghraifft, mae ei senario canolog (sy'n cynnwys y Credyd Cynhwysol) yn rhagweld y bydd cyflogaeth oedran gweithio yn cynyddu 0.3 pwynt canrannol sy'n cyfateb i tua 5,000 o unigolion. Fodd bynnag, erys cryn ansicrwydd ynghylch faint o effaith a gânt ar y cyflenwad llafur. Ceir y dadansoddiad llawn yn Adam a Phillips (2013).
- Cred rhai rhanddeiliaid a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil i asesu effaith y diwygiadau i'r Lwfans Byw i'r Anabl yng Nghymru (a wnaed gan London Economics Wales) y caiff y diwygiadau effaith gadarnhaol ar gyflogaeth. Mae hyn yn cyd-fynd â nod DWP i wella dealltwriaeth unigolion o'r budd-dal gan gynnwys ei fod ar gael yn y gwaith. Felly, mae'n bosibl y bydd hyn yn arwain at fwy o bobl anabl yn symud i mewn i waith.
- Fodd bynnag, yn ogystal ag amodau economaidd ehangach, bydd ffactorau megis trafndiaeth gyhoeddus, gofal plant fforddiadwy (yr effeithir arno gan y toriadau i elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith ond a gaiff ei wella i ryw raddau gan y trefniadau ar gyfer cymorth gofal plant o dan y Credyd Cynhwysol) ac – mewn rhai achosion – diwylliant budd-daliadau hirsefydlog yn dylanwadu'n fawr ar y potensial ar gyfer cyflogaeth. Er i 67 y cant o'r hawlwyd budd-daliadau nad oeddent yn gweithio y cyfwelwyd â hwy gan Trinh a Ginnis (2012) fynegi agweddau cadarnhaol tuag at waith gan gytuno y byddai yn eu gwneud yn hapusach, ar yr un pryd cydnabu ymatebwyr y byddai'n anodd iddynt ddechrau

gweithio⁶⁴. Hefyd, mae'n bosibl y bydd rhai o'r unigolion sydd eisoes yn gweithio yn ei chael hi'n anos aros yn eu swyddi os na fyddant yn gymwys i gael eu Lwfans Byw i'r Anabl mwyach er enghraifft, a all olygu na fyddant mwyach yn gallu fforddio talu'r costau ychwanegol y maent yn mynd iddynt o ganlyniad i'w hanabledd. At hynny, o ran amodau economaidd ehangach, mae rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (2012) ar gyfer y DU yn awgrymu bod cyflogaeth yn annhebygol o ddychwelyd i'r cyfraddau a welwyd cyn y dirwasgiad tan rywbryd ar ôl diwedd eu cyfnod rhagweld diweddaraf, sy'n ymestyn hyd at chwarter 1, 2018.

Gwasanaethau gofal cymdeithasol

Diwygiadau allweddol:

- Credyd Cynhwysol
- dileu'r Lwfans Byw i'r Anabl a rhoi'r Taliad Annibyniaeth Bersonol yn ei le (ar gyfer unigolion rhwng 16 a 64 oed)
- Budd-dal Tai
- Y Gronfa Byw'n Annibynnol.

Effeithiau posibl

Effaith ddosbarthiadol – Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cysylltiad eithaf cryf rhwng gofal/gwaith cymdeithasol (ar gyfer pobl hŷn, pobl ag anableddau a phlant) ac incwm cartref isel, gyda'r tlawd yn aml yn dibynnu ar y gwasanaethau hyn am hanfodion bywyd.

Negyddol

- O gofio'r cysylltiadau uchod rhwng incwm a gofal cymdeithasol, mae effaith negyddol y diwygiadau lles ar incwm a thlodi yng Nghymru yn debygol o arwain at alw cynyddol am wasanaethau gofal cymdeithasol. Yn benodol, disgwylir i'r newidiadau i fudd-daliadau effeithio ar deuluoedd â phlant fwyaf, a all roi pwysau ar wasanaethau plant yn arbennig.

⁶⁴ Poblogaeth yr arolwg oedd cartrefi a oedd yn cael o leiaf un budd-dal neu gredyd treth cymwys (Lwfans Ceisio Gwaith, Credyd Treth i Bobl sy'n Gweithio, Budd-dal Analluogrwydd, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Anabledd Difrifol, Credyd Treth Plant a Budd-dal Tai) ym mis Chwefror/Mai 2011. Dewiswyd y sampl ar hap o gronfeydd data hawlwyr DWP a CThEM ac roedd yn cwmpasu Prydain Fawr. Cymerodd cyfanswm o 5,529 o unigolion mewn 4,315 o gartrefi ran yn yr arolwg (mae hyn yn cynnwys 1,249 o gyfweiliadau â phartneriaid prif hawlwyr). Mae'r canfyddiadau hyn yn ymwneud â'r hawlwyr budd-daliadau nad oeddynt yn gweithio a arolygwyd (h.y. pawb nad oeddent yn gweithio nac mewn grŵp cymorth Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, sy'n cyfateb i 3,420 o unigolion).

- Yn achos diwygiadau i'r Lwfans Byw i'r Anabl, mae nifer o astudiaethau ymchwil wedi awgrymu y gall fod cysylltiad rhwng y galw am wasanaethau gofal cymdeithasol a newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer Lwfans Byw i'r Anabl. Er enghraifft, mewn trafodaethau ag unigolion a oedd yn cael Lwfans Gweini/Lwfans Byw i'r Anabl, canfu Corden et al. (2010) yr ystyrid bod gan y budd-daliadau rôl ataliol o ran helpu unigolion i osgoi symud i mewn i gartrefi gofal preswyl neu gartrefi nyrsio a chynnal eu hiechyd neu atal eu hiechyd rhag dirywio. Er nad yw'r Lwfans Gweini/Lwfans Byw i'r Anabl yn cael ei ddefnyddio'n uniongyrchol i helpu i dalu am ofal personol, mewn llawer o achosion ystyriwyd bod y budd-daliadau yn chwarae rôl allweddol o ran lleihau'r galw am ofal ffurfiol drwy alluogi unigolion i ddod o hyd i'w hatebion eu hunain yn y farchnad neu gan sefydliadau gwirfoddol, nad ydynt yn ddigost yn aml. At hynny, mae gwaith dadansoddi senarios a wnaed gan London Economics (2011a) yn awgrymu y gallai'r diwygiadau i'r Lwfans Byw i'r Anabl arwain at hyd at £74 miliwn ychwanegol yn cael ei wario ar wasanaethau gofal di-breswyl yng Nghymru erbyn 2030, gan ddibynnu ar ba dybiaethau a wneir ynghylch nifer yr unigolion a fydd yn defnyddio'r fath wasanaethau. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 32 y cant yn y gwariant sylfaenol ar wasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru (£228 miliwn y flwyddyn). Fodd bynnag, mae llawer o'r rhanddeiliaid y cyfwelwyd â hwy gan London Economics (2011a) yn awgrymu nad yw'n debyg y bydd unrhyw effaith sylweddol ar y galw am wasanaethau gofal cymdeithasol yn y byrdymor. Y rheswm am hyn yw y disgwylir i'r rhai sy'n colli'r hawl i gael Lwfans Byw i'r Anabl/Taliad Annibyniaeth Personol fod â lefelau cymharol isel o angen (yn enwedig am fod y Taliad Annibyniaeth Personol yn canolbwyntio ar y rhai â'r anghenion mwyaf) ac felly mae'n annhebygol y byddant yn gallu cyrraedd y trothwyon cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau gofal ALLau. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y sefyllfa tymor hwy yn wahanol am y gall colli'r hawl i gael Lwfans Byw i'r Anabl ynddo'i hun arwain at iechyd sy'n dirywio, a allai gynyddu'r galw am Lwfans Byw i'r Anabl a gwasanaethau gofal ALLau a nifer yr unigolion sy'n gymwys i'w cael yn y dyfodol.
- Os mai canlyniadau iechyd gwaeth yw effaith gronnol net y diwygiadau lles, bydd hyn yn rhoi hyd yn oed fwy o bwysau ar wasanaethau cymdeithasol yn y tymor hwy.
- Mae'n bosibl yr effeithir ar ofalwyr anffurfiol (e.e. teuluoedd neu gymdogaion) y byddai'n rhaid dibynnu arnynt ymhellach wrth i hawlwr budd-daliadau golli (rhywfaint neu'r cyfan) o'r cymorth

ariannol a'r gwasanaethau roeddent yn arfer dibynnu arnynt. Er enghraifft, gwyddom fod Lwfans Byw i'r Anabl yn cael ei ddefnyddio i brynu amrywiaeth o wasanaethau cymorth gan y rhai nad ydynt yn gymwys i gael arian gofal cymdeithasol ffurfiol. Felly, mae'n bosibl y bydd y toriadau i'r budd-dal hwn yn arwain at fwy o ddibyniaeth ar ofal anffurfiol, a all gael effaith negyddol wedyn ar ieuchyd gofalwyr (e.e. straen, gofalwyr yn oedi cyn troi at wasanaethau ieuchyd am gymorth gyda'u problemau ieuchyd, ac ati). Fodd bynnag, ar yr un pryd, gall newidiadau megis codi lefel y didyniadau ar gyfer unigolion dros 18 oed nad ydynt yn ddibynyddion sy'n byw mewn cartrefi sy'n cael budd-daliadau olygu y bydd gofalwyr anffurfiol ifanc o fewn y teulu yn symud o bosibl. Hefyd, efallai y bydd y diwygiadau lles yn effeithio'n uniongyrchol ar y gofalwyr eu hunain. Er enghraifft, dyfernir Lwfans Gofalwr ar hyn o bryd i ofalwyr di-dâl sy'n treulio o leiaf 35 awr yr wythnos yn gofalu am unigolyn anabl iawn sy'n cael budd-dal cymwys, a hynny'n rheolaidd. Mae'r budd-daliadau cymwys yn cynnwys Lwfans Byw i'r Anabl. Felly, mae'n debyg y bydd y lleihad yn nifer yr unigolion sy'n gymwys i gael y Taliad Annibyniaeth Bersonol hefyd yn golygu y gwelir newid i lwyth achosion y gofalwyr sy'n gymwys i gael y Lwfans Gofalwr. Efallai y bydd gofynion amodoldeb yn effeithio ar ofalwyr hefyd. Er enghraifft, bydd yn rhaid iddynt fod ar gael i weithio pan fydd eu plentyn yn bump oed yn hytrach na saith oed. Mae'n debyg y bydd hyn yn ei gwneud hi'n anos i deulu a ffrindiau gamu i'r adwy a magu plant sy'n agored i niwed, a allai o bosibl gynyddu nifer y plant mewn gofal.

- Efallai y bydd cartrefi eraill sy'n cael gofal cymdeithasol yn colli rhwydweithiau cymorth anffurfiol eu hunain, neu efallai y terfir ar y gofal ffurfiol y maent yn ei gael am fod yn rhaid iddynt adleoli. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd y cynnydd yn y didyniadau ar gyfer oedolion nad ydynt yn ddibynyddion hefyd yn golygu y bydd oedolion unigol sy'n agored i niwed yn symud i ffwrdd o'r cartref teuluol a'r gefnogaeth y mae'n ei darparu. Efallai y bydd pobl anabl sy'n tanfeddiannu yn y sector tai cymdeithasol ar rent yn cael eu gorfodi i symud i eiddo llai o faint. Yn ogystal â'r posibilrwydd y bydd hawlwr yn colli eu gofal anffurfiol/ffurfiol presennol, mae'n bosibl y bydd ALLau hefyd yn wynebu'r gost ychwanegol o ailasesu pecynnau gofal a chymorth (am fod meini prawf gofal a lefelau gwasanaeth yn amrywio rhwng ALLau) ac addasu'r eiddo newydd er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch i bobl ag anabledau (er y bydd help ar gael drwy'r gronfa taliadau tai yn ôl disgrisiwn). Gall unrhyw fylchau ac oedi posibl

o ran trefniadau newydd sy'n cael eu rhoi ar waith beri gofid i'r unigolyn. Bydd y ffactor symud hwn yn effeithio ar ddosbarthiad anghenion o ran gwasanaethau ledled Cymru a gallai fod pwysau ychwanegol ar wasanaethau mewn rhai ardaloedd. Ar y llaw arall, mae'n bosibl y bydd rhai cartrefi yn symud er mwyn cynnal y fath gysylltiadau er bod risg y terfir ar y gwasanaethau y maent eisoes yn eu cael.

- Mae'n bosibl y bydd y rheolau tanfeddiannu yn y sector tai cymdeithasol ar rent yn arwain at ofalwyr presennol yn rhoi'r gorau i'w rolau yn ogystal ag atal darpar ofalwyr maeth rhag ymgymryd â'r rôl, a fydd yn lleihau'r cyflenwad o ofalwyr maeth yng Nghymru sydd eisoes yn brin. Fodd bynnag, darperir £30 miliwn ychwanegol o Daliadau Tai Dewisol yn 2013/14 a 2014/15 i unigolion ag ymrwymadau maethu yr effeithir arnynt gan y rheolau hyn.
- Lleisiwyd pryderon ynghylch anghenion cymorth y rhai a fyddai wedi bod yn gymwys i gael cymorth ychwanegol gan y Gronfa Byw'n Annibynnol, ond nad ydynt wedi gallu manteisio ar y cymorth hwn ar ôl i'r Gronfa gau i ymgeiswyr newydd ym mis Mehefin 2010. Mae'n bosibl bod hyn wedi creu galw ychwanegol am wasanaethau gofal cymdeithasol megis gofal preswyl am na fyddai pobl anabl yn gallu gwneud cais am gymorth o'r ffynhonnell hon i'w galluogi i fyw yn eu cymunedau mwyach. Fodd bynnag, mae dyfarniadau'r Gronfa Byw'n Annibynnol yn rhai dewisol a bwriedir iddynt fod yn ychwanegol at ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol. Felly, mae hyn yn codi'r cwestiwn pwy fydd yn diwallu'r anghenion 'dewisol' hynny unwaith y bydd y Gronfa Byw'n Annibynnol wedi cau. Cadarnhaodd Llywodraeth y DU, ym mis Rhagfyr 2012, y byddai'r Gronfa Byw'n Annibynnol yn cau ym mis Ebrill 2015 ac y câi arian i gefnogi defnyddwyr y Gronfa Byw'n Annibynnol yng Nghymru ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru. Mae'r Gronfa Byw'n Annibynnol ar hyn o bryd yn cefnogi tua 1,900 o bobl anabl iawn yng Nghymru, sy'n costio cyfanswm o £35 miliwn y flwyddyn. Bydd angen i Weinidogion Cymru benderfynu ar y ffordd orau o ddyrannu'r arian hwn mewn ffordd deg ar ôl iddo gael ei drosglwyddo. Mae'n anodd rhagweld union effaith y newidiadau hyn ar ddefnyddwyr presennol y Gronfa Byw'n Annibynnol, ac ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn fwy cyffredinol.

- Mae'n bosibl y bydd newidiadau i Fudd-dal Tai yn golygu y bydd angen i deuluoedd estynedig sefydlu cartrefi ar wahân gan gynyddu, o bosibl, y pwysau ar adrannau gwasanaethau cymdeithasol i ddarparu gofal i'r henoed (DWP, 2010b).
- Efallai y bydd unigolion yn llai abl i gyfrannu at gost eu gofal cymdeithasol o ganlyniad i newidiadau mewn incwm o fudd-daliadau (a chynilion).
- Efallai y bydd problemau yn gysylltiedig â thalu Credyd Cynhwysol i'r rhai sy'n hawlio fel pâr am y caiff ei wneud (yn y rhan fwyaf o achosion) fel taliad sengl i un aelod o'r cartref yn unig. Mae DWP yn nodi y caiff Credyd Cynhwysol ei dalu i gyfrif a nodwyd gan aelodau'r cartref. Mae rhai partion â diddordeb (e.e. Oxfam⁶⁵) wedi awgrymu ei bod yn debygol mai cyfrif y dyn fydd hwn. Mewn rhai achosion, efallai y bydd hyn yn cynyddu'r risg na fydd arian a neilltuwyd ar gyfer gofal plant ac anghenion eraill plentyn yn eu cyrraedd, o bosibl. Yn wir, mae gwaith ymchwil gan Goode et al. (1998) yn nodi bod merched yn fwy tebygol na dynion o wario eu hincwm ar anghenion y plant â'r teulu. At hynny, mae'n bosibl y bydd galw cynyddol ar raglenni a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n cefnogi gofal plant am y bydd cymhorthdal gofal plant o dan y Credyd Treth Gwaith yn cael ei ostwng 80 y cant i 70 y cant ym mis Ebrill 2011. Mae hyn yn ychwanegol at effaith y newidiadau i Gymhorthdal Incwm ar gyfer rhieni unigol. At hynny, mae Groucutt a Smith (2011) yn awgrymu y bydd y Credyd Cynhwysol yn arwain at leihad yn y cymorth gofal plant a roddir i lawer o deuluoedd sy'n gweithio. Fodd bynnag, i'r gwrthwyneb, mae DWP (2011e) yn ei Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y Credyd Cynhwysol yn nodi y caiff cymorth gofal plant ei ymgorffori yn y Credyd Cynhwysol ac y bydd yn fuddiol iawn i rieni unigol.

Cadarnhaol

- Os bydd diwygiadau lles Llywodraeth y DU, drwy gynnig cymhellion cryfach i weithio, yn effeithiol o ran annog mwy o bobl i mewn i waith a'u cadw yn eu swyddi, gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar y rhai yr effeithir arnynt ac ar anghenion unigolion o ran gwasanaethau a'r galw am wasanaethau yn gyffredinol.

⁶⁵ Mae Oxfam yn amcangyfrif y câi 80 y cant o'r hawliadau ar gyfer Credyd Cynhwysol a wnaed ar y cyd gan barau eu talu yn enw aelod gwrywaidd y pâr. Gweler Brown, CW, 'Should Mum Get the Credit? The impact of paying tax credits directly to mothers', cyflwyniad Prifysgol Glasgow.

Tai

Diwygiadau allweddol:

- Credyd Cynhwysol
- Budd-dal Tai – cyfyngu lefelau'r Lwfans Tai Lleol i'r gyfradd pedair ystafell wely a defnyddio uchafswm capiau wythnosol; dileu'r ddarpariaeth i hawlwy'r gadw uchafswm o £15 yr wythnos os yw eu rhent o dan gyfradd y Lwfans Tai Lleol; newid y sail ar gyfer pennu cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol o'r canolrif i'r 30ain canradd o renti'r farchnad leol; cynyddu didyniadau ar gyfer oedolion nad ydynt yn ddibynyddion; codi'r trothwy oedran ar gyfer y gyfradd llety a rennir o 25 i 35; uwchraddio cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol drwy'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn 2013-14 (ac 1 y cant yn y ddwy flynedd ddilynol); a chyfyngu ar y swm o Fudd-dal Tai a delir i hawlwy'r sy'n tanfeddiannu yn y sector tai cymdeithasol ar rent
- Cap ar Fudd-daliadau Cartrefi
- Cymorth ar gyfer Llog ar Forgais – perchen-feddianwyr
- trefniadau olynol i Fudd-dal y Dreth Gyngor.

Effeithiau posibl

Effaith ddosbarthiadol – Nid yw'n syndod bod tystiolaeth megis yr hyn a ddarparwyd gan Hastings et al. (2012), yn awgrymu bod defnydd anghymesur yn cael ei wneud o wasanaethau sy'n gysylltiedig â thai cymdeithasol gan grwpiau mwy difreintiedig. Felly, ystyrir bod y gwasanaethau hyn yn rhai cynyddol (h.y. o blaid pobl dlawd) ac y gallai fod galw cynyddol amdanynt o ganlyniad i'r diwygiadau lles am fod disgwyl iddynt gynyddu tlodi yng Nghymru.

Negyddol

- Efallai y gwelir cynnydd o ran ôl-ddyledion rhenti tai, nifer yr unigolion sy'n cael eu troi allan o'u cartrefi a digartrefedd oherwydd y toriadau i fudd-daliadau (DWP, 2010b), taliadau uniongyrchol i hawlwy'r (yn hytrach nag i landlordiaid), taliadau bob mis yn hytrach na rhai bob pythefnos, a chosbau, a all greu heriau o ran cyllidebu. Yn wir, canfu adroddiad gan Ipsos Mori a Chanolfan Caergrawnt dros Ymchwil i Dai a Chynllunio (2013) fod 84 y cant (232) o'r cymdeithasau tai a arolygwyd yn Lloegr yn ystod hydref 2012 o'r farn y bydd ôl-ddyledion rhent yn cynyddu o ganlyniad uniongyrchol i'r diwygiadau lles. Y cynnydd cyfartalog a ddisgwylir yw 51 y cant. At hynny, mae'n bosibl y bydd newidiadau i'r Cymorth ar gyfer Llog ar Forgais o dan y Credyd Cynhwysol yn lleihau'r cymhorthdal a gaiff hawlwy'r i helpu i dalu costau tai (e.e. rhoi terfyn amser ar y cymorth a roddir i hawlwy'r

yn y grŵp amodoldeb llawn a rheol dim enillion sy'n golygu na fydd perchen-feddiannwr sy'n hawlio'r Credyd Cynhwysol ac sy'n cael help i dalu costau tai yn cael help i dalu eu costau tai os yw'n gwneud unrhyw waith â thâl). O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd y diwygiadau lles yn golygu bod tai yn llai fforddiadwy ac yn cyfyngu ar ddewisiadau unigolion.

- Mae gwaith ymchwil cynnar i DWP ar effaith y diwygiadau Budd-dal Tai yn nodi, yn achos 66 y cant o denantiaid a arolygwyd⁶⁶, fod diffyg rhwng eu Lwfans Tai Lleol a'u rhent, a oedd yn golygu bod angen iddynt ddefnyddio budd-daliadau eraill a benthyciadau gan deulu a ffrindiau i wneud iawn am y diffyg. At hynny, roedd mwy na 40 y cant o'r hawlwr a arolygwyd yn ei chael hi'n anodd fforddio'r rhent ar eu llety cyfredol, er mai dim ond 10 y cant a oedd ag ôl-ddyledion, a nododd 2 y cant o'r rhain mai torri'r Budd-dal Tai oedd y rheswm unigol pwysicaf pam roeddent ar ei hôl hi gyda'u rhent (Beatty et al., 2012). Fodd bynnag, nid yw effeithiau llawn y diwygiadau Budd-dal Tai wedi'u teimlo eto oherwydd diogelwch trosiannol a gallu ALLau i ddwyn tanwariant o ran arian ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn ymlaen o 2011–12 i 2012–13.
- Gall yr effeithiau uchod olygu y bydd landlordiaid yn mynd i gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chasglu rhenti a rheoli tenantiaethau. Mae'n bosibl y bydd hyn yn arwain at leihad yn nifer yr eiddo a osodir i denantiaid sy'n cael Lwfans Tai Lleol yn y sector rhentu preifat a all, yn ei dro, gynyddu'r galw am eiddo yn y sector tai cymdeithasol ar rent. Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil cynnar gan Beatty et al. (2012) yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r landlordiaid a arolygwyd⁶⁷ (78 y cant) yng Nghymru yn bwriadu parhau i osod eiddo i denantiaid sy'n hawlio Budd-dal Tai dros y flwyddyn nesaf. Ymddengys bod ffrwd renti ddiogel yn bwysicach na ffynhonnell incwm tenantiaid (nododd 53 y cant o landlordiaid yng Nghymru fod hyn yn rheswm).

⁶⁶ Roedd yr arolwg o hawlwr budd-daliadau a oedd yn cael Budd-dal Tai Lleol yn cynnwys 1,910 o gyfweiliadau wyneb yn wyneb â hawlwr mewn 19 o ardaloedd astudiaeth achos ym Mhrydain Fawr (gan gynnwys tair ardal astudiaeth achos yng Nghymru – sef Caerdydd, Sir Ddinbych a Rhondda Cynon Taf – gyda 301 o gyfweiliadau). Cynhaliwyd yr arolwg yn ystod hydref 2011, ychydig o fisoedd ar ôl cyflwyno mesurau'r Budd-dal Tai Lleol ar gyfer hawlwr newydd (o 1 Ebrill 2011), ond cyn iddynt effeithio ar amgylchiadau rhent a thai hawlwr presennol. Felly, mae canfyddiadau'r arolwg ond yn ymwneud â thueddiadau a oedd yn dod i'r amlwg ac arwyddion cynnar o'u heffaith.

⁶⁷ Ymatebodd cyfanswm o 1,867 o unigolion i'r arolwg post o landlordiaid ym mhob un o'r 19 o ardaloedd astudiaeth achos ym Mhrydain Fawr (gan gynnwys 288 o ymatebion gan landlordiaid yn y tair ardal astudiaeth achos yng Nghymru), a gynhaliwyd rhwng mis Medi a mis Hydref 2011.

Atgyfnerthir pwysigrwydd taliadau rhent diogel hefyd gan y canfyddiad i 40 y cant o landlordiaid nodi bod taliadau rhent uniongyrchol i landlordiaid yn ffactor yn eu penderfyniad i barhau i osod eiddo i denantiaid Lwfans Tai Lleol. Mae'r ffaith nad oedd llawer o landlordiaid am dreulio gormod o amser yn dod o hyd i denantiaid amgen hefyd wedi dylanwadu ar y penderfyniad hwn, fe ymddengys. Yn wir, nododd 42 y cant o landlordiaid yng Nghymru mai'r ffaith bod tenantiaid Budd-dal Tai/Lwfans Tai Lleol yn ffurfio rhan fawr o'r farchnad rentu yn un o'r rhesymau pam roeddent yn bwriadu parhau i osod eiddo i'r fath denantiaid a chyfeiriodd 20 y cant at y ffaith bod y tenantiaid hyn yn ffurfio rhan sylweddol o'u gosodiadau. Yn achos y landlordiaid hynny sy'n bwriadu rhoi'r gorau i osod eiddo i denantiaid sy'n hawlio Budd-dal Tai, y ddau brif reswm a nodwyd oedd pryderon ynghylch ôl-ddyledion rhent a'r newidiadau i reolau Budd-dal Tai/Lwfans Tai Lleol.

- Mae'n bosibl y caiff tai mawr eu rhannu'n fflatiau un ystafell neu'n dai amlfeddiannaeth am na fydd landlordiaid yn cael budd-dal ychwanegol am gartrefi sy'n fwy na phedair ystafell wely oherwydd cap a roddwyd ar waith ym mis Ebrill 2011. Felly, mae'n bosibl y bydd prinder eiddo ar gyfer teuluoedd pum ystafell wely.
- Ym mis Ionawr 2012, codwyd y trothwy oedran ar gyfer cyfradd llety a rennir Budd-dal Tai o 25 i 35. Golyga hyn y telir cyfradd ystafell a rennir y Lwfans Tai Lleol i bobl sengl o dan 35 oed waeth pa fath o eiddo a feddiannir ganddynt. Efallai y bydd rhai hawl wyr yn fodlon ac yn gallu gwneud iawn am y gwahaniaeth rhwng eu rhent a'r budd-dal y mae ganddynt hawl iddo er mwyn aros yn eu llety hunangynhwysol. Fodd bynnag, gallai hyn olygu eu bod yn mynd i ddyled. Bydd angen i'r rhai na allant wneud iawn am y gwahaniaeth chwilio am lety a rennir. Fodd bynnag, gall hyn arwain at nifer o broblemau. Er enghraifft, am mai prin oedd y llety a rennir a oedd ar gael i hawl wyr cyn y newid hwn mewn polisi, bydd y galw cynyddol a grëir gan yr unigolion yr effeithir arnynt gan y penderfyniad i ymestyn y gyfradd llety a rennir (3,080 o unigolion sy'n cael Lwfans Tai Lleol yng Nghymru) yn gwaethygu'r sefyllfa hon. At hynny, canfu gwaith ymchwil a wnaed gan y Ganolfan Polisi Tai ym Mhrifysgol Caerefrog (2011) y gall symud i lety a rennir â phobl ddieithr, nas cynlluniwyd neu a wnaed ar frys o ganlyniad i argyfwng, achosi problemau o ran diogelwch, diogelwch personol, trosedd a chadw mewn cysylltiad â phlant. Nodwyd mai symud nas cynlluniwyd i lety a rennir â

phobl ddieithr oedd yn achosi'r problemau mwyaf o ran cynnal tenantiaethau. Mae'r un gwaith ymchwil hefyd yn codi pryderon ynghylch pa mor addas yw llety a rennir i grwpiau sy'n agored i niwed (e.e. hawlwyd sy'n gaeth i sylweddau neu hawlwyd â phroblemau iechyd meddwl). Yn ogystal ag effeithiau ar les a ddigartrefedd hawlwyd, nodwyd goblygiadau i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau cymorth ac ystyriwyd bod y fath wasanaethau yn chwarae rôl bwysig o ran lliniaru'r anawsterau y gall hawlwyd eu hwynebu wrth geisio dod o hyd i denantiaethau a rennir a'u cynnal. Fodd bynnag, nododd y gwaith ymchwil bryderon difrifol na fyddai nifer o hawlwyd ag amrywiaeth o anghenion cymorth hyd at 35 oed yn gallu manteisio ar y fath gymorth am nad yw'r fath wasanaethau yn gallu ateb y galw.

- Efallai y bydd y diwygiadau lles (yn enwedig y Terfyn Budd-dal Cartrefi, y newidiadau i Fudd-dal Tai a'r trefniadau olynol i Fudd-dal y Dreth Gyngor) yn arwain at deuluoedd yn symud i ardaloedd rhatach (gan fynd i'r costau sy'n gysylltiedig â symud); cynnydd yn y defnydd o lety gwely a brecwast a llety dros dro os na all y cyflenwad ateb y galw (gan wyrddroi tueddiadau dros y blynyddoedd diwethaf yng Nghymru); a/neu lai o gyfleoedd i gael tai mwy o faint a gormod o bobl yn byw mewn eiddo sy'n costio llai, ond sy'n llai o faint ac, o bosibl, o ansawdd gwaeth (yn enwedig yn achos cartrefi teuluoedd mawr) sy'n awgrymu ei bod yn fwy tebygol yr effeithir ar gartrefi o leiafrifoedd ethnig penodol sy'n tueddu i fod â chyfran uwch o deuluoedd mawr⁶⁸). Mewn rhai achosion, efallai y bydd y wasgfa ar gyllidebau cartrefi yn cynyddu'r risg y bydd pobl ifanc yn gorfod gadael eu cartref am na all rhieni eu cynnal. Mae'n bosibl y bydd yr holl effeithiau hyn yn arwain at ganlyniadau negyddol i iechyd, lles ac addysg.
- Gallai hawlwyd budd-daliadau symud o ardaloedd lle mae costau byw yn uchel i ardaloedd mwy fforddiadwy sy'n aml yn ddifreintiedig eisoes (lle y gall fod cystadleuaeth gref am adnoddau cyhoeddus eisoes), a all gael goblygiadau o ran adfywio. Mewn rhai achosion, efallai y bydd yn rhaid i hawlwyd symud allan o ardal lle y gallant fforddio cymudo i'w swyddi presennol ac i ardaloedd lle mae llai o gyfleoedd yn y farchnad lafur. Bydd y symudiadau hyn hefyd yn effeithio ar ysgolion a gwasanaethau plant ac oedolion (fel y nodir isod). Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil cynnar gan Beatty et al. (2012) ar gyfer DWP

⁶⁸ Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn nodi bod cartrefi Asiaidd yn fwy na chartrefi unrhyw grŵp ethnig arall.

yn nodi bod canran fach iawn (3 y cant) o'r rhai a arolygwyd ym Mhrydain Fawr (ac eithrio Llundain) wedi symud cartref er mwyn gwneud iawn am y diffyg rhwng eu rhent a'r Lwfans Tai Lleol. Mae'r ymchwili hon hefyd yn awgrymu bod hawlwyd yn amharod i ystyried symud allan o'u hardal leol. Ymhlith y rhesymau mwyaf poblogaidd a roddwyd mae'r canlynol: eu bod am aros yn agos at eu teulu; bod yn well ganddynt eu hardal leol/eu bod yn hoffi byw yno; a'u bod am aros yn agos at ysgolion/ysgolion da. Bydd gwaith ymchwil dilynol i DWP yn olrhain yr effeithiau hyn dros y tymor hwy ac wrth i ddiwygiadau pellach ddod i rym. At hynny, am fod cyfartaledd y rhenti yng Nghymru yn is nag yn y DU ar y cyfan, mae'n debyg y bydd yr effaith liniaru hon yn llai amlwg yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gwelir mewnfudo gan hawlwyd sy'n byw mewn ardaloedd lle mae rhenti yn uchel.

- Caiff Budd-dal Tai 46 y cant o hawlwyd Budd-dal Tai o oedran gweithio yn y sector tai cymdeithasol tai ar rent yng Nghymru ei leihau drwy ddiwynnu cyfran o'u rhent o fis Ebrill 2013 (amcangyfrifir y bydd yr incwm wythnosol cyfartalog a gollir yn £12) am y tybir eu bod yn tanfeddiannu eu heiddo. Mae'n bosibl y bydd cartrefi yr effeithir arnynt yn penderfynu parhau i fwy yn eu llety a gwneud iawn am unrhyw ddiffyg o incwm arall, cynilion, symud i mewn i waith, cynyddu eu horiau neu osod ystafell sbâr. Fel arall, efallai y byddant yn symud i eiddo llai o faint yn dibynnu ar argaeledd. Edrychodd gwaith ymchwil gan yr Housing Futures Network ar ymatebion ymddygiadol posibl sampl o denantiaid a oedd yn tanfeddiannu. Mae'r ymchwili hon yn awgrymu y byddai tua 35 y cant o gartrefi yn eithaf tebygol neu'n debygol iawn o fynd i ôl-ddyledion pe bai eu Budd-dal Tai yn cael ei leihau (gan effeithio ar lif arian parod landlordiaid cymdeithasol); byddai bron 30 y cant yn eithaf tebygol neu'n debygol iawn o symud i mewn i waith neu gynyddu eu horiau (pe bai hynny'n bosibl); byddai rhwng 10 a 15 y cant yn cynnig eu hystafell sbâr i lojar/aelod o'r teulu; a byddai tua 25 y cant yn eithaf tebygol neu'n debygol iawn o symud i eiddo llai o faint. Fodd bynnag, efallai na fydd digon o eiddo addas ar gael i alluogi tenantiaid i symud i lety o faint priodol hyd yn oed pe bai tenantiaid yn fodlon symud. Felly, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i unigolion edrych ymhellach i ffwrdd neu symud i landlord yn y sector rhentu preifat na fydd yn barod, o bosibl, mewn rhai achosion, i osod eiddo i unigolion sy'n cael budd-daliadau.

- Rhagwelir y bydd cyflwyno'r meini prawf maint yn y sector rhentu preifat yn cael effaith sylweddol ar fwy na 60 y cant o'r 232 o gymdeithasau tai yn Lloegr a arolygwyd gan Ipsos Mori (2013). Mae'n bosibl y bydd y meini prawf maint hefyd yn arwain at gostau ychwanegol i redeg cynlluniau i alluogi tenantiaid yr effeithir arnynt i symud o fewn y sector. At hynny, efallai y bydd mwy o alw am gyngor gan landlordiaid cymdeithasol mewn perthynas â'r newidiadau i fudd-daliadau a phryderon ynghylch dyledion, ynghyd â'r posibilrwydd y bydd mwy o ôl-ddyledion yn ei gwneud yn anos i landlordiaid gyflawni eu cyfamodau benthycu a osodwyd gan fenthycwyr (sy'n cyfyngu ar y gymhareb dyledion i asedau y gall cymdeithas ei chyrraedd). At hynny, disgwylir i gymdeithasau tai wario tua £53,000 ar gyfartaledd hyd at Ebrill 2013 ar adnoddau ychwanegol yn barod ar gyfer y diwygiadau lles, gyda'r rhan fwyaf o'r arian ychwanegol hwn (66 y cant) yn cael ei gwario ar gostau staff, wedi'u dilyn gan gostau casglu rhenti a chostau cysylltiedig eraill (26 y cant) a chostau TG a chostau cyfreithiol (8 y cant) (Ipsos Mori a Cambridge Centre for Housing and Planning Research, 2013).
- Mae'n bosibl y bydd talu budd-daliadau yn uniongyrchol i hawlwr yn y sector tai cymdeithasol ar rent yn cael effaith negyddol o ran casglu rhenti (Cymdeithas Landlordiaid Preswyl, 2012). Yn wir, canfu arolwg gan Ipsos Mori (2013), o blith yr holl ddiwygiadau, y disgwylir mai'r penderfyniad i gyflwyno taliadau uniongyrchol i denantiaid fydd yn cael yr effaith fwyaf, gyda mwy nag 80 y cant o'r cymdeithasau tai a arolygwyd yn nodi y bydd yn cael effaith fawr neu eithaf mawr ar eu sefydliadau. Fodd bynnag, nod Llywodraeth y DU yw cynllunio'r Credyd Cynhwysol i gynnwys mesurau diogelwch i landlordiaid (e.e. system ar gyfer 'newid yn ôl' i dalu Budd-Dal Tai i'r landlord, neu eithrio unigolion sy'n arbennig o agored i fynd i ôl-ddyledion rhag taliadau uniongyrchol – fodd bynnag, ymddengys y rhoddir terfyn amser ar y trefniadau eithriadol hyn). Mae DWP yn cynnal nifer o brosiectau peilot (gan gynnwys un yn Nhorfaen) er mwyn profi sut y gall hawlwr reoli eu Budd-dal Tai drwy daliadau misol uniongyrchol. Cynhelir y prosiectau rhwng Mehefin 2012 a Mehefin 2013, a chânt eu gwerthuso gan y Ganolfan Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol Ranbarthol ym Mhrifysgol Sheffield Hallam, Ipsos Mori ac Athrofa Polisi Cymdeithasol

Rhydychen, Prifysgol Rhydychen. Cyhoeddwyd yr allbwn cyntaf o'r gwerthusiad hwn ym mis Rhagfyr 2012. Mae'r prif ganfyddiadau ar gyfer Torfaen⁶⁹ fel a ganlyn.

- Newid i daliadau uniongyrchol: nododd 61 y cant o'r ymatebwyr nad oeddent yn gwybod 'rhyw lawer' neu 'ddim o gwbl' am y ffordd y mae Budd-dal Tai yn gweithio tra mai'r ffigur cyfatebol ar gyfer y Prosiect Arddangos Taliadau Uniongyrchol (DPDP) oedd 57 y cant. Fodd bynnag, mae strategaethau cyfathrebu yn parhau ar waith. Er bod mwy na hanner yr ymatebwyr (55 y cant) o'r farn y byddent yn ymdopi'n 'dda' â'r newid i daliadau uniongyrchol, roedd 31 y cant o'r farn na fyddent yn ymdopi'n dda. Dywedodd 39 y cant y byddai'n 'anodd' rheoli eu harian. At hynny, nododd 28 y cant o'r holl ymatebwyr y byddai angen cymorth arnynt gyda thaliadau uniongyrchol. O'r rhain, dywedodd 36 y cant y byddai angen 'llawer iawn' o gymorth arnynt ac roedd 39 y cant o'r farn y byddai angen cymorth arnynt yn yr hirdymor. Y dull cyfathrebu dewisol a nodwyd amlaf o bell ffordd ar gyfer gwasanaethau cymorth yw wyneb yn wyneb (74 y cant).
- Fforddiadwyedd rhenti ac ôl-ddyledion rhent: roedd 76 y cant o'r ymatebwyr yn cael Budd-dal Tai llawn (roedd eu Budd-dal Tai yn talu eu rhent i gyd) tra bod 24 y cant yn cael Budd-dal Tai rhannol, ac felly yn cyfrannu at eu rhent. Nododd 42 y cant o'r ymatebwyr a oedd yn cael Budd-dal Tai rhannol ei fod yn 'hawdd' fforddio eu rhent a nododd 36 y cant ei bod yn 'anodd' ei fforddio (yr olaf yw'r gyfran uchaf o bum ardal yr astudiaeth achos). Roedd 19 y cant o'r holl ymatebwyr ar ei hôl hi gyda'u rhent, tua dwywaith yn fwy na'r ganran a nodwyd mewn arolwg o dderbynwyr Lwfans Tai Lleol yn y sector rhentu preifat (gweler uchod). Y rheswm a nodwyd amlaf (29 y cant – pum ardal yr astudiaeth achos gyda'i gilydd) am ôl-ddyledion rhent oedd gostyngiad mewn incwm (yn sgil colli swydd, salwch neu anabledd, perthynas wedi chwalu neu resymau eraill), wedi'i ddilyn gan broblemau yn ymwneud â gweinyddu Budd-dal Tai (22 y cant – pum ardal yr astudiaeth achos gyda'i gilydd).

⁶⁹ Ac eithrio'r rhai a nodwyd fel arall ar gyfer y pum maes astudiaeth yn gyffredinol. Roedd y gwaith ymchwil yn cynnwys arolwg sylfaenol o 1,639 o denantiaid mewn pum ardal brosiect yng Nghymru a Lloegr; roedd 324 o'r tenantiaid hyn yn ardal brosiect Torfaen. Cynhaliwyd yr arolwg ym mis Mai a mis Mehefin 2012, cyn cyflwyno taliadau uniongyrchol. Roedd y gwaith ymchwil hefyd yn cynnwys dadansoddi cyfrifon rhent a chostau rheoli landlordiaid; gwaith ansoddol hydredol gyda landlordiaid a rhanddeiliaid 'lleol'; a chyfweiliadau ansoddol untro â thenantiaid a rhanddeiliaid 'allanol'.

- Rheoli arian: roedd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (79 y cant) o leiaf un cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu a thalai'r rhan fwyaf (77 y cant) filiau drwy ddebydau uniongyrchol neu archebion sefydlog. Er bod cyfrifon banc a dulliau talu awtomataidd yn cael eu defnyddio ar gyfer rhai biliau, arian parod oedd y ffordd fwyaf cyffredin o dalu am fwyd ac eitemau cyffredin eraill yn ogystal ag eitemau eraill o wariant. Arian parod hefyd oedd y ffordd fwyaf cyffredin yr oedd tenantiaid ar Fudd-dal Tai rhannol yn ei defnyddio i dalu eu rhent (pum ardal yr astudiaeth achos gyda'i gilydd). Roedd gan tua saith o bob deg derfyn gwario rheolaidd er mwyn helpu i reoli eu harian. Y cyfnod mwyaf cyffredin o bell ffordd ar gyfer terfynau gwario rheolaidd oedd bob wythnos, wedi'i dilyn gan bob pythefnos. Prin iawn oedd yr ymatebwyr â therfyn gwario bob pedair wythnos neu bob mis (pum ardal yr astudiaeth achos gyda'i gilydd). Mae hyn yn awgrymu, yn sgil newid i gyfnodau llai mynych ar gyfer talu budd-daliadau, y bydd angen ailystyried dros ba gyfnod o amser y bydd tenantiaid yn cyllidebu eu harian. Mae'n amlwg bod cadw gwariant o fewn y terfynau gwario hyn yn bwysig: nododd y mwyafrif o denantiaid eu bod yn llwyddo i wneud hyn ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd mwy na hanner yr holl denantiaid wedi rhedeg allan o arian 'yn aml' yn ystod y 12 mis blaenorol, ac roedd 27 y cant o'r farn nad oeddent yn ymdopi'n dda yn ariannol.
- Cynilion a dyled: canfu'r gwaith ymchwil fod yr ymatebwyr yn fwy tebygol o fod â dyledion wedi'u diffinio fel bod ar ei hôl hi gyda thaliadau am filiau cartref neu ofal plant, heb gynnwys ôl-ddyledion rhent (41 y cant), na chynilion (5 y cant). Roedd cyfran y tenantiaid ag ôl-ddyledion rhent a mathau eraill o ddyled (32 y cant – pum ardal yr astudiaeth achos gyda'i gilydd) fwy na dwywaith y gyfran yr oedd ganddynt ôl-ddyledion rhent yn unig (15 y cant – pum ardal yr astudiaeth achos gyda'i gilydd). Yn achos 35 y cant o'r ymatebwyr roedd symiau o arian yn cael eu didynnu'n awtomataidd o'u henillion neu eu budd-daliadau er mwyn talu ôl-ddyledion neu ddyledion eraill. Roedd 41 y cant o'r ymatebwyr wedi ceisio cyngor ar reoli arian, cyfrifon banc neu broblemau dyled ar ryw adeg a nodwyd mai'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth oedd y brif ffynhonnell o gyngor.

Cadarnhaol

- Bydd cynnydd yn y gyllideb i DWP gefnogi'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf. Fodd bynnag, fel y cyhoeddwyd yn Natganiad Hydref 2012, ni chaiff y gyllideb ei chynnyddu cymaint ag y bwriadwyd yn wreiddiol am y bydd rhywfaint o'r arian hwn bellach yn cael ei ddefnyddio i dalu am ddiwygiadau i'r eithriadau sy'n ymwneud â'r terfyn budd-daliadau cartrefi. At hynny, dim ond ateb byrdymor oedd yr arian hwn. O ystyried y newidiadau diweddar hyn, caiff yr arian ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn ei gynyddu ledled y DU o £20 miliwn yn 2010–11 i:
 - 2011–12: £30 miliwn
 - 2012–13: £60 miliwn
 - 2013–14: £155 miliwn
 - 2014–15: £125 miliwn.
- Byddai hawlwyrr presennol yr effeithir arnynt gan y newidiadau i'r system Budd-dal Tai ym mis Ebrill 2011 wedi cael diogelwch trosiannol yn seiliedig ar eu cyfradd Lwfans Tai Lleol am hyd at naw mis. Byddai hyn wedi rhoi amser i hawlwyrr gynllunio ar gyfer gostyngiad yn y budd-dal y mae ganddynt hawl i'w gael. Fodd bynnag, heb gyngor a chymorth efallai na fyddai rhai cartrefi wedi cynllunio at y dyfodol neu efallai na fyddent wedi gallu dod o hyd i lety addas, gan gynyddu'r risg y byddent yn mynd yn ddigartref.
- Efallai y bydd y newidiadau i'r system Budd-dal Tai yn rhoi mwy o bwysau ar landlordiaid i ostwng lefelau rhenti. Er y byddai hyn yn cael effaith negyddol ar landlordiaid am y byddent yn cael llai o incwm o'u heiddo, byddai hyn yn fuddiol i hawlwyrr budd-daliadau. Yn wir, mae Beatty et al. (2012) yn nodi bod chwarter yr hawlwyrr a arolygwyd ganddynt i asesu effeithiau cynnar y diwygiadau i'r system Budd-dal Tai wedi ceisio trafod lefelau rhenti gyda'u landlordiaid a bod dau o bob pum hawlwydd wedi llwyddo i sicrhau rhent is.
- Mae rhywfaint o dystiolaeth gynnar bod diffygion mewn rhenti hefyd wedi effeithio ar ymddygiad gwaith rhai hawlwyrr. Mae gwaith arolygu i fonitro effaith y newidiadau i system Lwfans Tai Lleol Budd-dal Tai yn nodi i dros chwarter yr hawlwyrr â diffyg ddweud eu bod wedi chwilio am swydd i wneud iawn am y gwahaniaeth ac roedd tua un o bob deg wedi chwilio am swydd â chyflog gwell er mwyn helpu i wneud iawn am y diffyg (Beatty et al., 2012).

- Bydd newid i gyfraddau Lwfans Tai Lleol a bennir yn flynyddol (yn hytrach na misol) yn rhoi mwy o sicrwydd i hawl wyr ynghylch y budd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w cael a bydd hefyd yn rhoi mwy o eglurder er mwyn i landlordiaid allu cynllunio yn unol â hynny (DWP, 2012a).
- Bydd diwygiadau i Fudd-dal Tai, megis y rheol tanfeddiannu, a all arwain at hawl wyr yn symud o fewn y sector tai cymdeithasol ar rent neu allan ohono i'r sector rhentu preifat yn rhyddhau llety yn y sector cyntaf y gellir ei ailosod i deuluoedd eraill y mae angen y llety hwn arnynt. Gall y teuluoedd hyn fod yn byw mewn llety anaddas (e.e. llety gorlawn neu lety dros dro) a byddent yn cael budd o'r llety hwn sy'n fwy o faint. Efallai y bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i sicrhau bod maint y llety yn gweddu'n well i anghenion tenantiaid yn y sector tai cymdeithasol ar rent, gan wneud defnydd mwy effeithlon o dai cymdeithasol.
- Er mwyn lliniaru effaith newidiadau'r Budd-dal Tai, mae Llywodraeth Cymru, dros ddwy flynedd, yn rhoi £1.4 miliwn i ALLau ar gyfer rhaglen o waith cymeradwy gyda landlordiaid a thenantiaid gyda'r bwriad o sicrhau y gellir cynnal tenantiaethau. Prif ddiben y grantiau hyn yw galluogi ALLau i atal digartrefedd o ganlyniad i'r newidiadau i'r gyfundrefn Budd-dal Tai. Yn benodol, byddant yn cynnwys nodi unigolion sy'n agored i niwed a gweithio gyda hwy; gweithio gyda landlordiaid preifat; gweithio ar draws ffiniau sefydliadol; gweithio gyda phartneriaid allanol; ac addasu arferion y tîm Budd-dal Tai. Er mwyn deall effeithiau'r arian grant hwn a sicrhau bod ALLau yn dysgu cymaint â phosibl am effeithiolrwydd gwahanol ddulliau o weithredu, mae gwaith monitro a gwerthuso yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a disgwylir i'r canfyddiadau gael eu cyhoeddi yn ystod Gwanwyn 2013. Er mwyn lleihau'r risg y bydd cartrefi yn mynd yn ddigartref o ganlyniad i newidiadau'r Budd-dal Tai, mae DWP hefyd yn cymryd camau i godi ymwybyddiaeth, gan weithio gyda'r sector digartrefedd a chynghori, a chefnogi ALLau (DWP, 2010b).

Addysg a hyfforddiant

Diwygiadau allweddol:

- Credyd Cynhwysol (yn enwedig gofynion amodoldeb)
- Rhaglen Waith
- Budd-dal Tai.

Effeithiau posibl

Effaith ddosbarthiadol – Mae ymchwil i'r rôl y mae incwm rhieni yn ei chwarae o ran addysg plant yn nodi bod cysylltiad cryf rhwng y ddau (Conley, 2001; Loke a Sacco, 2010; Zhan a Sherraden, 2003; Orr, 2003; Williams Shanks, 2007; Yeung a Conley, 2008; Zhan, 2006; Lovenheim, 2011; Karagiannaki, 2012). Fodd bynnag, dim ond un o nifer o ffactorau sy'n dylanwadu ar ganlyniadau addysgol plant (e.e. gallu/addysg rhieni) yw incwm rhieni. At hynny, mae rhai o'r ymatebion ymddygiadol gan rieni a ysgogir gan newidiadau mewn incwm yn aneglur. Felly, nid yw'n hawdd nodi union effaith newid mewn incwm ar gyrhaeddiad addysgol. Fodd bynnag, am fod gan blant o gefndiroedd tlotach gyraeddiadau addysgol gwaeth, ar gyfartaledd, na'u cyfoedion sy'n fwy cefnog na hwy, gallai lleihad yn incwm y cartrefi hyn sydd eisoes yn gymharol dlawd waethygu'r sefyllfa hon.

Negyddol

- Efallai y bydd teuluoedd na allant fforddio eu rhent o ganlyniad i'r diwygiadau Budd-dal Tai yn gorfod symud cartref. Gall hyn arwain at grynodiad uwch o deuluoedd mwy o faint heb waith, ac ar incwm isel mewn ardaloedd llai drud sydd eisoes yn ddifreintiedig yng Nghymru lle mae llai o gyfleoedd i anfon plant i ysgolion sy'n perfformio'n dda a sicrhau eu bod yn cael y canlyniadau addysgol cadarnhaol sy'n gysylltiedig â hwy (Cassen a Kingdon, 2007). Gall y symudiadau poblogaeth hyn gynyddu'r pwysau ar leoedd mewn ysgolion mewn rhai ardaloedd, ac ar wahanol adegau o'r flwyddyn ysgol. Gall y diffyg parhad o ran darpariaeth addysgol a sefydlogrwydd hefyd gael effeithiau negyddol, yn enwedig i'r rhai ag anghenion addysgol arbennig sy'n dibynnu ar barhad darpariaeth a hefyd y rhai a fydd yn sefyll arholiadau yn y dyfodol agos. Yn wir, mae gwaith ymchwil a wnaed gan Hutchings et al. (2012) yn awgrymu bod symud tŷ yn cael effaith negyddol ar gyrhaeddiad, yn enwedig i'r rhai sydd wedi symud tŷ sawl gwaith. Mae gwaith dadansoddi a wnaed gan yr Adran Addysg ar set ddata'r Astudiaeth Hydredol o Bobl Ifanc yn Lloegr hefyd yn awgrymu i ddysgwyr ysgol uwchradd a newidiodd ysgol rhwng Blwyddyn 7 a Blwyddyn 9 weld gostyngiad o 16 o bwyntiau yn y sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer TGAU, tra gwelwyd gostyngiad mwy yn sgôr dysgwyr ym Mlwyddyn 10 ac 11, sef 61 o bwyntiau. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod y ffigurau hyn wedi'u gorddatgan am nad oedd y dadansoddiad yn gallu darparu ar gyfer ffactorau megis teuluoedd yn chwalu (DWP, 2010b). Mae tystiolaeth

hefyd sy'n awgrymu bod amgylchiadau'r teulu a ph'un a oedd teuluoedd wedi symud cartref yn aml, am fod eu cytundeb tenantiaeth wedi dod i ben, yn ffactor hanfodol sy'n cyfrannu at y ffaith nad yw person ifanc mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) (DWP, 2010b). Gall symud tŷ hefyd arwain at golli ystafell sbâr, a oedd yn cael ei defnyddio fel man astudio, ac, mewn rhai achosion, gall effeithio ar allu plant nad ydynt yn ddibynyddion i aros gartref a dilyn rhaglenni addysg bellach. Ar y llaw arall, mae'n bosibl y bydd y rhai sy'n dewis aros yn eu hardaloedd lleol yn eu cael eu hunain yn byw mewn llety mwyfwy gorlawn neu lety sy'n is na'r safon, a allai arwain at ganlyniadau iechyd a chanlyniadau addysgol gwaeth i blant.

- Er mwyn bodloni'r meini prawf cyfredol ar gyfer bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim mae'n rhaid bod teuluoedd yn cael rhai budd-daliadau allan o waith a/neu gredydau treth. Bydd cynnig Llywodraeth y DU i gyflwyno'r Credyd Cynhwysol o 2013 yn golygu na fydd y meini prawf cyfredol ar gyfer nodi'r hawl i gael prydau ysgol am ddim yn bodoli mwyach. Er mwyn parhau i ddarparu'r budd-dal hwn, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu meini prawf cymhwysedd newydd er mwyn ystyried system y Credyd Cynhwysol a fydd yn cael ei chyflwyno. Er mai nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau y bydd yr un nifer o blant, fwy neu lai, yn cael prydau ysgol am ddim ag y byddai wedi'u cael pe na bai'r Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno, mae'n bosibl y bydd rhai ar eu colled (a rhai ar eu hennill). Yn ogystal â'r newidiadau i feini prawf budd-daliadau 'pasbort', bydd y diwygiadau lles yn arwain at ddileu budd-daliadau ar gyfer rhai hawl wyr. Yn ogystal â'r effaith uniongyrchol hon, efallai y bydd effaith anuniongyrchol ar incwm am fod bod yn gymwys i gael un budd-dal (e.e. Lwfans Byw i'r Anabl/Taliad Annibyniaeth Bersonol) yn aml yn gweithredu fel 'pasbort' i fudd-daliadau a lwfansau eraill megis prydau ysgol am ddim.
- Mae'n bosibl y bydd effaith ar ganlyniadau addysgol unrhyw hawl wyr sy'n colli'r hawl i gael prydau ysgol am ddim. Rhwng hydref 2009 a haf 2011, cynhaliwyd cynllun peilot dwy flynedd mewn tri ALI er mwyn asesu effaith prydau ysgol am ddim ar amrywiaeth o ganlyniadau dysgwyr. Fel rhan o'r cynllun peilot ymestynnwyd darpariaeth prydau ysgol am ddim gan ddefnyddio dau ddull gwahanol o weithredu. Yn yr ALLau a oedd yn treialu cynnig 'cyffredinol' (Newham a Durham), cynigiwyd prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd. Yn y drydedd ardal (Wolverhampton), ymestynnwyd yr hawl i brydau ysgol am ddim

i gynnwys disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yr oedd eu teuluoedd yn cael Credyd Treth Gwaith nad oedd eu hincwm yn fwy na £16,040 (wedi'i uwchraddio i £16,190 yn 2010–11)⁷⁰. Roedd y cynllun peilot hefyd yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau ategol i annog plant i fwyta prydau ysgol a hysbysu rhieni o'r cynllun peilot. Canfu Brown (2012b) fod y cynllun peilot cyffredinol yn llwyddiannus iawn o ran cynyddu nifer y plant sy'n hawlio prydau ysgol am ddim ac iddo gael effaith gadarnhaol sylweddol ar gyrhaeddiad ar gyfer dysgwyr ysgol gynradd yng Nghyfnod Allweddol 1 a 2, gyda dysgwyr yn yr ardaloedd hyn yn gwneud rhwng pedair ac wyth wythnos yn fwy o gynnydd dros y cyfnod o ddwy flynedd na dysgwyr tebyg mewn ardaloedd cymharol. Tueddai'r gwelliannau mewn cyrhaeddiad fod yn fwy amlwg yn achos dysgwyr o deuluoedd llai cefnog nag ymhlith y rhai â chyrhaeddiad blaenorol is. Fodd bynnag, ni lwyddodd y cynllun peilot hawl estynedig i gynyddu nifer y plant a oedd yn cael prydau ysgol am ddim yn sylweddol ac ni chafodd unrhyw effaith sylweddol ar gyrhaeddiad addysgol ar gyfer dysgwyr cynradd na dysgwyr uwchradd. Nid ymddengys fod y gwelliannau mewn cyrhaeddiad a nodwyd yn ardaloedd peilot y cynnig cyffredinol i'w priodoli i blant yn treulio mwy o amser yn yr ysgol, am nad arweiniodd y naill gynllun peilot na'r llall at ostyngiad mewn cyfraddau absenoldeb. Mae hyn yn awgrymu bod y gwelliannau mewn cyrhaeddiad i'w priodoli i welliannau mewn cynhyrchiant yn yr ysgol, er nad yw ffynhonnell y gwelliannau hyn mewn cynhyrchiant yn glir. Fodd bynnag, ymddengys y gall cyffredinoldeb a'r gweithgareddau cysylltiedig a gyflawnwyd yn ardaloedd peilot y cynnig cyffredinol fod yn allweddol i'r gwelliannau mewn cyrhaeddiad.

- Mae budd-daliadau 'pasbort' eraill sy'n gysylltiedig ag addysg yn cynnwys Grant Gwisg Ysgol a Pheidio â Chodi Tâl am Deithiau Preswyl Ysgol. Os bydd gan fwy o deuluoedd hawl i fanteisio ar y cynlluniau hyn oherwydd newidiadau i feini prawf cymhwysedd o dan y Credyd Cynhwysol, gallai hyn roi mwy o bwysau ar Lywodraeth Cymru a chyllidebau ysgolion. I'r gwrthwyneb, os bydd gan lai o deuluoedd hawl i fanteisio arnynt, bydd hyn yn golygu y bydd teuluoedd ar incwm isel yn dioddef mwy o galedi ariannol, a fydd yn ei dro yn effeithio ar dlodi. Yn achos y Grant Gwisg Ysgol, efallai y gwelir cynnydd yn nifer y dysgwyr

70 Cyn y cynllun peilot, roedd gan ddysgwyr hawl i gael prydau ysgol am ddim os oedd eu rhieni yn hawlio budd-daliadau allan o waith a oedd yn seiliedig ar brawf modd (megis Cymhorthdal Incwm) neu Fudd-dal y Dreth Gyngor (ac nid Credyd Treth Gwaith) a bod ganddynt incwm blynyddol nad oedd yn fwy na £16,190. Hefyd, mae gan blant sy'n cael budd-dal cymhwyso yn eu rhinwedd eu hunain hawl i gael prydau ysgol am ddim.

nad ydynt yn gwisgo gwisg ysgol na dillad priodol i'r ysgol a allai arwain at gosbau ysgol am beidio â chydymffurfio â rheolau gwisg ysgol, bwllo, triwanta, hunan-barch isel ac ymddygiad aflonyddgar.

- Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (SAG) wedi cyhoeddi sylwadau ar ystadegau canlyniadau'r Rhaglen Waith ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus fel a ganlyn. Cafwyd 3,510 o atgyfeiriadau⁷¹ at y Rhaglen Waith ym mis Mehefin 2011, ac o'r rhain arweiniodd 6.8 y cant at ganlyniad o ran swydd⁷² o fewn blwyddyn (Prydain Fawr: 74,680 o atgyfeiriadau, gyda 8.6 y cant yn arwain at ganlyniad o ran swydd o fewn blwyddyn). O'r 4,940 o atgyfeiriadau yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2011, arweiniodd 6.5 y cant at ganlyniad o ran swydd o fewn blwyddyn (Prydain Fawr: 99,250 o atgyfeiriadau, gydag 8.1 y cant yn arwain at ganlyniad o ran swydd o fewn blwyddyn). Er nad yw DWP wedi cyhoeddi targedau y gellir asesu cynnydd yn eu herbyn erbyn diwedd mis Gorffennaf 2012, mae'r SAG wedi asesu cynnydd yn erbyn dau fesur – sef yr hyn sy'n cyfateb i lefel perfformiad gofynnol DWP ar gyfer canlyniadau o ran swyddi ac amcangyfrif sy'n seiliedig ar dybiaethau craidd DWP am berfformiad a wnaed pan luniwyd y rhaglen. Mae sylwadaeth y SAG yn awgrymu bod perfformiad hyd yma (wedi'i fesur yn ôl canlyniadau o ran swyddi fel cyfran o'r holl atgyfeiriadau hyd at ddiwedd mis Gorffennaf 2012, h.y. Prydain Fawr 3.6 y cant, Cymru 3.1 y cant) wedi bod yn llawer is na'r gofyniad gofynnol ar gyfer y rhaglen (9.7 y cant) a disgwyliad craidd DWP (11.9 y cant). Mae'r sylwadau hefyd yn nodi bod perfformiad y grŵp mwyaf (cyfranogwyr 25 oed a throsodd sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith, 3.4 y cant) yn llai na'r gyfradd peidio ag ymyrryd amcangyfrifedig – sef nifer yr unigolion a fyddai wedi dod o hyd i waith parhaus pe na bai'r rhaglen yn rhedeg (9.2 y cant).
- Yn ôl y SAG, mae'n debyg y bydd perfformiad hyd at ddiwedd mis Gorffennaf 2012 wedi'i danddatgan oherwydd oedi a data sydd wedi'i hepgor. Fodd bynnag, mae'n nodi nad yw hyn yn cyfrif am y diffyg cyfan rhwng canlyniadau disgwylidiedig a gwirioneddol. Mae esboniadau pellach o ran pam roedd perfformiad yn is na'r disgwyl yn cynnwys disgwyliadau cynnar a oedd wedi'u pennu'n rhy uchel, yr angen i rai darparwyr wella

⁷¹ Hawlwyr cymwys a atgyfeiriwyd gan y Ganolfan Byd Gwaith.

⁷² Cyflawnir canlyniadau swydd yn dilyn tri neu chwe mis o gyflogaeth yn dibynnu ar y grŵp taliadau.

eu perfformiad ac amodau economaidd a oedd yn waeth na'r disgwyl. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd y canfyddiadau o ymchwiliad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Pwyllgor Materion Cymreig i'r Rhaglen Waith yn ychwanegu eto at y sail dystiolaeth hon ar berfformiad y rhaglen.

- Gallai'r gofynion amodoldeb llymach ar gyfer cael budd-daliadau gynyddu'r galw am wybodaeth, cyngor ac arweiniad ar adeg pan fo adnoddau ar gyfer gwasanaethau gyrfaedd yn lleihau.
- Efallai y bydd y toriadau i fudd-daliadau yn cael effaith ar y broses o gyfrifo incwm preswyl er mwyn penderfynu ar gymhwysedd i gael cymorth ariannol statudol i fyfyrwyr neu lwfansau wedi'u targedu megis lwfans myfyrwyr anabl neu Lwfansau Cynhaliaeth Addysg. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda swyddogion cyfatebol yn DWP a'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS) i osgoi goblygiadau ariannol. At hynny, efallai y bydd mwy o alw am arian o Gronfeydd Ariannol wrth Gefn (sy'n gronfa gyfyngedig yn hytrach na chronfa a arweinir gan y galw, ond gallai mwy o alw oherwydd toriadau i fudd-daliadau gam-ystumio'r defnydd a wneir o'r gronfa a'i dwyn i ben yn gynharach).

Cadarnhaol

- Cyflwynwyd amodoldeb sgiliau yng Nghymru drwy'r Rhaglen Sgiliau ar gyfer Gwaith (Cymru), a ariennir gan DWP. Bydd y rhaglen yn rhedeg am 12 mis o fis Hydref 2012 a chaiff ei gwerthuso er mwyn llywio trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Pan nodir mai rhwystrau i ennill sgiliau yw'r prif rwystr sy'n atal unigolyn rhag dod o hyd i waith, bydd amodoldeb sgiliau yn ei gwneud yn ofynnol i hawl wyr gael hyfforddiant er mwyn gwella eu sgiliau sylfaenol (megis llythrennedd a rhifedd) a Saesneg i Siaradwyr leithoedd eraill, a all wella eu cyflogadwyedd yn gyffredinol. Er enghraifft, mae DWP a'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (2010c) yn nodi y disgwylir i amodoldeb sgiliau sicrhau'r manteision canlynol: mwy o hawl wyr yn cymryd rhan mewn darpariaeth hyfforddiant ac yn ei chwblhau fel rhan o'u taith yn ôl i waith, y disgwylir iddo arwain at fwy o bobl yn gwella eu sgiliau, yn gadael budd-daliadau ac yn cadw eu swyddi am fwy o amser. Mae DWP yn nodi y gallai hyn helpu i leihau tlodi plant (drwy gynyddu enillion rhieni) a gall hefyd wella canlyniadau addysgol plant drwy effeithiau rhwng cenedlaethau (e.e. gallai gwella sgiliau rhieni, yn enwedig y rhai ag anghenion sgiliau sylfaenol, eu galluogi i chwarae mwy o ran yn addysg eu

plant – McNally et al., 2006). Fodd bynnag, nododd adroddiad ymchwil ar gyfer DWP ar y cynllun treialu amodoldeb sgiliau ar gyfer y Lwfans Ceisio Gwaith, a lansiwyd ym mis Ebrill 2010 mewn 11 o ardaloedd y Ganolfan Byd Gwaith yn Lloegr, nad oedd unrhyw effaith wedi'i chanfod ar hyfforddiant, cosbau na chanlyniadau cynnar yn y farchnad lafur yn achos unigolion y nodwyd y gallai fod ganddynt anghenion sgiliau drwy broses sgrinio sgiliau sylfaenol. Canfu'r ymchwil fod yr hawlwy'r hynny a oedd yn gorfod cael hyfforddiant at ei gilydd o blaid hyfforddiant, ond nododd nad oedd bob amser yn diwallu eu hanghenion neu nad oedd yn cyrraedd y safon y byddent wedi hoffi ei gweld. Er eu bod yn gorfod cael hyfforddiant, dywedodd llawer y byddent wedi mynd ar gyrsiau hyfforddi sut bynnag. Roedd nifer yr unigolion a atgyfeiriwyd yn llai na'r disgwyl am nifer o resymau megis argaeledd darpariaeth. Prin iawn oedd yr hawlwy'r yr ataliwyd eu budd-daliadau am beidio â chydymffurfio a chosbwyd sawl ymatebydd am fod yn hwyr neu am anghofio mynd i sesiynau hyfforddi yn hytrach na gwrthod yr hyfforddiant a gynigiwyd. Daw'r adroddiad i'r casgliad y gall cosbau (y gellir eu gosod ar hawlwy'r os na fyddant yn mynd i sesiynau hyfforddi sgiliau neu os na fyddant yn cwblhau darpariaeth sgiliau heb reswm da) achosi caledi i deuluoedd ac, mewn llawer o achosion, mae'n annhebygol o fod yn effeithiol o ran annog unigolion i gydymffurfio yn y dyfodol (Dorsett et al., 2011). Fodd bynnag, mae DWP a'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (2010c) yn nodi bod gwersi gwerthfawr wedi'u dysgu o roi'r cynllun peilot hwn ar waith, ac mae'r rhain wedi'u hadlewyrchu yn y dull gweithredu a fabwysiadwyd ganddynt ar gyfer amodoldeb sgiliau.

- Mae DWP wedi cadarnhau mai dim ond drwy raglenni a ariennir gan DWP ei hun y mae'n gweithredu amodoldeb sgiliau (h.y. gorfodi derbynwyr budd-daliadau i gymryd rhan) yng Nghymru. Felly, ar hyn o bryd, bydd hyn yn osgoi unrhyw effaith uniongyrchol y gallai'r polisi amodoldeb sgiliau ei chael ar ddarpariaeth a ariennir gan Llywodraeth Cymru.
- Bydd rhai unigolion sy'n gymwys ar hyn o bryd ac yn defnyddio gwasanaethau o fudd-dal i waith datganoledig yn dod yn gymwys ar gyfer Rhaglen Waith DWP, (a ddarperir gan Working Links a Rehab JobFit yng Nghymru), gan leihau'r pwysau ar wasanaethau Llywodraeth Cymru a'r galw amdanynt a galluogi Llywodraeth Cymru i dargedu cymorth at y rhai nad ydynt yn gymwys ar gyfer y Rhaglen Waith. Fodd bynnag, mae'n debyg y bydd galw o hyd am amrywiaeth o wasanaethau datganoledig o du'r rhai na chânt eu cwmpasu gan y Rhaglen Waith.

Datblygu economaidd⁷³

Diwygiad allweddol:

- yr holl newidiadau i fudd-daliadau a chredydau traeth a wnaed eisoes ac y disgwylir iddynt gael eu gwneud gan lywodraeth glymblaid y DU, yn enwedig y Credyd Cynhwysol.

Effeithiau posibl

Effaith ddosbarthiadol – Fel y nodwyd gan Adam a Phillips (2013), mae tystiolaeth glir bod y duedd i wario incwm ymylol yn dod o fewn lefel yr incwm. Mewn geiriau eraill, mae newid o £1 yn incwm teulu incwm isel yn arwain at fwy o newid yn ei wariant na newid o £1 yn incwm teulu ag incwm uwch. Mae hyn yn adlewyrchu'n rhannol y cyfyngiadau credyd a wynebwr gan deuluoedd incwm isel ac felly mae lleihad mewn incwm yn bwydo drwodd i leihad mewn gwariant. Ar y llaw arall, gall fod gan deuluoedd ag incwm uwch yr opsiwn o ymateb i leihad mewn incwm yn rhannol drwy arbed llai o arian neu fenthycu mwy. Felly, gall newidiadau mewn polisi sy'n effeithio'n bennaf ar incwm cartrefi tlotach gael mwy o effaith ar faint yr economi na'r rhai sydd wedi'u targedu at gartrefi ag incwm uwch.

O ran hunangyflogaeth, mae tystiolaeth i awgrymu bod cysylltiad cadarnhaol rhwng dechrau busnes ac incwm drwy'r cysylltiadau â lefelau addysg a'r ffaith ei bod yn haws cael gafael ar gyllid.

Negyddol

- Mae Adam a Phillips (2013) yn amcangyfrif y bydd diwygiadau lles llywodraeth glymblaid y DU a gyhoeddwyd cyn datganiad yr Hydref ym mis Rhagfyr yn lleihau cyfanswm y budd-daliadau a'r credydau treth y mae gan unigolion hawl iddynt tua £520 miliwn (neu £590 miliwn os na chynhwysir Credyd Cynhwysol). Mae hyn yn cyfateb i golli tua £6.40 fesul teulu bob wythnos ar gyfartaledd (neu £7.26 os na chynhwysir Credyd Cynhwysol), tua 1.5 y cant o'u hincwm net. Yn ôl y math o deulu, yn gyffredinol, teuluoedd nad ydynt yn gweithio â phlant sy'n debygol o weld y colledion cyfartalog mwyaf. Caiff pensiynwyr, a theuluoedd heb blant lle y mae pob oedolyn yn gweithio eu diogelu i raddau helaeth gan y toriadau.
- Mae'n bosibl y bydd y diwygiadau lles yn cael sgil-ffeithiau negyddol ar gyflogaeth a chyflogau unigolion nad yw'r diwygiadau yn effeithio arnynt yn uniongyrchol, yn enwedig yn

⁷³ Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn seiliedig ar weddill gwaith ymchwil Cam 2, a wnaed gan IFS. Ceir y dadansoddiad llawn yn Adam a Phillips (IFS, 2013) *An ex-ante analysis of the effects of the UK Government's welfare reforms on labour supply in Wales*.

ystod cyfnodau o ddiweithdra uchel. Er enghraifft, efallai y caiff gweithwyr presennol eu gwrthio allan gan unigolion sydd am weithio mwy o oriau neu ddechrau gweithio. Mae'r dystiolaeth empeiraidd ar sgil-ffeithiau yn gymysg, ac mae'r fath ffeithiau yn debygol o fod yn benodol i'r cyd-destun, gan ddibynnu ar y diwygiadau penodol, y grwpiau yr effeithir arnynt ac amodau'r farchnad lafur ehangach (Bartik, 2002; Lubotsky, 2004; Blundell et al., 2004; Riley a Young, 2000; Adam et al., 2008). O gofio ffeithiau'r newidiadau i gymhellion i weithio ac ymatebion dilynol y cyflenwad o lafur yng Nghymru fel y'u rhagwelwyd gan Adam a Phillips (2013), mae unrhyw sgil-ffeithiau negyddol yn debygol o fod wedi'u crynhoi ymhlith unigolion ag incwm/sgiliau isel i ganolog. Fodd bynnag, mae'r sgil-ffeithiau hyn yn debygol o ddod yn llai pwysig dros amser wrth i gwmnïau fuddsoddi mewn cyfalaf newydd i ategu'r cyflenwad uwch o lafur.

- Fel y nodwyd gan Adam a Phillips (2013) efallai y bydd newidiadau mewn patrymau gwario'r rhai yr effeithir arnynt gan y diwygiadau lles (naill ai'n uniongyrchol gan newidiadau i'r budd-daliadau y mae gan unigolion hawl i'w cael, gan newidiadau mewn cyflogaeth ac oriau gwaith, neu gan sgil-ffeithiau) yn cael effeithiau economaidd ehangach. At hynny, am y disgwylir i'r diwygiadau lles arwain at golledion incwm mwy o faint ar gyfer cartrefi tlotach o gymharu â chartrefi cyfoethocach, mae'r effaith ar wariant a maint yr economi yn debygol o fod yn fwy nag effeithiau polisi sydd wedi'i dargedu at leihau incwm teuluoedd ag incwm uwch. Y rheswm am hyn yw bod newid o £1 yn incwm cartref incwm isel yn arwain at fwy o newid yn ei batrymau gwario/defnyddio na newid o £1 yn incwm cartref ag incwm uwch.
- Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (2010) yn amcangyfrif y bydd newidiadau polisi sy'n cael yr effaith uniongyrchol o leihau gwariant ar les 1 y cant o gynnyrch mewnwladol crynswth megis y rhai a roddwyd ar waith neu y disgwylir iddynt gael eu rhoi ar waith gan lywodraeth glymblaid y DU⁷⁴ yn lleihau CMC 0.6 y cant yn y byrdymor. Fodd bynnag, fel y nodwyd gan Adam a Phillips (2013), mae amcangyfrifon eraill gan y Gronfa Ariannol Ryngwladol a hefyd astudiaethau o gyfnodau o wendid economaidd (Auerbach a Gorodnichenko, 2012; Bachmann a Sims, 2011; a Shoag, 2010) yn awgrymu y gall yr effeithiau lluosydd fod yn fwy byth.

⁷⁴ Y newid cyffredinol mewn gwariant ar les yw £16 biliwn (£18 biliwn mewn toriadau lles, a wrthbwysir rhywfaint gan gost y Credyd Cynhwysol, yr amcangyfrif ei bod yn £2 biliwn). Mae hyn yn cyfateb i tua 1 y cant o CMC (£1,600 biliwn).

- O Ebrill 2014, bydd y Credyd Cynhwysol yn cyflwyno newidiadau mawr i bobl hunangyflogedig, yn enwedig y rhai ar gyflog isel. Mae rhai pobl hunangyflogedig o dan gredydau treth yn nodi bod ganddynt lefelau isel iawn o incwm ac er bod Llywodraeth y DU yn cydnabod y gall gymryd peth amser cyn y bydd busnes newydd yn dod yn broffidiol, unwaith y bydd wedi ymsefydlu mae'n disgwyl gweld incwm rhesymol o'r gweithgaredd busnes. O dan y Credyd Cynhwysol, tybir bod hawlwyd hunangyflogedig sefydledig yn ennill o leiaf y Terfyn Incwm Isaf (MIF). Felly, os bydd cartrefi sy'n cynnwys o leiaf un enillwr hunangyflogedig yn datgan enillion o dan eu Terfyn Incwm Isaf (gan gynnwys dim enillion), tybir bod yr unigolyn hwnnw yn ennill cyflog ar lefel y Terfyn Incwm Isaf yn hytrach nag ar y lefel y mae wedi'i datgan. Bydd y Terfyn Incwm Isaf yn seiliedig ar nifer yr oriau y disgwylir i unigolyn eu gweithio neu y disgwylir iddo eu treulio yn chwilio am waith yn y Credyd Cynhwysol wedi'u lluosio â'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar gyfer ei oedran, llai treth incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol tybiannol⁷⁵. Bydd hyn yn gymwys i hawlwyd yn y grŵp Pob Gofyniad sy'n Gysylltiedig â Gwaith. Caiff dyfarniad Credyd Cynhwysol hawlwyd mewn grwpiau eraill ei gyfrifo ar sail yr union enillion a nodant (yn hytrach na'r Terfyn Incwm Isaf). Er mwyn rhoi amser iddynt sefydlu busnes, bydd hawlwyd mentrau newydd o fewn blwyddyn i ddechrau gwaith hunangyflogedig yn gymwys ar gyfer cyfnod dechrau busnes o flwyddyn pan na fydd y Terfyn Incwm Isaf yn gymwys. Yn ystod y cyfnod hwn byddant yn cael y Credyd Cynhwysol llawn ar gyfer eu hamgylchiadau a'r incwm a nodant, ar yr amod eu bod yn mynd i gyfweiliadau chwarterol ('gwiriadau porth') lle y gofynnir iddynt roi tystiolaeth i ddangos eu bod yn dal i geisio cynyddu eu hincwm o hunangyflogaeth. Bydd yn ofynnol i hawlwyd y canfyddir nad ydynt yn bodloni gofynion y gwiriad porth mwyach geisio gwaith arall a bodloni'r gofynion llawn o ran chwilio am waith a bod ar gael i weithio. At hynny, ar ôl y cyfnod dechrau busnes, ni chaiff y Terfyn Incwm Isaf ei lacio am gyfnodau pan fydd busnes yn gweld lleihad gwirioneddol mewn elw, nac am gyfnodau pan fydd busnes yn ail-fuddsoddi er mwyn ehangu, gan gyflogi gweithiwr newydd, nac mewn misoedd pan geir eitemau gwariant mawr sy'n fwy na derbyniadau o fasnachu. Gallai'r newidiadau hyn o dan y Credyd Cynhwysol o bosibl gynyddu'r galw am wasanaethau cymorth busnes Llywodraeth Cymru, yn enwedig cymorth ariannol.

⁷⁵ Mae DWP yn amcangyfrif y bydd tua 600,000 o gartrefi yn y DU yn cael y Credyd Cynhwysol gydag o leiaf un unigolyn sy'n nodi mai ei brif gyflogaeth yw hunangyflogaeth ac y bydd gan 370,000 o'r rhain incwm sy'n llai na'u capasiti personol ar gyfer gwaith amser llawn a delir yn ôl yr isafswm cyflog cenedlaethol (DWP, 2012l).

- Efallai y bydd y system uchod yn rhwystro entrepreneuriaeth. Er enghraifft, mae Grŵp Diwygio Trethi Incymau Isel y Sefydliad Siartredig Trethiant (2012b) yn dadlau y bydd y Terfyn Incwm Isaf yn rhwystr mawr a fydd yn atal unigolion rhag ymgymryd â gwaith hunangyflogedig ac mai dim ond pan fydd tystiolaeth bod perchennog busnes yn ffugio elw er mwyn cynyddu hyd yr eithaf ar y Credyd Cyhwysol y mae ganddo hawl iddo y dylid ei ddefnyddio.
- Efallai y rhoddir mwy o bwysau ar wasanaethau cymorth busnes wrth i gyflogwyr (sydd â chyflogeion sy'n hawlio'r Credyd Cynhwysol) a hawl wyr hunangyflogedig ofyn am wybodaeth am y gofynion newydd o ran nodi incwm a chymorth i'w bodloni. Rhoddir gwybodaeth amser real i gyflogeion. Fodd bynnag, mae rheoliadau drafft y Credyd Cynhwysol yn awgrymu y bydd derbynwyr hunangyflogedig yn hunan-gofnodi eu henillion ac y bydd yn ofynnol iddynt gwblhau adroddiad ychwanegol ar-lein fel y gellir cyfrifo eu dyfarniad Credyd Cynhwysol (DWP, 2012n). Bydd angen cofnodi enillion bob mis a bydd methu â gwneud hynny o fewn saith diwrnod i'r amserlen hon yn arwain at daliadau yn cael eu hatal. Efallai y bydd y baich gweinyddol ychwanegol hwn yn achosi problemau i rai busnesau, yn enwedig busnesau bach. Yn wir, mae Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (2012) a Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig (2012) wedi lleisio pryderon ynghylch amserlenni tyn a'r beichiau gweinyddol trymach. Efallai y bydd angen cymorth ar fusnesau i gael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gyflwyno adroddiad llawn a chywir yn enwedig o gofio'r hyn a fydd yn digwydd os na fyddant yn cydymffurfio. Mae'n bosibl y bydd hyn yn atal unigolion rhag dechrau eu busnes eu hunain hefyd.

Cadarnhaol

- Fel yr amlinellir yng ngweddill gwaith ymchwil Cam 2 a wnaed gan Phillips ac Adam (2013), disgwylir i'r diwygiadau lles gael effaith gadarnhaol, er yn fach, ar y cyflenwad llafur yng Nghymru. Mae ei senario canolog (sy'n cynnwys y Credyd Cynhwysol) yn rhagweld y bydd cyflogaeth oedran gweithio yn cynyddu 0.3 pwynt canrannol sy'n cyfateb i tua 5,000 o unigolion. Fodd bynnag, erys cryn ansicrwydd ynghylch maint yr effaith hon. Bydd y galw am lafur yn ddylanwad pwysig ar ganlyniadau, yn arbennig yn y byrdymor. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod galw gwan (diweithdra uchel) yn golygu cynnydd llai mewn

cyflogaeth/oriau gwirioneddol na'r cynnydd yn y cyflenwad llafur a ddymunir (h.y. diweithdra anwirfoddol). Ceir dadansoddiad arall o effeithiau'r diwygiadau lles ar gyflogaeth ar dudalennau 41–42. Yn ogystal â chynyddu nifer y swyddi sydd ar gael, bydd y math o swyddi hefyd yn hanfodol am y bydd angen iddynt ddarparu ar gyfer y grwpiau gwahanol (o ran lefelau sgiliau, galwedigaeth, daearyddiaeth, profiad, ac ati) sy'n ymuno â'r farchnad lafur.

- Caiff unrhyw gynnydd yn y gyfradd gyflogaeth sy'n deillio o hynny effaith gadarnhaol uniongyrchol ar enillion ac allbwn economaidd yng Nghymru. Mae Adam a Phillips yn rhagweld yn eu senario canolog y gallai enillion gros yng Nghymru gynyddu ychydig hyd at £149 miliwn (0.5 y cant) gan gynnwys y Credyd Cynhwysol yn 2014–15. Fodd bynnag, efallai y caiff yr effaith gadarnhaol hon ei gwrthbwyso gan effeithiau anuniongyrchol negyddol ar eraill (e.e. cyflogau is a/neu gyfraddau cyflogaeth is ar gyfer gweithwyr eraill), yn ogystal â'r incwm uniongyrchol (ac anuniongyrchol) a gollir o ganlyniad i'r toriadau i fudd-daliadau.
- Y nod wrth gyflwyno'r Terfyn Incwm Isaf ar gyfer pobl hunangyflogedig yw annog hawlwyd hunangyflogedig i gynyddu eu henillion, lleihau twyll ac atal gweithgareddau nad ydynt yn gwneud pobl hunangyflogedig yn hunangynhaliol yn ariannol rhag cael eu noddi am gyfnod hir. Er enghraifft, os bydd enillion datganedig hawlydd hunangyflogedig islaw'r Terfyn Incwm Isaf, defnyddir y Terfyn Incwm Isaf i gyfrifo dyfarniad Credyd Cynhwysol yr hawlydd. Er ei bod yn bosibl y bydd rhai hawlwyd yn rhoi'r gorau i'w gweithgaredd hunangyflogaeth ac yn chwilio am waith arall neu na fyddant yn newid eu hymddygiad, mae DWP yn rhagweld y gall hawlwyd eraill ymateb drwy gynyddu eu henillion o hunangyflogaeth. Mae DWP (2012h) yn nodi yn ei Hasesiad o Effaith y Credyd Cynhwysol ei bod yn anodd amcangyfrif effaith hyn ar gyflogaeth. Mae DWP hefyd wedi comisiynu ymchwiliad i asesu sut y bydd y broses o roi'r Credyd Cynhwysol ar waith yn effeithio ar bobl hunangyflogedig fel y gellir dysgu gwersi o hyn (Staniland, parhaus).

Cymunedau a Chyfiawnder Cymdeithasol

Diwygiadau allweddol:

- Credyd Cynhwysol
- Budd-dal Tai
- trefniadau olynol ar gyfer Budd-dal y Dreth Gyngor
- y Gronfa Gymdeithasol.

Effeithiau posibl

Effaith ddosbarthiadol – Ceir graddiannau cymdeithasol-economaidd sefydledig o ran cyfraddau erledigaeth ar gyfer troseddau personol a throseddau eiddo. Mae troseddau yn erbyn y person ac yn erbyn eiddo yn gysylltiedig ag ardaloedd daearyddol penodol iawn ac maent yn tueddu i amrywio â'i gilydd (Trickett, Osborn, Seymour a Pease, 1992) ac mae erledigaeth luosog yn gyffredin (Hope, Bevan, Trickett ac Osborn, 2001). Y casgliad cyffredinol o ran troseddau eiddo yw eu bod yn effeithio ar bobl gyfoethocach mewn ardaloedd tlotach. Mae troseddoldeb ei hun, o ran y tueddfryd i droseddu, yn fwy cysylltiedig â lefelau is o gyfoeth. Er enghraifft, dengys Machin a Meghir (2004) bod lleihad mewn incwm ym mhen isaf y dosbarthiad yn gysylltiedig yn ddaearyddol â chyfraddau troseddu cynyddol. Mae gwaith ymchwil helaeth wedi'i wneud i lefelau troseddu mewn perthynas â diweithdra; dangoswyd bod cydberthynas gadarnhaol rhwng diweithdra a throseddau meddiangar mewn nifer fawr o astudiaethau ledled y byd (Raphael a Winter-Ebmer, 2001; Levitt, 2001; Gould et al., 2002) ac yn y DU (y Swyddfa Gartref, 2003, 2007). Fodd bynnag, heriwyd y gydberthynas hon ac mae wedi'i chymhlethu gan ffactorau eraill, sy'n atal diweithdra rhag cael ei ddefnyddio fel mesur rhagfynegol o droseddu.

Canfu Arolwg Troseddu Prydain fod cam-drin domestig yn fwy tebygol o fod wedi effeithio ar bobl ar incwm isel nag ar eraill. Fodd bynnag, hwyrach nad yw hyn yn awgrymu bod tlodi ynddo'i hun yn ffactor risg. Gallai olygu bod cam-drin domestig wedi achosi'r statws incwm isel mewn rhai achosion (Coleman ar eraill, 2007) ac felly mae'n anodd nodi cyfeiriad y gydberthynas. Ymddengys fod cam-drin domestig yn effeithio ar bobl ym mhob dosbarth a braced incwm.

Negyddol

- **Tlodi** – Fel y nodwyd yn adroddiad Llywodraeth Cymru *Dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng*

Nghymru – dadansoddiad Cam 1, disgwylir i'r newidiadau treth a budd-dal a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Glymblaid y DU hyd at haf 2011 gynyddu tlodi. Yn benodol, mae Brewer et al. (2011) a Thrysorlys EM (2011) yn amcangyfrif y bydd tlodi plant cymharol yn y DU yn cynyddu tua 100,000 yn 2012–13. Yn seiliedig ar gyfrannau cymesur wedi'u haddasu ar gyfer gwahaniaethau mewn tlodi, mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y gallai'r diwygiadau treth a budd-dal gynyddu tlodi plant cymharol tua 6,000 yn 2012–13 gyda chynnydd mwy sylweddol yn 2013–14 wrth i ddiwygiadau pellach ddod i rym. At hynny, mae'r toriadau lles ychwanegol a gyhoeddwyd yn Natganiad Hydref 2012 yn debygol o gynyddu tlodi ymhellach. Mae'n amlwg bod hyn yn gwrthdaro â'r pwyslais y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar ddiogelu pobl sy'n agored i niwed a mynd i'r afael â thlodi. Bydd gan raglenni megis Teuluoedd yn Gyntaf rôl i'w chwarae o ran cyfyngu ar godiadau mewn lefelau tlodi plant a hefyd leihau anghydraddoldebau sy'n deillio o dlodi. At hynny, mae nifer o Allau eisoes yn defnyddio Teuluoedd yn Gyntaf i liniaru effaith ansefydlogrwydd ariannol drwy roi cyngor ar fudd-daliadau a chynghor ariannol/cyngor ar ddyledion er mwyn sicrhau'r incwm mwyaf posibl i deuluoedd.

- **Cynhwysiant ariannol** – Mae goblygiadau o ran nifer yr unigolion sydd wedi'u hallgáu'n ariannol ac sy'n byw mewn tlodi ac mae'n debyg y caiff incymau eu lleihau fel yr amlinellwyd yn Adran 1. Felly, bydd hyn yn effeithio ar bolisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhwysiant ariannol.

Efallai y gwelir cynnydd yn nifer yr unigolion sy'n troi at fenthycwyr cost uchel, benthycwyr anghyfreithlon a benthycwyr diwrnod cyflog o bosibl, os yw eu budd-daliadau wedi'u torri neu os oes rhaid iddynt dalu bil bellach nad ydynt wedi gorfod ei dalu erioed o'r blaen (e.e. y Dreth Gyngor) ac na allant gael gafael ar gyllid mwy fforddiadwy. Er nad oes unrhyw ystadegau swyddogol ar y sector benthycy diwrnod cyflog yn y DU, mae amcangyfrifon yn awgrymu ei fod wedi tyfu'n sylweddol ers 2008, pan amcangyfrifodd y Swyddfa Masnachu Teg ei fod yn werth tua £900 miliwn. Amcangyfrifodd Llais Defnyddwyr fod benthyciadau yn 2009 yn werth cyfanswm o £1.2 biliwn ac mae adroddiadau mwy diweddar yn y cyfryngau wedi awgrymu ei fod yn werth tua £1.7–1.9 biliwn. Efallai y bydd y toriadau lles yn cynyddu'r galw am y fath fenthyciadau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, mae'r Swyddfa Masnachu Teg yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o gydymffurfiaeth gan y sector benthycy diwrnod

cyflog a ysgogwyd yn rhannol gan bryderon bod rhai benthycwyr diwrnod cyflog yn manteisio ar unigolion sydd mewn anhawster ariannol.

- **Cyngor ar fudd-daliadau/dyledion** – Mae'n debyg y bydd mwy o alw am wasanaethau cynghori ar ddyledion a budd-daliadau o ganlyniad i newidiadau i fudd-daliadau a cholli incwm cartref. Hefyd, bydd y newidiadau i gymorth cyfreithiol o Ebrill 2013 yn effeithio ar allu unigolion i gael gafael ar gymorth oherwydd y penderfyniad i ddileu cyngor am ddim ar fudd-daliadau lles. Am nad yw rhoi cyngor ar fudd-daliadau lles yn ddyletswydd statudol i ALLau, nid yw pob ALL yn cyflogi cynghorwyr nac yn eu hariannu'n allanol yn y trydydd sector. O ystyried nifer yr heriau llwyddiannus a wneir i benderfyniadau'r Asesiad Gallu i Weithio a phenderfyniadau ynghylch y Lwfans Ceisio Gwaith, bydd hyn yn effeithio ar incwm cartrefi am y caiff y cymorth i herio penderfyniadau ei leihau yn ddiweddarach eleni.

Dengys ystadegau a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Cyngor ar Bopeth (Cymru a Lloegr) fod cyngor ar fudd-daliadau a chredydau treth wedi cynyddu 8 y cant rhwng Gorffennaf a Medi 2012 o gymharu â'r un chwarter flwyddyn yn ôl. Mae hyn yn 36 y cant o'r holl gyngor a roddwyd, sy'n golygu mai budd-daliadau a chredydau treth sy'n achosi'r problemau mwyaf i gleientiaid (o flaen cyngor ar ddyledion sy'n cyfrif am 30 y cant). Y galw am gyngor ar y Lwfans Ceisio Gwaith sy'n gyfrifol am y cynnydd hwn. Cynyddodd 66 y cant dros y cyfnod hwn i 113,000 o broblemau, a oedd yn ymwneud â 63,000 o gleientiaid. Roedd apeliadau yn erbyn penderfyniadau ynghylch y Lwfans Ceisio Gwaith yn cyfrif am 23,000 o'r problemau hyn (cynnydd o fwy nag 80 y cant), sy'n aml yn gymhleth ac yn cymryd cryn amser. Yn ogystal â'r straen a'r caledi ychwanegol y mae'r problemau hyn yn eu hachosi i gleientiaid y Ganolfan Cyngor ar Bopeth, mae hefyd yn rhoi cryn bwysau ar wasanaethau sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd ymdopi. Er mwyn cynorthwyo'r gwaith y mae'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth yn ei wneud ledled Cymru i gefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed a difreintiedig, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi dros £6 miliwn i Gyngor ar Bopeth Cymru dros y tair blynedd ariannol nesaf.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal Adolygiad o Wasanaethau Cynghori (e.e. hawliau lles, dyled, tai, cyflogaeth, defnyddiwr a gwahaniaethu), y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2013. Mae'n ystyried pa mor effeithiol yw

gwasanaethau gwybodaeth a gwasanaethau cynghori o ran diwallu anghenion pobl yng Nghymru a bydd yn gwneud argymhellion ar sut i wella gwasanaethau cynghori yng Nghymru.

- **Y Gronfa Gymdeithasol** – Mae Deddf Diwygio Lles 2012 yn diddymu'r Gronfa Gymdeithasol o 31 Mawrth 2013 a chaiff elfennau dewisol y gronfa (Benthyciadau Argyfwng a Grantiau Gofal Cymunedol) eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru. Mae DWP wedi darparu symiau dangosol ar gyfer cyllid y Gronfa Gymdeithasol i'w trosglwyddo i Gymru o 2013. Mae'r rhain yn seiliedig ar wariant blaenorol yng Nghymru rhwng Ebrill 2011 a Medi 2011. Y symiau arfaethedig yw £10.2 miliwn ar gyfer ariannu'r rhaglen a £2 miliwn ar gyfer costau gweinyddol yn 2013–14 a 2014–15. At hynny, trosglwyddir £102,605 i'w ddefnyddio fel arian sefydlu. Mae hyn yn cymharu â gwariant gan y rhaglen (ar yr elfennau hynny sy'n cael eu trosglwyddo) yng Nghymru a oedd yn cyfateb i £11.7 miliwn yn 2011–12. Bydd cynllun newydd, a gaiff ei reoli a'i gyflawni gan Northgate Public Services (mewn partneriaeth â Family Fund Training a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), ar waith erbyn 1 Ebrill 2013. Yn ogystal â'r lleihad mewn cyllid, mae'n debyg y gwelir cynnydd yn nifer y ceisiadau oherwydd gostyngiadau yn incwm teuluoedd a/neu broblemau cyllidebu posibl sy'n gysylltiedig â budd-daliadau misol. Yn 2011–12 cyflwynwyd bron 114,000 o geisiadau i elfennau dewisol y Gronfa Gymdeithasol y derbyniwyd dros 72,000 ohonynt. Rhagwelir y gallai nifer y ceisiadau gynyddu yn y flwyddyn gyfredol 2012–13 ac yn 2013–14 pan fydd Llywodraeth Cymru yn mynd yn gyfrifol am redeg y Gronfa Gymdeithasol.

Er bod y setliad yn rhoi dyraniadau dangosol ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2013–14 a 2014–15, mae ansicrwydd o hyd ynghylch a fydd yr arian canlyniadol ar gyfer y ddarpariaeth les newydd yn dod i ben neu a gaiff ei leihau ar ôl yr ymrwymiad dwy flynedd a roddwyd. Mae'n amlwg bod rhoi darpariaeth les newydd ar waith yn dwyn goblygiadau i Lywodraeth Cymru os na ddarperir unrhyw setliad pellach ar gyfer 2015–16 ac ar ôl hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio eglurhad pellach o'r trefniadau ar gyfer parhau i ariannu'r rhaglen a sut y caiff hyn ei gyfrifo.

- **Trosedd** – Wrth i incwm o fudd-daliadau leihau, mae posibilrwydd y bydd pobl yn troi at ffynonellau eraill o incwm. Gall hyn gynyddu nifer yr achosion o droseddau meddiangar a benthycia anghyfreithlon. Yn wir, mae gwaith ymchwil a wnaed gan Machin a Marie (2006) yn awgrymu bod toriadau i

fudd-daliadau a chosbau yn gysylltiedig â'r Lwfans Ceisio Gwaith yn y 1990au wedi llwyddo i symud pobl allan o'r system budd-daliadau gan leihau incwm a chynyddu cyfraddau troseddu. Er bod gwaith ymchwil gan Griggs ac Evans (2010) wedi dangos y gall gorfodi amodoldeb a chosbau gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau byrdymor, megis cynyddu cyfraddau cyflogaeth, nodwyd hefyd y gallant arwain at gyflogaeth o ansawdd gwaeth ac amharu ar gyfraddau troseddu. At hynny, canfu gwaith ymchwil arall yn UDA, yn y byrdymor o leiaf, fod defnyddwyr cyffuriau a gollodd yr hawl i fudd-daliadau drwy fethu â chydymffurfio â'r gyfundrefn newydd yn fwy tebygol o ddechrau cyflawni troseddau yn gysylltiedig â chyffuriau unwaith eto er mwyn ariannu eu defnydd o gyffuriau (Montoya ac Atkinson, 2002; Swartz et al., 2004). Fodd bynnag, mae'n werth nodi nad yw'r dirwasgiad wedi effeithio ar lefelau troseddu, hyd y gellir gweld, ac mae cyfraddau troseddu yng Nghymru wedi gostwng yn sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf, yn enwedig yng Ngwent a De Cymru.

Edrychodd gwaith ymchwil arall gan Foley (2009) ar effaith amseriad ac amllder budd-daliadau ar lefelau troseddu, sydd o ddiddordeb o gofio y caiff y Credyd Cynhwysol ei dalu yn fisol gan ddisodli'r taliadau presennol a wneir bob pythefnos yn bennaf. Canfu'r ymchwil hon fod gweithgarwch troseddol (yn enwedig troseddau â chymhelliant ariannol uniongyrchol, e.e. byrgleriaeth) yn cynyddu yn ôl yr amser a oedd wedi mynd heibio ers i fudd-daliadau gael eu gwneud. Mae hyn yn awgrymu y gall fod rhai senarios lle y caiff incwm sy'n gysylltiedig â lles ei wario yn rhy gyflym ac wedyn gall fod ymdrechion i ychwanegu ato ag incwm troseddol.

Mae digartrefedd (a allai gael ei achosi gan ôl-ddyledion rhent sydd i'w priodoli i newidiadau budd-dal tai) hefyd yn ffactor risg ar gyfer trosedd. Fodd bynnag, mae'n anodd asesu/rhagweld yr effeithiau hyn (gweler DWP, 2010b).

- **Ymddygiad gwrthgymdeithasol** – Gall fod problemau o ran cydlyniant cymunedol yn gysylltiedig â chynnydd mewn tai gorlawn a thai sy'n is na'r safon, cartrefi incwm isel yn symud i ardaloedd sydd eisoes yn ddifreintiedig a hefyd achosion o droi unigolion allan o'u cartrefi. Er enghraifft, gall fod tensiynau cysylltiedig sy'n deillio o ymddygiad gwrthgymdeithasol, sŵn, niwsans, eiddo gwag (y gall risg o dân a fandaliaeth fod yn gysylltiedig ag ef) ac ansawdd bywyd mewn ardaloedd yr effeithir arnynt. Gall aflonyddwch cymdeithasol/protestiadau godi wrth

i bobl wrthod talu'r dreth gyngor (fel y gwelwyd yn achos y Tâl Cymunedol a ragflaenodd Fudd-dal y Dreth Gyngor).

- **Cam-drin domestig** – Gall fod problemau yn ymwneud â thalu'r Credyd Cynhwysol am y caiff ei wneud (yn y rhan fwyaf o achosion) fel un taliad i un aelod o'r cartref yn unig. Mae DWP (2012h) yn nodi y caiff y Credyd Cynhwysol ei dalu i gyfrif a nodwyd gan aelodau o'r cartref (e.e. cyfrif un partner neu gydgyfrif). Os na ellir dod i gytundeb, yr Ysgrifennydd Gwladol fydd yn penderfynu'n derfynol ar sut y caiff y Credyd Cynhwysol ei dalu. Mae elusennau megis Oxfam wedi lleisio pryderon bod y Credyd Cynhwysol yn debygol o gael ei dalu i gyfrif aelod gwrywaidd y pâr. Mae tystiolaeth gan Sharp (2008) a Westaway a McKay (2007) yn awgrymu bod hyn yn destun pryder penodol i ferched mewn cartrefi lle y ceir cam-drin domestig. Mae'r ffaith ei fod yn cael ei dalu i'r cartref yn ei gwneud yn anos i ddioddefwyr cam-drin domestig gael gafael ar fudd-daliadau/arian iddynt eu hunain, gan gynyddu dibyniaeth a'i gwneud yn anos iddynt adael partner treisgar. Mae gwaith ymchwil gan Rotik a Perry (2011) hefyd yn nodi bod defnyddwyr gwasanaethau yn pryderu y bydd taliadau ar y cyd yn anymarferol ar gyfer cartrefi lle y ceir cam-drin domestig. Fodd bynnag, mae DWP (2012h) wedi cadarnhau, o dan amgylchiadau eithriadol, y gellir rhannu taliad y Credyd Cynhwysol. Rydym yn aros am fanylion pellach am hyn. Gall effeithiau ar drais domestig gael ei waethygu ymhellach gan doriadau i fudd-daliadau ac arian (e.e. y Gronfa Gymdeithasol), sy'n aml yn cael eu hystyried yn hanfodol er mwyn galluogi dioddefwyr cam-drin domestig i ddianc o berthnasau treisgar (yn enwedig am y gallant wneud cais yn eu rhinwedd eu hunain). Gall yr effeithiau corfforol a seicolegol ar ddioddefwyr trais domestig hefyd eu rhwystro rhag ymuno â'r farchnad lafur neu danseilio eu gallu i aros ynddi.
- **Cynhwysiant digidol** – Un o elfennau allweddol y Credyd Cynhwysol fydd defnyddio system hawlio ar-lein o fis Ebrill 2013 a'r nod yw sicrhau y caiff 80 y cant o drafodion eu cynnal yn ddigidol. Erbyn Ebrill 2011, 20 mis ar ôl i'r opsiwn ddod ar gael, dim ond 17 y cant o geisiadau newydd am Lwfans Ceisio Gwaith a wnaed ar-lein (Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, 2011). Bydd heriau sylweddol yn gysylltiedig â pherswadio'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol i hawlio ar-lein. Bydd angen cymorth ar y bobl hyn i'w helpu i symud sianeli. Mae'r ffaith na ddefnyddiodd chwarter yr oedolion yng Nghymru y rhyngrwyd yn rheolaidd yn 2012 (Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2012)

yn pwysleisio pa mor sylweddol y gallai'r her fod. At hynny, dywedodd ychydig o dan hanner yr hawlwydd budd-daliadau a arolygwyd gan Trinh a Ginnis (2012) y byddai angen cymorth arnynt i ddefnyddio'r gwasanaeth budd-daliadau ar-lein⁷⁶. Dengys data a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2012) ac ymchwil megis yr ymchwil a wnaed gan Dutton a Helsper (2007) fod y defnydd a wneir o'r rhyngwrwyd yn lleihau yn unol ag incwm. Yn yr un modd, canfu Arolwg Cenedlaethol Cymru (2012) nad oedd gan gyfran uwch o gartrefi sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru fynediad at y rhyngwrwyd o gymharu â chartrefi sy'n byw mewn ardaloedd llai difreintiedig. At hynny, ymddengys fod lleoliad, o ran natur wledig yr ardal, a hefyd nodweddion defnyddwyr gwasanaethau yn bwysig i nodi pa mor debygol ydyw y caiff unigolion eu hallgáu'n ddigidol (Grŵp Diwygio Trethi Incymau Isel y Sefydliad Siartredig Trethiant, 2012a; Adam et al., 2011). Bydd rhai pobl na fyddant byth yn gallu hunanwasanaethu drwy sianeli digidol, felly, bydd angen sianeli amgen gan gynnwys gwasanaeth wyneb yn wyneb a theleffoni bob amser. Mae DWP (2012h, 2012m) wedi nodi y cynigir ffyrdd amgen o gael gfael ar wasanaethau i'r bobl hynny na allant gyflwyno hawliadau ar-lein (e.e. rhai hawlwydd y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a'r Taliad Annibyniaeth Bersonol), yn bennaf dros y ffôn ond hefyd wyneb yn wyneb ar gyfer hawlwydd yn ôl yr angen.

Yn ogystal â nodi hawlwydd na allant reoli eu proses hawlio Credyd Cynhwysol ar-lein neu nad ydynt yn fodlon gwneud hynny, mae'n hanfodol bod staff rheng flaen sy'n darparu'r Credyd Cynhwysol yn hyderus wrth ddefnyddio'r rhyngwrwyd ac y gallant arwain hawlwydd drwy'r broses o newid sianel (Finn a Tarr, 2013). Mae gwaith ymchwil a wnaed gan Adam et al. (2012) i DWP yn awgrymu bod gan staff y Ganolfan Byd Gwaith lefelau amrywiol o ddealltwriaeth a hyder o ran defnyddio cyfrifiaduron personol, gwasanaethau ar-lein ac amrywiaeth o lwyfannau digidol.

- **Y trydydd sector** – Mae'r trydydd sector hefyd yn gweld galw cynyddol am gyngor oherwydd y newidiadau diwygio lles. At hynny, mae'n disgwyl i'r galw am gymorth gynyddu wrth i unigolion golli incwm o fudd-daliadau. Er y byddai'r effaith yma ar sefydliadau trydydd sector eu hunain, gallai hyn roi pwysau ar y sector cyhoeddus, o leiaf, i ail-ganolbwyntio ei gymorth i'r trydydd sector.

⁷⁶ Ymatebodd 4,273 o unigolion i'r cwestiwn hwn yn yr arolwg a nododd 1,879 (tua 45 y cant) bod angen help/cymorth arnynt i ddefnyddio'r gwasanaeth budd-daliadau a threth ar-lein.

Cadarnhaol

- **Cyflogaeth** – Os bydd y diwygiadau lles yn llwyddo i helpu mwy o bobl i mewn i waith, gall hyn arwain at lai o dlodi (a'r gwelliannau cysylltiedig mewn iechyd ac addysg), llai o droseddu a mwy o gydlyniant cymunedol.
- **Cynhwysiant digidol** – Mae newid i system hawlio ar-lein ar gyfer y Credyd Cynhwysol yn cynnig cyfleoedd yn ogystal â heriau. Bydd yn chwarae rôl bwysig o ran ysgogi unigolion i ddefnyddio'r rhyngwrwyd am y tro cyntaf, a allai arwain wedyn at unigolion yn cydnabod y manteision sylweddol y gall y rhyngwrwyd eu cynnig a'u gwireddu, p'un a yw hynny'n golygu chwilio am swyddi a gwneud cais amdanynt ar-lein, cael gafael ar nwyddau a gwasanaethau rhatach, helpu i leihau ynysu neu ei gwneud yn haws cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus eraill.

Llywodraeth leol

Diwygiadau allweddol:

- Credyd Cynhwysol
- trefniadau olynol ar gyfer Budd-dal y Dreth Gyngor
- Budd-dal Tai.

Effeithiau posibl

Er bod y rhan fwyaf o'r effeithiau a drafodir yn y papur hwn yn rhai trawsbynciol am eu bod yn debygol o effeithio ar Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol, nodir effeithiau penodol sy'n debygol o gael eu teimlo gan yr olaf isod. Fel y nodwyd yn nadansoddiad Cam 1, disgwylir i'r effeithiau hyn ar lefel leol effeithio'n anghymesur ar Gyfoedd De Cymru ac ardaloedd yng nghanol dinasoedd Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe am fod ganddynt lefelau cymharol uchel o hawlwyrr budd-daliadau.

Effaith ddosbarthiadol – Mae'r rhan fwyaf o gyllid llywodraeth leol yn mynd drwy'r Grant Cynnal Refeniw, sydd â phwysoliad o 27 y cant yn seiliedig ar ffactorau sy'n adlewyrchu amddifadedd. Felly, bydd awdurdodau mwy difreintiedig yn cael cyfran uwch o gyfanswm y cyllid sy'n deillio o newid yn y dangosyddion amddifadedd. At hynny, ceir amrywiaeth o ddyraniadau adnoddau eraill (e.e. Grant Amddifadedd Disgyblion) sydd wedi'u targedu a'u llywio, nid yn unig gan amgylchiadau'r boblogaeth, ond hefyd y data o'r system budd-daliadau sy'n bwydo i mewn i Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Mae Crawford a Phillips (2012) hefyd yn nodi bod

gwariant llywodraeth leol ar y cyfan yn uwch mewn ardaloedd tlotach sy'n adlewyrchu lefelau angen uwch y rhai hynny sy'n byw mewn tlodi.

Negyddol

- Mae'n bosibl y bydd mwy o alw am wasanaethau gan gynnwys y canlynol.
 - **Hawliau lles a gwybodaeth** – Bydd angen rhoi gwybodaeth a chynghor ar y newidiadau i fudd-daliadau a'r effeithiau posibl ar y rhai sy'n eu cael. Bydd ALLau yn mynd i gostau yn gysylltiedig â newid deunyddiau cyhoeddusrwydd a ffurflenni hawlio a darparu hyfforddiant ar y newidiadau i swyddogion asesu. Mae gwaith ymchwil wedi dangos pa mor bwysig yw cyfathrebu clir i hawlwyr, yn enwedig pan gaiff sianeli darparu gwasanaethau eu newid yn sylweddol (Finn et al., 2008). Efallai y bydd nifer ychwanegol o ymholiadau ac apeliadau gan hawlwyr yr effeithir arnynt (yn arbennig mewn perthynas â Budd-dal Tai a'r trefniadau olynol i Fudd-dal y Dreth Gyngor). Mae arolwg gan Beatty et al. (2012), a gynhaliwyd mewn 19 o ardaloedd astudiaeth achos ym Mhrydain Fawr, gan gynnwys tair yng Nghymru, yn awgrymu bod ymwybyddiaeth o'r newidiadau i gymorth tai yn dal yn isel, gyda 93 y cant yn gwybod rhyw lawer neu ddim byd o gwbl am y newidiadau a fydd yn effeithio arnynt. Canfu Ipsos Mori a Chanolfan Caergrawnt dros Ymchwil i Dai a Chynllunio (2013) hefyd fod mwy na hanner (57 y cant) o'r cymdeithasau tai a arolygwyd ganddynt yn Lloegr (232) o'r farn nad oedd eu tenantiaid yn gwybod fawr ddim, os o gwbl, am y newidiadau i'r system Budd-daliadau. Fodd bynnag, mae bron pob ALI yng Nghymru yn cynnal prosiectau (a ariennir gan grant digartrefedd Llywodraeth Cymru), sydd â'r nod o leihau effaith y diwygiadau i'r system Budd-dal Tai. Wrth ddatblygu'r prosiectau hyn (a gafodd arian tua Awst–Medi 2011), cafodd ALLau eu hannog i'w teilwra i amgylchiadau lleol. Mae codi ymwybyddiaeth o'r diwygiadau lles ymhlith landlordiaid, tenantiaid a sefydliadau partner, drwy ddulliau amrywiol, gan gynnwys cyflwyniadau, gohebu'n uniongyrchol, taflenni a gwybodaeth ar y we yn elfen bwysig o'r dull gweithredu a fabwysiadwyd gan y rhan fwyaf o ALLau. Bydd angen darparu cymorth i hawlwyr er mwyn eu hannog i hawlio budd-daliadau a sicrhau eu bod yn hawlio uchafswm y budd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w cael. Fodd bynnag, gall problemau godi

yn glŷn â rhannu gwybodaeth a chael gafael ar wybodaeth DWP am fudd-daliadau yn sgil dileu'r rôl leol o ran budd-dali tai. Mae rhaglen rhannu data ALLau ar waith i leihau'r broblem hon i'r eithaf.

- **Cymorth gyda gweithdrefnau hawlio ar-lein newydd** – Bydd defnyddio system hawlio ar-lein yn elfen allweddol o'r Credyd Cynhwysol. Mae'n amlwg y bydd heriau o ran cael gafael ar wasanaethau band eang (a all roi pwysau ar lyfrgelloedd a siopau un stop lle y gellir defnyddio cyfrifiadur personol), anlythrennedd digidol, anghenion pobl hŷn a'r pwysau ar wasanaethau cynghori sy'n debygol o ddeillio o hynny.
- **Cyngor ar arian a dyledion** – O ganlyniad i ddileu budd-daliadau, neu eu torri, mae'n bosibl y bydd hawlwyry yn ei chael hi'n anodd ymdopi â chostau byw bob dydd ac efallai y bydd rhai yn gorfod troi at fenthycwyr cost uchel i fenthycu arian am na allant gael gafael ar gyllid fforddiadwy. Efallai y bydd hyn yn arwain wedyn at lefelau uwch o ddyled na ellir ei rheoli a mwy o alw am wasanaethau cynghori. Disgwylir i ALLau roi gwybodaeth i bobl ar incwm isel am sut i gael gafael ar wasanaethau ariannol (e.e. undebau credyd).
- **Cymorth cyllidebu** – Bydd yn rhaid i deuluoedd hefyd ddelio â'r her gyllidebu newydd sy'n gysylltiedig â thalu budd-daliadau yn uniongyrchol bob mis, y bwriedir iddo gyd-fynd yn agos â pha mor aml y telir cyflogau. Fodd bynnag, canfu Ogus et al. (2002), ymhlith y rhai ar incwm isel (incwm sy'n llai na £10,000), na thelir 49 y cant yn fisol. At hynny, mae gwaith ymchwil gan Trinh a Ginnis (2012) yn nodi mai dim ond 29 y cant o'r hawlwyry budd-daliadau a arolygwyd (neu 866 o ymatebwyr) sy'n cyllidebu'n fisol (2,986 o ymatebwyr) yn gwneud hynny'n fisol. Dywedodd 42 y cant o'r holl hawlwyry (neu 1,797 o ymatebwyr) y byddai taliadau misol yn ei gwneud hi'n anos iddynt gyllidebu a'r prif bryder a nodwyd oedd y byddent yn rhedeg allan o arian cyn diwedd y mis. Amlygir y pryderon hyn a chanlyniadau anfwriadol taliadau misol hefyd mewn gwaith ymchwil a wnaed gan Rotik a Perry (2011, 2012) ar gyfer DWP a Keohane a Shorthouse (2012). Fodd bynnag, mae DWP (2012h) yn nodi y bydd cymorth cyllidebu personol ar gael i hawlwyry a bydd yn cynnwys cymysgedd o wasanaethau cynghori ar gyllidebu (a ddarperir ar draws pob sianel) a chynhyrchion ariannol. Yn achos lleiafrif o hawlwyry, cynigir trefniadau taliadau amgen, megis taliadau mwy mynych, hefyd. Fodd bynnag, rhoddir terfyn amser ar y rhain.

- **Adennill dyledion a throi allan** – Mae'n bosibl y bydd costau casglu dyledion ALLau yn cynyddu, ynghyd â nifer yr achosion o droi allan. Mae'n bosibl y bydd y costau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â throi unigolion allan o'u cartrefi yn rhoi pwysau penodol ar gyllidebau adrannau tai.
- **Cymorth i helpu pobl yn ôl i'r gwaith** – Am mai un o brit nodau diwygiadau lles Llywodraeth y DU yw helpu pobl yn ôl i'r gwaith, mae'n debyg y bydd hyn yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau ymgynghori sy'n helpu unigolion i mewn i waith. Er enghraifft, efallai y bydd mwy o geisiadau am gyngor ar gynlluniau cyflogaeth a hyfforddiant (e.e. Twf Swyddi Cymru), a mathau eraill o gymorth sydd ar gael.
- **Craffu ar geisiadau am fudd-daliadau, eu hasesu a'u dilysu** (e.e. budd-daliadau 'pasbort') – Er enghraifft, gall newidiadau i feini prawf cymhwysedd ar gyfer Bathodyn Glas arwain at fwy o geisiadau i ALLau o dan feini prawf dewisol. O ran prydau ysgol am ddim, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu system gwirio cymhwysedd electronig ar-lein i bob ALL yng Nghymru. Bydd angen diwedddaru'r system hon er mwyn adlewyrchu'r meini prawf cymhwysedd newydd o dan y Credyd Cynhwysol. Bydd angen i ALLau fod yn gyfarwydd â'r newidiadau hyn. At hynny, er na fydd gan ALLau rôl o ran darparu'r Taliad Annibyniaeth Bersonol, efallai y bydd mwy o alw am wasanaethau asesu a gwasanaethau cymorth gan y rhai nad ydynt yn gymwys i gael cymorth mwyach.
- **Mwy o geisiadau am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn** – Er mwyn helpu i wneud iawn am ddiffygion rhwng rhent a Budd-dal Tai.
- Bydd y pwysau cyllidebol uchod yn golygu y bydd gan ALLau lai o arian i'w wario ar wasanaethau eraill a/neu efallai y bydd angen iddynt gynyddu cyfraddau megis y Dreth Gyngor er mwyn gwrthbwysu'r pwysau hyn. Fodd bynnag, gan ddibynnu ar sut y mae'r cynllun newydd i ddarparu cymorth gyda'r dreth gyngor yn gweithredu, gall fod cylch cythreulig lle y bydd cynnydd yn y dreth gyngor yn arwain at gynnydd yn y costau sy'n gysylltiedig â darparu cymorth gyda'r dreth gyngor. Mae hyn yn ychwanegol at faterion gwleidyddol sy'n deillio o gynnydd yn y dreth gyngor. O ganlyniad, mae hyn yn debygol o roi pwysau ariannol ar gyllidebau awdurdodau praeseptio yng Nghymru, gan gynnwys cynghorau cymuned ac awdurdodau'r heddlu. Yn achos yr heddlu, gallem weld lefelau uwch o drosedd ac anhrefn (er bod toriadau i gyllid y Swyddfa Gartref yn dylanwadu'r fwy ar ei gyllideb). Yn achos cynghorau cymuned, nid ystyrir y caiff y diwygiadau lles effaith sylweddol ar eu cyllidebau. Gallai'r effaith

fwyaf ddeillio o awdurdodau unedol yn tynnu gwasanaethau penodol yn ôl ac yn disgwyl i gynghorau cymuned lenwi'r bwlch. Am mai gwasanaethau dewisol fydd y rhain, megis torri gwair a gweithgareddau tebyg, mae'n anodd dweud ar hyn o bryd a fydd hyn yn cael unrhyw effeithiau sylweddol.

- Mae Llywodraeth y DU yn lleoleiddio'r cyfrifoldeb am helpu unigolion gyda'u treth gyngor. Mae hefyd yn torri cyllid Budd-dal y Dreth Gyngor 10 y cant ac yn ei drosglwyddo o Wariant a Reolir yn Flynyddol (AME) i Derfynau Gwariant Adrannol (DEL). Yn 2013–14, bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud iawn am y diffyg yn yr arian hwn, drwy roi £22 miliwn ychwanegol i ALLau fel y gallant roi cymorth er mwyn sicrhau bod yr unigolion hynny sy'n gymwys i gael cymorth gyda'r Dreth Gyngor yn parhau i gael yr holl arian y mae ganddynt hawl i'w gael. Un o'r effeithiau allweddol ar gyfer Llywodraeth Cymru ac ALLau fydd datblygu a gweinyddu cynllun olynol ar gyfer Budd-dal y Dreth Gyngor o 2014–15 ymlaen. Fel gyda'r Gronfa Gymdeithasol, efallai y bydd angen cynyddol am gymorth gyda'r dreth gyngor oherwydd yr hinsawdd economaidd a thoriadau lles ehangach. At hynny, fel y nodwyd gan Adam a Browne (2012), bydd ALLau yng Nghymru yn cael grantiau arian parod penodedig gan Lywodraeth Cymru o dan y system newydd sy'n disodli'r system bresennol lle mae eu gwariant gwirioneddol ar ddarparu cymorth gyda'r dreth gyngor yn cael ei ad-dalu. Bydd i hyn ddau oblygiad allweddol. Yn gyntaf, bydd ALLau yn wynebu'r risg ariannol sy'n gysylltiedig â galw annisgwyl o uchel (neu isel), a fyddai'n golygu eu bod yn fwy dibynnol ar eu cronfeydd wrth gefn i ddelio â hapddigwyddiadau. Yn ail, bydd hefyd yn rhoi mwy o gymhelliant iddynt leihau cost ad-daliadau. Gallai hyn arwain at effeithiau dymunol megis hyrwyddo cyflogaeth a thwff yn yr economi leol ac atgyfnerthu cymhellion i leihau twyll a gwallau. Fodd bynnag, gallai hefyd olygu bod ganddynt lai o gymhelliant i gynyddu cyfraddau'r dreth gyngor a buddsoddi mewn datblygiadau tai gwerth isel, yn atal teuluoedd incwm isel rhag byw yn yr ardal a/neu'n gwneud llai i annog unigolion i fanteisio ar y cymorth sydd ar gael.
- Bydd ALLau hefyd yn talu cost addasiadau i systemau TG er mwyn adlewyrchu meini prawf newydd ar gyfer hawlio budd-daliadau a chynlluniau datganoledig (e.e. trefniadau olynol i Fudd-dal y Dreth Gyngor), y bydd angen eu gwneud o fewn amserlenni byr. Bydd hefyd angen iddynt ystyried darparu hyfforddiant er mwyn sicrhau bod staff yn llawn ddeall y newidiadau i fudd-daliadau

a'r feddalwedd newydd. At hynny, bydd costau yn gysylltiedig â chyhoeddi'r cynllun olynol i Fudd-dal y Dreth Gyngor.

- Bydd ALLau yn wynebu canlyniadau gweithredol uniongyrchol. Er enghraifft, bydd ALLau yn rhoi'r gorau i dalu Budd-dal Tai pan fydd y Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno llawn erbyn 2017. Mae hyn yn debygol o arwain at doriadau staff mewn timau budd-daliadau sydd wedi gweinyddu Budd-dal Tai yn flaenorol neu rôl newydd i'r timau hynny. Mae Unsain (2010) yn amcangyfrif y bydd hyn yn effeithio ar tua 20,000 o staff Budd-dal Tai sy'n cyflawni rolau gweinyddol, rolau gwrth-dwyll a rolau eraill yn y DU. Fodd bynnag, nes y caiff y Credyd Cynhwysol ei gyflwyno, bydd ALLau yn ymgymryd â'r rôl newydd o orfodi'r Cap ar Fudd-daliadau Cartrefi drwy ddiidyniadau o'r Budd-dal Tai. Ar hyn o bryd, nid yw'n glir pa rôl fydd gan ALLau o ran gweinyddu'r Credyd Cynhwysol, er y disgwylir y bydd ganddynt rôl i'w chwarae o hyd o ran darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb i'r hawlwyd hynny na allant reoli eu proses hawlio Credyd Cynhwysol yn electronig. Fodd bynnag, mae Unsain (2010) wedi lleisio pryderon y bydd rôl lai, o bosibl, ALLau yn cael effaith negyddol ar ddefnyddwyr gwasanaethau, am ei bod yn bosibl na fydd staff profiadol ALLau sydd â gwybodaeth leol ac arbenigedd yn darparu gwasanaethau rheng flaen mwyach.
- Mae'n bosibl y bydd ardaloedd lle mae rhenti'n isel yn wynebu pwysau cynyddol ar wasanaethau a chyllidebau os bydd nifer sylweddol o bobl yn symud i'r fath ardaloedd, yn enwedig o ganlyniad i doriadau i fudd-daliadau tai a'r cynllun olynol i Fudd-dal y Dreth Gyngor.
- Bydd y broses o drosglwyddo i'r Credyd Cynhwysol yn effeithio ar wasanaethau 'pasbort' a ddarperir gan ALLau am fod yr hawl i gael budd-daliadau etifeddol (e.e. Budd-dal Tai) yn cael ei defnyddio yn gyffredinol fel 'baner' i ddangos bod unigolyn yn gymwys i gael budd-daliadau a weinyddir yn lleol.
- Gall colli incwm arwain at nifer uwch o gartrefi sy'n gymwys i gael cymorth ariannol gan ALLau, mewn meysydd megis gofal cymdeithasol, ac ôl-ddyledion mewn meysydd megis y dreth gyngor. Bydd hyn yn rhoi mwy o bwysau ar gyllidebau ALLau am y caiff grantiau Llywodraeth Ganolog ar gyfer cymorth gyda'r dreth gyngor eu pennu ar ddechrau'r flwyddyn ac ni fyddant yn cael eu harwain gan y galw mwyach.

- Effeithir ar Setliad Cyllid Llywodraeth Leol, sy'n seiliedig ar fesurau amddifadedd wedi'u cysylltu â budd-daliadau etifeddol a 'phasbort' (e.e. prydau ysgol am ddim). Felly, bydd cyflwyno'r Credyd Cynhwysol yn cael effeithiau sylweddol ar y data sy'n bwydo i mewn i'r model setliad hwn o ran ei strwythur a nifer yr hawlwr.

Cadarnhaol

- Mae DWP, Cymdeithas Llywodraeth Leol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Chonfensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban (COSLA) wrthi'n cynnal 12 cynllun peilot a arweinir gan ALLau (gan gynnwys dau yng Nghymru – sef Casnewydd a Chaerffili). Bydd y rhain yn helpu i lywio'r broses o ddatblygu'r Credyd Cynhwysol a'r ffordd y gall ALLau gyfrannu at y model cyflwyno wyneb yn wyneb a fydd yn ategu'r system ddigidol safonol a dylanwadu arno. Bydd y cynlluniau peilot hefyd yn helpu i nodi a datrys unrhyw broblemau y deuir ar eu traws cyn i'r Credyd Cynhwysol gael ei gyflwyno'n genedlaethol. Cynhelir y cynlluniau peilot o ddiwedd 2012 hyd at 2013.
- Fel y nodwyd uchod, o dan y cynllun sy'n disodli Budd-dal y Dreth Gyngor, bydd ALLau yng Nghymru yn cael grantiau arian parod penodedig gan Lywodraeth Cymru, yn lle'r system bresennol lle mae eu gwariant gwirioneddol ar ddarparu cymorth gyda'r dreth gyngor yn cael ei ad-dalu. Gallai hyn gael effeithiau dymunol megis hyrwyddo cyflogaeth a thwff yn yr economi leol a bydd yn atgyfnerthu cymhellion i leihau twyll a gwallau.

Casgliadau a'r camau nesaf

Casgliadau

Mae'r adroddiad hwn wedi canolbwyntio ar amcangyfrif effaith uniongyrchol y prif ddiwygiadau lles ar incwm cartrefi yng Nghymru ac wedi nodi effeithiau economaidd a chymdeithasol ehangach posibl a goblygiadau i wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae gweddill gwaith ymchwil Cam 2, a wnaed gan Adam a Phillips (2013), wedi canolbwyntio ar roi dadansoddiad ex-ante o effaith y diwygiadau lles ar y cyflenwad o lafur yng Nghymru.

Er gwaethaf effeithiau'r diwygiadau lles sy'n weddill, nodir y newidiadau i fudd-daliadau/credydau treth yr amcangyfrifir y byddant yn cael yr effaith negyddol uniongyrchol fwyaf ar incwm (ar lefel cartref ac ar lefel Cymru) a'r nifer o unigolion yr effeithir arnynt isod.

Ar lefel Cymru, mae'r diwygiadau lles yr amcangyfrifir y byddant yn arwain at y colledion incwm mwyaf yn cynnwys:

- y newid i uwchraddio'r rhan fwyaf o fudd-daliadau drwy'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu
- y cap o 1 y cant ar y rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gweithio, rhai elfennau o gredydau treth a Budd-dal Plant
- colli'r hawl i gael Lwfans Byw i'r Anabl
- y polisi terfyn amser ar gyfer Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cyfrannol.

Ar lefel unigolyn/cartrefi, mae'r colledion wythnosol mwyaf yn debygol o gael eu hachosi gan y canlynol:

- colli'r hawl i gael Lwfans Byw i'r Anabl
- cynyddu'r gofyniad oriau gwaith ar gyfer Credyd Treth Gwaith i barau â phlant
- y Cap ar Fudd-daliadau Cartrefi
- y polisi terfyn amser ar gyfer Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cyfrannol.

At hynny, mae'n debyg y bydd newidiadau polisi lluosog yn effeithio ar rai unigolion sy'n hawlio budd-daliadau neu'n cael credydau treth.

Nodir isod y diwygiadau y disgwylir iddynt effeithio ar gryn nifer o unigolion sy'n hawlio budd-daliadau/cael credydau treth:

- rhewi cyfraddau Budd-dal Plant
- y newid i uwchraddio'r rhan fwyaf o fudd-daliadau drwy'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu

- y cap o 1 y cant ar y rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gweithio, rhai elfennau o gredydau treth a Budd-dal Plant
- y Credyd Cynhwysol.

O ran amseru, mae rhai o'r newidiadau mewn polisi a nodwyd uchod eisoes wedi'u cyflwyno. Er enghraifft, newidiwyd y dull mynegeo i ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr a chafodd cyfraddau Budd-dal Plant eu rhewi o 2011–12 a chafodd y polisi terfyn amser ar gyfer Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cyfrannol a'r polisi i gynyddu'r gofyniad oriau gwaith ar gyfer Credyd Treth Gwaith i barau â phlant eu rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn ddilynol, sef 2012–13. Bydd gweddill y newidiadau yn effeithio ar gartrefi yng Nghymru o 2013–14 (h.y. y cap o 1 y cant ar y rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gweithio, rhai elfennau o gredydau treth a Budd-dal Plant; y cap ar Fudd-daliadau Cartrefi; a'r Credyd Cynhwysol).

Er ei fod yn cael ei wrthbwysu i raddau helaeth gan y colledion incwm a amcangyfrifir o'r toriadau lles, yn gyffredinol disgwylir i'r Credyd Cynhwysol arwain at gynnydd bach net yn yr arian a roddir i unigolion cymwys.

Mae'r dadansoddiad yn Adran 1 o'r adroddiad hwn yn rhoi rhyw syniad o nifer yr hawlwyd a allai gael eu heffeithio gan **bob un** o'r prif ddiwygiadau lles ac amcangyfrif o'r colledion incwm uniongyrchol yng Nghymru. Ni fwriedir i'r dadansoddiad nodi **cyfanswm** y golled i incwm cartrefi yng Nghymru o ganlyniad i effaith gronol y diwygiadau lles. Fodd bynnag, fel rhan o waith ymchwil Cam 2 a gomisiynwyd yn allanol, mae Adam a Phillips (2013) wedi asesu effaith gyfun y rhan fwyaf o'r diwygiadau lles a gyhoeddwyd cyn datganiad yr Hydref ym mis Rhagfyr ar incwm cartrefi yng Nghymru ac maent yn amcangyfrif y caiff tua £590 miliwn o incwm ei golli'n uniongyrchol yn 2014–15. Mae hyn yn cyfateb i tua £7.26 fesul teulu bob wythnos ar gyfartaledd, sef tua 1.5 y cant o'u hincwm net. Cartrefi ag incwm isel i ganolig a theuluoedd nad ydynt yn gweithio â phlant sy'n debygol o weld y colledion cyfartalog mwyaf. Caiff pensiynwyr a theuluoedd heb blant lle y mae pob oedolyn yn gweithio eu diogelu i raddau helaeth rhag y toriadau lles. At hynny, mae gwaith dadansoddi a wnaed gan Crawford, Joyce a Phillips (2012) yn awgrymu y bydd y toriadau i fudd-daliadau yn cael mwy o effaith ar Gymru na'r DU yn gyffredinol am fod mwy o bobl yng Nghymru yn dibynnu ar fudd-daliadau lles.

Yn achos y rhai y bydd y diwygiadau lles yn effeithio ar eu hincwm, mae'n bosibl y gwelir newidiadau yn eu patrymau gwario wedyn ac effeithiau cynyddol ehangach ar yr economi. Er enghraifft, mae llai o arian ym mhocedi unigolion yn golygu eu bod yn prynu llai o nwyddau a gwasanaethau a bod y cwmnïau sy'n cynhyrchu'r nwyddau a'r gwasanaethau hynny yn cyflogi llai o bobl, sy'n golygu y bydd gan yr unigolion hynny lai o arian i'w wario, ac yn y blaen. Mae lluosyddion cyllidol yn mesur effaith byrdymor newid mewn gwariant ar fudd-daliadau a chredydau treth ar faint yr economi. Mae Adam a Phillips (2013) yn nodi mai lluosydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer newidiadau mewn gwariant ar les (sy'n seiliedig ar faint toriadau llywodraeth glymblaid y DU, h.y. 1 y cant o CMC) yw 0.6, er bod rhywfaint o dystiolaeth yn awgrymu y gall effeithiau lluosydd fod yn fwy yn ystod cyfnodau o wendid economaidd. Fodd bynnag, os bydd y diwygiadau lles yn llwyddo i gynyddu cyflogaeth, yn yr hirdymor, efallai y bydd hynny'n cynyddu allbwn economaidd.

Mae'n bwysig ystyried y cyfryw newidiadau mewn ymddygiad ag a all ddigwydd mewn ymateb i'r diwygiadau lles, am y bydd yr effaith gyffredinol ar incwm yn dibynnu ar y penderfyniadau hynny. Mae Adam a Phillips (2013) wedi dadansoddi effeithiau ar ddewisiadau unigolion o ran a ddylent weithio a faint o waith y dylent ei wneud. Mae canlyniadau eu gwaith modelu, a wnaed ar lefel Cymru gyfan, yn awgrymu y bydd effaith y newidiadau i gymhellion ariannol i weithio ar gyflogaeth ac oriau gwaith yn eithaf bach. Eu hamcangyfrif canolog yw y bydd nifer y swyddi yn cynyddu tua 5,000 (neu 0.3 pwynt canran), y bydd yr oriau gwaith yn eu crynswth yn cynyddu tua 1 y cant ac y bydd cyfanswm yr enillion yn cynyddu £149 miliwn (neu 0.5 y cant). Fodd bynnag, mae cryn dipyn o ansicrwydd o hyd ynghylch union effaith y diwygiadau ar gyflogaeth, oriau gwaith ac enillion yng Nghymru yn gyffredinol am fod nifer o agweddau sy'n anodd eu modelu (e.e. newidiadau i gymhellion anariannol i weithio megis y system symlach sy'n gysylltiedig â'r Credyd Cynhwysol a'r ffaith bod mwy o bobl bellach yn gorfod bodloni'r gofynion o ran chwilio am waith er mwyn cael budd-daliadau a hefyd galw gwan am lafur).

Er y gall cynnydd mewn cyflogaeth gael rhai effeithiau gwrthbwysu cadarnhaol, mae'n amlwg y bydd newidiadau i'r system budd-daliadau yn lleihau incwm gwario cartrefi yn sylweddol yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, ni fyddant yn effeithio ar bob math o gartref i'r un graddau: bydd cartrefi â phlant, ac o leiaf nes y bydd y Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno i raddau helaeth, y cartrefi hynny ar waelod y dosbarthiad incwm, yn gweld

lleihad canrannol mwy yn eu hincwm o ganlyniad i ddiwygiadau na mathau eraill o gartrefi. Mae'r rhain yn grwpiau sydd eisoes yn fwy tebygol o ddibynnu ar wasanaethau cyhoeddus (e.e. ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol) ac efallai y bydd y fath wasanaethau yn dod yn fwyfwy pwysig iddynt os bydd eu hincwm yn lleihau. Er nad yw diwygio budd-daliadau lles yn fater datganoledig, gall rhai mesurau effeithio ar wasanaethau datganoledig a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ac ALLau.

Mae'n anodd mesur yr effeithiau ar y galw am wasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru, yn rhannol am fod llawer o ansicrwydd ynghylch y fath effeithiau; fodd bynnag, cynhaliwyd asesiad ansoddol yn nodi'r effeithiau posibl ar y galw.

Mae'r effeithiau yn debygol o fod yn rhai eang eu cwmpas ac mae effeithiau posibl wedi'u nodi ar gyfer pob un o'r meysydd gwasanaeth cyhoeddus a ddadansoddwyd. Mae'r rhain yn cynnwys: iechyd, gofal cymdeithasol, tai, addysg a hyfforddiant, datblygu economaidd, cymunedau a chyfiawnder cymdeithasol a llywodraeth leol. Nodwyd effeithiau negyddol a chadarnhaol; fodd bynnag, ymddengys fod yr effeithiau negyddol yn drech na'r rhai cadarnhaol.

Mae effeithiau negyddol trawsbynciol yn debygol o gynnwys y canlynol: lleihau neu golli incwm o fudd-daliadau (a/neu fudd-daliadau 'pasbort') oherwydd meini prawf cymhwysedd llymach, asesiadau meddygol llymach, gofynion amodoldeb a chosbau llymach; apeliadau ac ailasesiadau; problemau cyllidebu sy'n gysylltiedig â budd-daliadau misol, uniongyrchol; lefelau uwch o dlodi; hawl wyr yn symud i dai a allai fod o ansawdd gwaeth ac yn orlawn; llai o gymorth ariannol ar gael ar adeg pan fydd y galw am gymorth yn cynyddu (e.e. y Gronfa Gymdeithasol a'r Gronfa Byw'n Annibynnol); trosedd; ymddygiad gwrthgymdeithasol; cam-drin domestig; problemau sy'n gysylltiedig â hawlio budd-daliadau ar-lein; a galw cynyddol am gyngor ar ddyledion/lles. Mae effeithiau cadarnhaol yn ymwneud yn bennaf â gwell cymhellion i weithio a lefelau uwch o gyflogaeth ac enillion.

Mae canfyddiadau gwaith ymchwil Cam 2 wedi adeiladu ar y rhai a nodwyd yng Ngham 1. Defnyddir y ddwy set o ganfyddiadau gan Lywodraeth Cymru i helpu i dargedu ei hymdrechion i liniaru (lle y bo'n bosibl) unrhyw oblygiadau negyddol sydd ynghlwm wrth y diwygiadau lles a pharhau i flaenoriaethu adnoddau i leihau tlodi yng Nghymru. Hefyd, bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio unrhyw dystiolaeth sy'n dod ar gael ar effeithiau cynnar y diwygiadau hynny a roddwyd ar waith eisoes neu y disgwylir iddynt gael eu rhoi ar waith yn fuan.

Y camau nesaf

Ar gyfer cam nesaf y rhaglen ymchwil (a fydd yn cychwyn ym mis Chwefror 2013) mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud y canlynol:

- dadansoddi'r dystiolaeth ar effeithiau posibl y diwygiadau lles ar y rhai â nodweddion gwarchodedig (e.e. rhyw, pobl o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl ac oedran) yng Nghymru. Dyddiad cyhoeddi disgwylidig: Gorffennaf 2013
- asesu ymhellach effaith y diwygiadau lles ar lefel ALL. Dyddiad cyhoeddi disgwylidig: Ionawr 2014
- amcangyfrif o effaith diwygiadau lles penodol yng Nghymru, e.e. y Credyd Cynhwysol a'r diwygiadau i'r system Budd-dal Tai. Dyddiad cyhoeddi disgwylidig: Mehefin 2014 (y Credyd Cynhwysol); Hydref 2014 (Rhaglen Waith). Ystyrir amserlenni ar gyfer yr ymchwil i effaith y diwygiadau i'r system Budd-dal Tai yn nes at yr amser.

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Chwefror 2013

Cyfeiriadau

- Adam, D, Campbell-Hall, V, de Hoyos, M, Green, AE, a Thomas, A (2011) *Increasing digital channel use amongst digitally excluded Jobcentre Plus claimants*. Adroddiad Ymchwil DWP Rhif 776.
- Adam, S, Bozio, A, Emmerson, C, Greenberg, D, a Knight, G (2008) *A cost-benefit analysis of Pathways to Work for new and repeat incapacity benefit claimants*, Adroddiad Ymchwil DWP Rhif 498.
- Adam, S, a Browne, J (2012) *Reforming Council Tax Benefit: Options for Wales* www.ifs.org.uk/publications/6204
- Adam, S, a Phillips, D (2013) *Dadansoddiad ex-ante o effeithiau diwygiadau lles Llywodraeth y DU ar y cyflenwad llafur yng Nghymru*. Adroddiad i Lywodraeth Cymru. www.ifs.org.uk/publications/6585
- Auerbach, A, a Gorodnichenko, Y (2012) 'Fiscal Multipliers in Recession and Expansion', Papur i Gynhadledd NBER.
- Bachmann, R, a Sims, E (2011) 'Confidence and the Transmission of Government Spending Shocks', Mimeo.
- Barr, B, Taylor-Robinson, D, Scott-Samuel, A, McKee, M, a Stuckler, D (2012). *Suicides associated with the 2008-10 economic recession in England: time trend analysis*. British Medical Journal.
- Bartik, T (2002) 'Instrumental Variable Estimates of the Labor Market Spillover Effects of Welfare Reform', *Upjohn Institute Working Paper No. 02-78*, Upjohn Institute for Employment Research.
- Bashir, N, Crisp, R, Gore, T, Reeve, K, a Robinson, D (2011) *Families and work: Revisiting barriers to employment*. Adroddiad Ymchwil DWP 729.
- Bauld, L, et al. (2010) *Problem drug users' experiences of employment and the benefit system*. Adroddiad i DWP.
- Beatty, C, Cole, I, Kemp, P, Marshall, B, Powell, R, a Wilson, I (2012) *Monitoring the impact of changes to the Local Housing Allowance system of housing benefit: Summary of early findings*. Adroddiad ymchwil i DWP.
- Blane, D and Watt, G (2012) *GPs at the Deep End – GP experience of the impact of austerity on patients and general practices in very deprived areas*. Adroddiad a luniwyd ar ran Grŵp Llywio'r Deep End.
- Blundell, R, Costa Dias, M, Meghir, C, a van Reenen, J (2004) 'Evaluating the Employment Impact of a Mandatory Job Search Program', *Journal of the European Economic Association*, Cyf.2, Rhif 4, tudalennau 569–606.

Bramley, G, Evans, M, a Noble, M, (2005) *Mainstream Public Services and their Impact on Neighbourhood Deprivation*. Yn Uned Adnewyddu Cymdogaethau. Llundain: Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog.

Brewer, M, Browne, J, Chowdry, H, a Crawford, C (2009) *The lone parent pilots after 24 – 36 months: the final impact assessment of In-Work Credit, Work Search Premium, Extended Schools Childcare, Quarterly Work Focused Interviews and New Deal Plus for Lone Parents*. Adroddiad Ymchwil DWP 606.

Brewer, M, Browne, J, a Joyce, R (2011) *Child and working-age poverty from 2010 to 2020* www.ifs.org.uk/publications/5711

Brown, D, et al. (2012a) *Childhood residential mobility and health in late adolescence and adulthood: findings from the West of Scotland Twenty-07 Study*.

Brown, V, et al. (2012b) *Evaluation of the Free School Meals Pilot – Impact report*. Adroddiad ymchwil i'r Adran Addysg.

CASE (2012) *The Impact of Welfare Reform on Housing* (Consortium of Associations in the South East).

Cassen, R, a Kingdon, G (2007) *Tackling low educational achievement*. Sefydliad Joseph Rowntree.

Cebulla, A, a Flore, G, gyda Greenberg, D (2008) *The New Deal for Lone Parents, Lone Parent Work Focused Interviews and Working Families' Tax Credit: A review of impacts*. Adroddiad Ymchwil DWP 484.

Clarke, A (2012) *Under-occupation and Housing Benefit Reform: Four local case studies* (Housing Futures Network).

Coleman, K, et al. (2007) *Homicides, Firearms offences and Intimate Violence 2005–2006* (Cyfrol Ychwanegol i'r adroddiad Trosedd yng Nghymru a Lloegr 2005–2006). Y Swyddfa Gartref.

Conley, D (2001) *Capital for college: parental assets and postsecondary schooling* in *Sociology of Education*, 74: 59–72.

Corden, A, Sainsbury, R, Irvine, A, a Clarke, S (2010) *The impact of Disability Living Allowance and Attendance Allowance: findings from exploratory research*. Adroddiad Ymchwil DWP Rhif 649.

Crawford, R, a Phillips, D (2012) *Local government spending: where is the axe falling?* www.ifs.org.uk/publications/6054

Crawford, R, Joyce, R, a Phillips, D (2012) *Local government expenditure in Wales: recent trends and future pressures.* www.ifs.org.uk/publications/6359

CThEM (2012) Child Benefit: Income Tax Charge for Those on Higher Incomes.

Cyddfederasiwn Diwydiant Prydain (2012) Written evidence to the Work and Pensions Select Committee for its inquiry into 'progress towards the implementation of Universal Credit'.

Cymdeithas y Landlordiaid Preswyl (2012) Payment procedures for tenants claiming Universal Credit – bad new for landlords, Mehefin 2012.

Dorsett R, Rolfe, H, a George, A (2011) *The Jobseeker's Allowance Skills Conditionality Pilot*. Adroddiad ymchwil i DWP.

Dutton, WH, a Helsper, EJ (2007) *Oxford Internet Survey 2007 Report: The Internet in Britain*. Sefydliad Rhynggrwyd Rhydychen, Prifysgol Rhydychen.

DWP (2010a) *Impacts of Housing Benefit Proposals: Changes to the Local Housing Allowance to be introduced in 2011–12*.

DWP (2010b) Housing Benefit: Changes to the Local Housing Allowance Arrangements – Impact Assessment.

DWP (2011a) *Housing Benefit equality impact assessment: Increasing the Shared Accommodation Rate age threshold to 35*.

DWP (2011b) Time limit Contributory Employment and Support Allowance to one year for those in the Work-Related Activity Group – Impact Assessment.

DWP (2011c) Conditionality Measures in the 2011 Welfare Reform Bill – Impact Assessment.

DWP (2011d) Abolition of concessionary Employment and Support Allowance (ESA) 'youth' National Insurance qualification conditions – Impact Assessment.

DWP (2011e) Welfare Reform Bill Universal Credit – Equality impact assessment.

DWP (2012a) Housing Benefit – uprating local housing allowance rates by CPI from April 2013 – Impact Assessment.

DWP (2012b) *GB households and individuals in receipt of a letter notifying them they may be affected by the benefit cap in April 2013*. Dadansoddiad ad hoc.

DWP (2012c) Ad hoc statistics on early feedback from claimants who are at risk of having their benefit capped in April 2013. Numbers indicating they had entered employment or wanted to seek employment support, May and June 2012.

DWP (2012d) Housing Benefit: Under occupation of social housing – Impact Assessment.

DWP (2012e) Benefit Cap (Housing Benefit) Regulations 2012: Impact Assessment for the benefit cap.

DWP (2012f) Personal Independence Payment: Reassessment and Impacts.

DWP (2012g) Disability Living Allowance Reform – Impact Assessment.

DWP (2012h) Universal Credit – Impact Assessment.

DWP (2012i) *Work Programme – analysis of early entrants*. Dadansoddiad ad hoc. Gorffennaf 2012.

DWP (2012j) *Employment and Support Allowance: Appeal Outcomes (Tables)*, Table 1: Outcomes of initial functional assessments and appeals on Fit for Work decisions by region. Bwletin Ystadegau Swyddogol.

DWP (2012k) *Employment and Support Allowance: Outcomes of Work Capability Assessments, Great Britain – new claims*. Bwletin Ystadegol Swyddogol Chwarterol, Gorffennaf 2012.

DWP (2012l) Universal Credit: Self Employment. Cyflwyniad a roddwyd gan DWP yn Nigwyddiad Rhanddeiliaid y Credyd Cynhwysol, 13 Gorffennaf 2012.

DWP (2012m) *Universal Credit, Personal Independence Payment and Working-age Benefits (Claims and Payments) Draft Regulations 2012, Making a claim for Universal Credit*.

DWP (2012n) *The Universal Credit Draft Regulations 2012. Draft Statutory Instruments*.

DWP (2012o) Explanatory Memorandum for the Social Security Advisory Committee Universal Regulations 2012, June 2012.

DWP (2013a) Welfare Benefits Up-rating Bill – Impact Assessment.

DWP (2013b) *Income Support Lone Parents by Region and Age of Youngest Child*. Ad hoc analysis.

DWP a'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (2010c) Skills Conditionality – public consultation.

Finn, D, Mason, D, Rahim, N, a Casebourne, J (2008) *Delivering benefits, tax credit and employment services: problems for disadvantaged users and potential solutions*. Sefydliad Joseph Rowntree.

Finn, D, a Tarr, A (2012) *Implementing Universal Credit: Will the reforms improve the service for users?* Adroddiad i Sefydliad Joseph Rowntree.

Foley, CF (2009) *Welfare Payments and Crime*. Papur Gwaith CSPRD.

Golley, R, Baines, E, Bassett, P, Wood, L, Pearce, J, a Nelson, M (2010). 'School lunch and learning behaviour in primary schools: an intervention study' in *European Journal of Clinical Nutrition* 64: 1280–8.

Goode, J, Lister, R, a Callender, C (1998) 'Gender inequalities and income distribution in families on benefits – A suitable case for social work intervention' yn *Issues in Social Work Education*, Cyf. 18, Rhif 2, tudalennau 97–102.

Goode, J, Lister, R, a Callender, C. (1998) 'Men's work, women's work and welfare' in *Poverty*, Cyf.100, tudalennau 14–17.

Goode, J, Lister, R, a Callender, C (1998) *Purse or wallet? Gender inequalities and income distribution within families on benefits*. Grantham, Policy Studies Institute.

Gould, ED, Weinberg, BA, a Mustard, DB (2002) 'Crime rates and local labor market opportunities in the United States: 1979–1997' yn *The Review of Economics and Statistics* 84, 45–61.

Griggs, J, a Evans, M (2010) *A Review of Benefit Sanctions*. Sefydliad Joseph Rowntree.

Groucutt, K, a Smith, N (2011) 'What will Universal Credit mean for working families?' yn *Working Brief* Rhif 255, tudalennau 12–13.

Grŵp Diwygio Trethi Incymau Isel y Sefydliad Siartredig Trethiant (2012a) Digital Exclusion.

Grŵp Diwygio Trethi Incymau Isel y Sefydliad Siartredig Trethiant (2012b) Universal Credit and related regulations. LITRG response to SSAC call for evidence of 15 June 2012 and further call for evidence of 6 July 2012.

Harper C, a Wood L (2009). *Please Sir? Can we have some more? Lessons from Free School Meal initiatives*. School Food Trust, Sheffield.

Harrington, M (2010) *An Independent Review of the Work Capability Assessment*.

Harrington, M (2011) *An Independent Review of the Work Capability Assessment – year two*.

Harrington, M (2012) *An Independent Review of the Work Capability Assessment – year three*.

Hastings et al. (2012) *Serving deprived communities in a recession*. Adroddiad ar gyfer Sefydliad Joseph Rowntree.

Hope, T, Bryan, J, Trickett, A, ac Osborn, D (2001) 'The phenomena of multiple victimization' yn *British Journal of Criminology* 41, 595–617.

Horton, T, a Reed, H, (2010) *Where the money goes: How we benefit from public services*.

Housing Futures Network: *The impact of cutting housing benefit on underoccupiers in social housing*.

Hutchings, HA et al. (2012). *Do children who move frequently have poorer educational and health outcomes?* Adroddiad terfynol i Lywodraeth Cymru.

Ipsos Mori, a Chanolfan Caergrawnt dros Ymchwili i Dai a Chynllunio (2013) *Impact of welfare reform on housing associations – 2012 Baseline report*. Adroddiad i'r Ffederasiwn Tai Cenedlaethol.

Joyce, R, a Levell, P (2011) *The impact in 2012–13 of the change to indexation policy*. Adroddiad i'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid.
www.ifs.org.uk/publications/5713

Karagiannaki, E (2012) *The effect of parental wealth on children's outcomes in early adulthood*. Centre for Analysis of Social Exclusion, Ysgol Economeg Llundain.

Kemp, P, et al. (2012) *Direct Payments Demonstration Projects: Findings from a baseline survey of tenants in five project areas in England and Wales*. Adroddiad ymchwil i DWP.

Keohane, N, a Shorthouse, R (2012) *Sink or Swim? The impact of the Universal Credit*. Social Market Foundation.

Lee, A, Crombie, I, Smith, W, Tunstall-Pedoe, H (2006) 'Alcohol consumption and employment among men: the Scottish Heart Health Study' yn *Addiction* 85, 1165–1170.

Levitt, SD (2001) 'Alternative strategies for identifying the link between unemployment and crime' yn *Journal of Quantitative Criminology* 17.

Loke, V, a Sacco, P (2010). 'Changes in Parental Assets and Children's educational Outcomes', *Journal of Social Policy*, 40(2):1–18.

London Economics Wales (2011a) *Impacts of DLA on working age in Wales*. Adroddiad terfynol i Lywodraeth Cymru.

London Economics Wales (2011b) *Impacts of AA and DLA on older people in Wales*. Adroddiad terfynol i Lywodraeth Cymru.

Lovenheim, FM (2011), 'The Effect of Liquid Housing Wealth on College Enrollment' yn *Journal of Labor Economics*, 29:4 (Hydref 2011):741–771.

Lubotsky, D (2004) 'The Labor Market Effects of Welfare Reform', *Industrial and Labor Relations Review*, Cyf.57, Rhif 2, tudalennau 249–266.

Llywodraeth Cymru (2011) *Y Rhaglen Lywodraethu*.

Llywodraeth Cymru (2012) *Arolwg Cenedlaethol Cymru*.

Llywodraeth Cymru (2012) *Dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru – dadansoddiad Cam 1*.

Machin, S, a Marie, O (2006) *Crime and Benefit Sanctions*. Portuguese Economic Journal Cyfrol 5(2), tudalennau 149–165 (Awst 2006).

Machin, S, a Meghir, C (2004) 'Crime and economic incentives' yn *Journal of Human Resources* 39, 958–979.

Marmot, M (2010) *Fair Society, Healthy Lives: A Strategic Review of Health Inequalities in England Post-2010* (Adolygiad Marmot).

- McNally, S, a Machin, S (2006) Education and Child Poverty: A Literature Review. Sefydliad Joseph Rowntree.
- Middlemas, J (2006) Jobseekers Allowance intervention pilots quantitative evaluation. Adroddiad Ymchwil DWP 382.
- Montoya, I, ac Atkinson, J (2002) 'A synthesis of welfare reform policy and its impact on substance users' yn *Journal of Drug and Alcohol Abuse*, 28, tudalennau 133–46.
- Morris, J, Cook, D, Shaper, A (1992) 'Non-employment and changes in smoking, drinking and body weight' yn *British Medical Journal* 304, tudalennau 536–541.
- O'Dea, C, a Preston, I (2010) *The Distributional Impact of Public Spending in the UK* www.ifs.org.uk/publications/6076
- Ogus, AI, Barendt, EM, a Wikeley, N (golygyddion) (2002) *The Law of Social Security*. Pumed argraffiad, y DU, Lexis Nexis.
- Orr, AJ (2003), 'Black–white differences in achievement: the importance of wealth' yn *Sociology of Education*, 76, tudalennau 281–304.
- Peck, D, Plant, M (1986) 'Unemployment and illegal drug use: concordat evidence from a prospective study and national trends' yn *British Medical Journal* 293, 929–932.
- Peters, M, Joyce, L (2006) A Review of the Sanctions Regime: Summary Research Findings. Adroddiad Ymchwil DWP 313.
- Purdon, S, a Hales, J (2003) *New Deal for Lone Parents Evaluation: Findings from the Quantitative Survey*. Adroddiad Ymchwil DWP 147.
- Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin (2011) Reducing the Costs in the Department for Work and Pensions. Forty-seventh Report of Session 2010–12. HC 1351.
- Raphael, S, a Winter-Ebmer, R (2001) 'Identifying the effect of unemployment on crime' yn *The Journal of Law and Economics*, cyf. 44, 22–29.
- Rayner, E, Shah, S, White, R, Dawes, L, a Tinsley, K (2000) Evaluating Jobseeker's Allowance: A Summary of the Research Findings. Adroddiad Ymchwil DWP 116.
- Riley, R, a Young, G (2000) *New Deal for Young People: Implications for Employment and the Public Finances*, Mimeo, y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.

Rotik, M, a Perry, L (2011) *Perceptions of Welfare Reform and Universal Credit*. Adroddiad Ymchwil Rhif 778.

Rotik, M, a Perry, L (2012) *Insight to support Universal Credit user-centred design*. Adroddiad Ymchwil DWP Rhif 799.

SAC (2012) A commentary for the Committee of Public Accounts on the Work Programme outcome statistics.

SAC (2012) *Managing the impact of Housing Benefit reform*.

Sainsbury, R, Hutton, S, a Ditch (1996) *Changing Lives and the Role of Income Support*. Adroddiad Ymchwil yr Adran Nawdd Cymdeithasol Rhif 45.

Sefton, T (2002) *Recent Changes in the Distribution of the Social Wage*, CASE paper 62, Ysgol Economeg Llundain.

Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr (2012) *Universal Credit for the self-employed*.

www.ion.icaew.com/TaxFaculty/25000

Sharp, N (2008) 'What's yours is mine': The different forms of economic abuse and its impact on women and children experiencing domestic violence. Refuge.

Shoag, D (2010) *The Impact of Government Spending Shocks: Evidence on the Multiplier from State Pension Plan Returns*, Mimeo.

Sims, L, Casebourne, J, Bell, L, a Davies, M (2010) Supporting lone parents' journey off benefits and into work: a qualitative evaluation of the role of In Work Credit. Adroddiad Ymchwil DWP 712.

Staniland, L (yn parhau) DWP research report into self-employment and UC. Adroddiad Ymchwil DWP. Uned Ymchwil i Bolisi Cymdeithasol, Prifysgol Caerefrog.

Storey, HC, Pearce, J, Ashfield-Watt, PA, Wood, L, Baines, E, a Nelson, M, (2011) 'A randomized controlled trial of the effect of school food and dining room modifications on classroom behaviour in secondary school children' yn *European Journal of Clinical Nutrition*, 65: 32–8.

Swartz, JA, Baumohl, J, a Lurigio, AR (2004) 'Termination of Supplemental Security Income Benefits for Drug Addiction and Alcoholism: Results of a Longitudinal Study of the Effects on Former Beneficiaries' yn *Social Service Review*, 78, 96–124.

Tonkin, R (2012) *The Effects of Taxes and Benefits on Household Income, 2010/11*.

Trickett, A, Osborn, DR, Seymour, J, a Pease, K (1992) 'What is Different about High Crime Areas?' yn *British Journal of Criminology*, 32, 1, 81–89.

Trinh, T, a Ginnis, S (2012) *Work and the welfare system: a survey of benefits and tax credit recipients*. Adroddiad i DWP.

Trysorlys, EM (2011) *Impact on households. Distributional analysis to accompany the Autumn Statement 2011*.

Unsain (2010) 'Universal Credit – is an issue for local government'. Nodyn Briffio Unsain, Ebrill 2012.

Volterra (2009) *The Fiscal Landscape: Understanding Contributions and Benefits*.

Waddell, G, a Burton, A (2006) *Is work good for your health and wellbeing?*

Warburton Brown, C (2011) 'Should mum get the credit? The impact of paying tax credits directly to mothers', cyflwyniad i Brifysgol Glasgow, www.social-policy.org.uk/lincoln2011/Warburton-Borwn%20P5.pdf

Westaway, J, a McKay, S (2007) *Women's Financial Assets and Debts*. Llundain: Cymdeithas Fawcett.

Williams Shanks, TR (2007) 'The impacts of household wealth on child development' yn y *Journal of Poverty*, 1:93–116.

Y Ganolfan Polisi Tai, Prifysgol Caerefrog (2011) *Unfair Shares: A report on the impact of extending the Shared Accommodation Rate of Housing benefit*.

Y Cyngor Ymgynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau (1998) *Drug Misuse and the Environment*. Y Swyddfa Gartref, Llundain.

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth (2012) *Advice Trends*. 2012–13 Chwarter 2 (Gorffennaf – Medi 2012).

Y Gronfa Ariannol Ryngwladol (2012) 'World Economic Outlook: Hydref 2012'.

Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (2010) 'Budget Forecast June 2010 Appendix C'.

Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (2012): *Economic and Fiscal Outlook – December 2012*.

Y Swyddfa Gartref (2003) *Modelling crime and offending: recent developments in England and Wales*. Papur Achlysurol Rhif 80.

Y Swyddfa Gartref (2004) *Domestic violence, sexual assault and stalking: findings from the British Crime Survey*.

Y Swyddfa Gartref (2007) *British Crime Survey – Measuring Crime for 25 Years* gan K Jansson, tud.32.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2005) Focus on Ethnicity and Identity, Summary Report.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2012) Internet Access Quarterly Update. 2012, Ch1, 16 Mai 2012.

Yeung, WJ, a Conley, D (2008) 'Black–white achievement gap and family Wealth' yn *Child Development*, 79: 303–324.

Zhan, M (2006) 'Assets, parental expectations and involvement, and children's educational performance' yn *Children and Youth Services Review*, 28: 961–975.

Zhan, M, a Sherraden, M (2003) 'Assets, expectations, and children's educational achievement in female-headed households' yn *Social Service Review*, 77: 191–211.

Atodiad: Effaith ddosbarthiadol gwasanaethau cyhoeddus


Effaith ddosbarthiadol debygol (1 = cynyddol iawn, 6 = atchweliadol)	Gwasanaeth
1	Gweinyddu Budd-dal Tai
	Digartrefedd
	Gofal cymdeithasol plant
	Tai (Cronfa Gyffredinol)
	Yr Heddlu
2	Trosedd a diogelwch cymunedol
	Pobl hŷn
	Gofal cymdeithasol arall i oedolion
	Gofal cymdeithasol i oedolion
	Tân ac achub
	Gwasanaethau addysg eraill
	Addysg gynradd
	Trafnidiaeth gyhoeddus (bws)
	Addysg arbennig
3	Tocynnau teithio rhad
	Llyfrgelloedd
	Addysg uwchradd
	Ieuenctid, gyrfaoedd
	Hyfforddiant seiliedig ar waith
	Cleifion mewanol/allanol ysbytai

Effaith ddosbarthiadol debygol (1 = cynyddol iawn, 6 = atchweliadol)	Gwasanaeth
4	Datblygu cymunedol
	Gofal iechyd sylfaenol
	Datblygu economaidd
	Y blynyddoedd cynnar/cyn oed ysgol
	Iechyd yr amgylchedd
	Glanhau strydoedd
	Safonau masnach
	Casglu gwastraff
5	Chwarae
	Addysg bellach
	Parciau
	Hamdden a chwaraeon
	Cynnal a chadw ffyrdd
	Goleuadau stryd
	Twristiaeth
	Rheoli traffig
6	Addysg oedolion/addysg gymunedol
	Celfyddydau a diwylliant eraill
	Cynllunio

Ffynhonnell: Bramley et al. (2005) *Mainstream Public Services and their Impact on Neighbourhood Deprivation*.
Yr Uned Adnewyddu Cymdogaethau (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog) gyda'r derminoleg wedi'i diwygio.


Ffigur 1 : Dosbarthiad budd-daliadau a gafwyd, £ y flwyddyn fesul cartref, 2006–07

(a) Hanner isaf y dosbarthiad



Ffynhonnell: Volterra (2009) *The Fiscal Landscape: Understanding Contributions and Benefits*

(b) Hanner uchaf y dosbarthiad



Ffynhonnell: Volterra (2009) *The Fiscal Landscape: Understanding Contributions and Benefits*